

**ADRAN DAU: YR ADRODDIAD AR
ATEBOLRWYDD**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board

Adroddiad ar Atebolrwydd: 2019-20



LLOFNODWYD GAN:
CAROL SHILLABEER
[PRIF WEITHREDWR]

DYDDIAD: 30 MEHEFIN 2020

CYFLWYNIAD I'R ADRODDIAD AR ATEBOLRWYDD

Mae'n ofynnol bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn flynyddol, yr un fath â phob corff GIG Cymru. Mae copïau o adroddiadau'r flwyddyn flaenorol i'w cael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd:

Mae'r Adroddiad ar Atebolrwydd yn rhan allweddol o'r Adroddiad Blynyddol. Mae gofynion yr Adroddiad ar Atebolrwydd wedi'u seilio ar y materion y mae gofyn delio â nhw mewn Adroddiad Cyfarwyddwyr, yn unol â Phennod 5 o Ran 15 Deddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 7 SI 2008 Rhif 410, ac mewn Adroddiad ar Daliadau, yn unol â Phennod 6 Deddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 8 SI 2008 Rhif 410.

Gan nad yw pob un o ofynion Deddf Cwmnïau 2006 yn berthnasol i gyrff GIG, mae'r strwythur a fabwysiadwyd yn unol â'r disgrifiad yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) Llywodraeth y Trysorlys a'r hyn y manylir arno yn Llawlyfr 2018-20 ar gyfer Cyfrifon GIG Cymru y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi.

Mae'n ofynnol i'r Adroddiad Atebolrwydd gael tair adran:

- [Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol](#)
- [Adroddiad ar Daliadau a Staff](#)
- [Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)

Rhoddir trosolwg o gynnwys pob un o'r tair adran hyn isod.

YR ADRODDIAD AR LYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Atebolrwydd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystod 2019-20. Mae hefyd yn esbonio sut bu'r trefniadau llywodraethu hyn yn cefnogi cyflawni nodau craidd y bwrdd iechyd ac yn galluogi amcanion llesiant.

Mae Ysgrifennydd y Bwrdd wedi llunio'r adroddiad, a'r brif ddogfen yw'r Datganiad ar Lywodraethu Blynyddol. Mae adolygiad o waith y bu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau'n bwrw ymlaen ag ef dros y 12 mis diwethaf wedi darparu sail ar gyfer yr adran hon o'r adroddiad, ac mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol, Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi cyfrannu ati.

Yn unol â'r gofynion y manylir arnyn nhw yn Neddf Cwmnïau 2006, mae'r Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol yn cynnwys:

- [Adroddiad y Cyfarwyddwyr](#)
- [Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddogion Atebol](#)

- [Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr o Ran y Cyfrifon](#)
- [Y Datganiad ar Lywodraethu Blynnyddol](#)

ADRODDIAD AR DALIADAU A STAFF

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am daliadau i uwch reolwyr, cymarebau tâl teg a chyfraddau absenoldeb salwch ac mae wedi'i lunio gan y Gyfarwyddiaeth Gyllid a Chyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddatgeliadau ynglŷn â rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a symiau a godir, cydymffurfiaeth â gofynion dyrannu a chodi costau y manylir arnyn nhw yng nghanllawiau Trysorlys EM, rhwymedigaethau digwyddiadol materol sy'n annhebygol o ddigwydd a thystysgrif archwiliad ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

RHAN A: ADRODDIAD AR LYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Atebolrwydd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystod 2019-20. Mae'n cynnwys:

1. Adroddiad Cyfarwyddwyr
2. Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddogion Atebol
3. Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr o Ran y Cyfrifon
4. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AR GYFER 2019-20

Mae adroddiad y Cyfarwyddwyr yn dod â gwybodaeth ynghyd am Fwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP), gan gynnwys yr Aelodau Annibynnol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, cyfansoddiad y Bwrdd ac elfennau eraill o'i strwythur llywodraethu a rheoli risg.

CYFANSODDIAD Y BWRDD AC AELODAETH

Mae Rhan 2 o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn manylu ar aelodaeth ofynnol Byrddau Byrddau Iechyd Lleol, gofynion penodi a chymhwyster aelodau, cyfnodau aelodau nad ydyn nhw'n swyddogion ac aelodau cyswllt yn y swydd. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, mae aelodau Bwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys:

- cadeirydd;
- is-gadeirydd;
- aelodau sy'n swyddogion; ac
- aelodau nad ydyn nhw'n swyddogion.

"Y Bwrdd" neu "Aelodau'r Bwrdd" yw'r enw a roddir ar aelodau'r Bwrdd ar y cyd; cyfeirir at yr aelodau sy'n swyddogion fel Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r rheini nad ydyn nhw'n swyddogion (sy'n cynnwys y Cadeirydd) fel Aelodau Annibynnol. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio llawn.

Hefyd, gall Gweinidogion Cymru benodi hyd at dri aelod cyswllt. Nid oes gan aelodau cyswllt hawliau pleidleisio.

Cyn y gellir penodi unigolyn yn aelod neu'n aelod cyswllt, mae'n rhaid iddyn nhw fodloni'r gofynion cymhwyster perthnasol, y manylir arnyn nhw yn Atodlen 2 Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau)(Cymru) 2009, ac mae'n rhaid iddyn nhw barhau i fodloni'r gofynion perthnasol gydol yr amser y maen nhw yn eu swydd.

Gellir cyrchu'r Rheoliadau trwy wefan deddfwriaeth y Llywodraeth.
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/contents/made/welsh>

AELODAU O'R BWRDD A OEDD Â PHLEIDLAIS YN YSTOD 2019-20

Yn ystod 2019-20, roedd yr unigolion a ganlyn yn aelodau o Fwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a oedd â phleidlais:

Aelod Annibynnol (AA)		
Vivienne Harpwood	Cadeirydd	Blwyddyn lawn
Melanie Davies	Is-gadeirydd	Blwyddyn lawn
Anthony Thomas	AA (Cyllid)	Blwyddyn lawn
Matthew Dorrance	AA (Awdurdod Lleol)	Blwyddyn lawn
Owen James	AA (Cymuned)	Blwyddyn lawn
Trish Buchan	AA (Y Trydydd Sector)	Blwyddyn lawn
Duncan Forbes	AA (Cyfreithiol)	Hyd 07 Awst 2019
Frances Gerrard	AA (Prifysgol)	Blwyddyn lawn
Ian Phillips	AA (TGCh)	Blwyddyn lawn
Susan Newport	AA (Ochr yr Undeb Llafur)	Blwyddyn lawn
Mark Taylor	AA (Cyfalaf ac Ystadau)	O 03 Gorffennaf 2019
Cyfarwyddwyr Gweithredol		
Carol Shillabeer	Prif Weithredwr	Blwyddyn lawn
Julie Rowles	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Blwyddyn lawn
Eifion Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a TG	Hyd 30 Mehefin 2019
Pete Hopgood	Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Cyllid a TG	O 01 Gorffennaf 2019
Hayley Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad	Blwyddyn lawn
Wyn Parry	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Blwyddyn lawn
Stuart Bourne	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Blwyddyn lawn
Rhiannon Jones	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio	Hyd 14 Gorffennaf 2019
	Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Therapiau a Gwyddorau Iechyd	
Katrina Rowlands	Cyfarwyddwr Interim Nyrsio	15 Gorffennaf 2019 hyd 20 Ionawr 2020
Alison Davies	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	O 20 Ionawr 2020
Claire Madsen	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd	O 07 Ionawr 2020
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	Hyd 14 Ebrill 2019
Jamie Marchant	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	O 11 Mehefin 2019

Yn ystod 2019/20, roedd swyddi gwag yn y Bwrdd yn cynnwys:

Aelod Annibynnol	Cyfarwyddwr Gweithredol
- Aelod Annibynnol (Cyfreithiol) o 08/08/19 ymlaen - Aelod Annibynnol (Cyfalaf) o 01/04/19 hyd 02/07/19	- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl o 15/04/19 hyd 10/06/19 - Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd o 15/07/19 hyd 06/01/20

Er bod rhai rolau ar y Bwrdd yn wag, daeth aelodau eraill o'r Bwrdd yn gyfrifol am yr agweddau hyn i sicrhau parhad busnes a threfniadau llywodraethu effeithiol. Mynychodd Aelodau Annibynnol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd lle bo angen i sicrhau bod gan gyfarfodydd gworwm ac y gallid cyflawni dyletswyddau'r Bwrdd. Bu'r Prif Weithredwr yn arwain ac yn cefnogi'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl pan roedd swydd y Cyfarwyddwr yn wag.

Ar 23 Mawrth 2020, gohiriodd Llywodraeth Cymru'r holl ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus gan Weinidogion, i ddigwydd ar unwaith. Ar adeg y gohiriad hwn, roedd gan y Bwrdd Iechyd un swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol. Y bwriad yw ailddechrau'r Ymgyrchoedd ym mis Medi 2020, ond bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r ymateb iechyd cyhoeddus i COVID-19 ddatblygu.

AELODAU O'R BWRDD HEB BLEIDLAIS YN YSTOD 2019-20

Yn ystod 2019/20, penododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Aelod Cyswllt a ganlyn i'r bwrdd fel aelod heb bleidlais:

- **Alison Bulman**, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Plant ac Oedolion), Cyngor Sir Powys.

Roedd y swyddi a ganlyn ar gyfer Aelodau Cyswllt ar y Bwrdd yn wag yn ystod 2019/20):

- Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (un o Grwpiau Cyngori'r Bwrdd)
Ni gyfarfu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn 2019/20 ac nid yw Cadeirydd wedi'i benodi hyd yma.
- Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (un o Grwpiau Cyngori'r Bwrdd)
Nid yw'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol ar waith eto, a chaiff ei sefydlu yn 2020/21.

Mae mwy o fanylion yn ymwneud â rôl a chyfansoddiad y Bwrdd i'w gweld ar dudalen 23 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Hefyd, mae bywgraffiadau byr o bob un o aelodau ein Bwrdd i'w gweld ar [wefan](#) y bwrdd iechyd. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am Weithgarwch y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

DATGANIAD O FUDDIANNAU

Caiff manylion swyddi cyfarwyddwyr cwmnïau, a buddiannau eraill arwyddocaol y mae aelodau'r Bwrdd yn eu dal a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau, eu cynnal a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae Cofrestr Buddiannau ar gael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd, neu gellir cael copi caled oddi wrth Ysgrifennydd y Bwrdd ar gais.

DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â DATA PERSONOL

Manylir ar wybodaeth am ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol y rhoddwyd gwybod amdany'n nhw'n ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a "digwyddiadau anffafriol difrifol" lle collwyd data neu cafwyd tramgwydd o ran cyfrinachedd, ar dudalen 57 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

MATERION AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r effaith y gallai ffordd y bwrdd iechyd o weithredu ei chael ar yr amgylchedd, ac mae wedi ymrwymo, lle bo'n bosibl, i:

- sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a Chyfarwydddebau Llywodraeth Cymru;
- gweithio mewn modd sy'n diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy sicrhau yr ystyrir materion amgylcheddol tymor hir a thymor byr; ac
- atal llygredd a lleihau'r effaith bosibl ar yr amgylchedd.

Mae Adroddiad ar Gynaliadwyedd y Bwrdd yn rhan allweddol o adran Adroddiad ar Berfformiad yr Adroddiad Blynyddol ac mae'n manylu mwy ar y materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd.

DATGANIAD DEILIAID GWYBODAETH Y SECTOR CYHOEDDUS

Fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac yn unol â'r gofynion y mae Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM wedi'u gosod o ran datgelu, rwy'n cadarnhau bod y bwrdd iechyd wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu a chodi costau y manylwyd arnyn nhw yng nghanllawiau Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

LLOFNODWYD GAN:

DYDDIAD: 30 MEHEFIN 2020

CAROL SHILLABEER [PRIF WEITHREDWR]

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ATEBOL: 2019-20

DATGANIAD O FY NGHYFRIFOLDEBAU PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG ATEBOL BWRDD IECHYD ADDYSGU POWYS

Yn ôl cyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru fe ddylwn i, fel y Prif Weithredwr, fod yn Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Manylir ar gyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn y Memorandwm Swyddog Atebol sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau y manylir arnyn nhw yn y llythyr yn fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Rwyf hefyd yn cadarnhau:

- nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol y mae archwilwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn anymwybodol ohoni, hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Bod adroddiad blynyddol a chyfrifon Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar y cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r barnu sy'n ofynnol i gadarnhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

LLOFNODWYD GAN:

DYDDIAD: 30 MEHEFIN 2020

**CAROL SHILLABEER
[PRIF WEITHREDWR]**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU
CYFARWYDDWYR O RAN Y CYFRIFON AR GYFER
2019-20**

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR O RAN Y CYFRIFON

Mae'n ofynnol dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 bod cyfarwyddwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Yn ôl cyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru, y mae'r Trysorlys wedi'u cymeradwyo, rhaid i'r cyfrifon hyn roi darlun gwir a theg o amgylchiadau'r bwrdd iechyd ac o incwm a gwariant y bwrdd iechyd ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

- ddefnyddio'n gyson egwyddorion cyfrifyddu sydd wedi'u gosod gan Weinidogion Cymru, y mae'r Trysorlys wedi'u cymeradwyo;
- barnu a llunio amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ochelgar; a
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, oni ddatgelir ac esbonnir unrhyw ymadawiadau perthnasol yn y cyfrif.

Ar ran cyfarwyddwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, rydyn ni'n cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi cyfrifon 2019-20; ac
- ein bod yn glir ynglŷn â'n cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu'n rhesymol fanwl gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr awdurdod, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddiadau o du Gweinidogion Cymru y sonnir amdany'n nhw uchod.

Yn unol â Gorchymyn y Bwrdd

LLOFNODWYD GAN:
VIV HARPWOOD
[CADEIRYDD]

DYDDIAD: 30 MEHEFIN 2020

LLOFNODWYD GAN:
CAROL SHILLABEER
[PRIF WEITHREDWR]

DYDDIAD: 30 MEHEFIN 2020

LLOFNODWYD GAN:
PETE HOPGOOD
[CYFARWYDDWR INTERIM CYLLID A TGCh]

DYDDIAD: 30 MEHEFIN 2020

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r Datganiad Llywodraethu Bylynyddol hwn yn manylu ar y trefniadau a oedd ar waith i reoli adnoddau a chael rheolaeth arnyn nhw yn ysgod blwyddyn ariannol 2019-20. Mae hefyd yn manylu ar y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith i sicrhau uniondeb, i liniaru risgiau ac i gynnal rheolyddion priodol i lywodraethu sefyllfaoedd corfforaethol a chlinigol.

CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, rwyf yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system rheolaeth gadarn sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion, ac sy'n diogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r sefydliad hwn yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanyn nhw. Caiff y rhain eu cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau a gaiff eu haseinio gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP, y bwrdd iechyd) yn 2003. Sefydliad sy'n comisiynu yw'r bwrdd iechyd yn bennaf, gan brynu gwasanaethau ar ran y boblogaeth o amrywiaeth eang o ddarparwyr, gan gynnwys oddi wrth gontractwyr gofal sylfaenol, cartrefi gofal y sector annibynnol, gwasanaethau ambiwlans, ysbytai cyffredinol dosbarth ac ysbytai arbenigol eraill. Mae yna amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol ledled Powys, gan gynnwys rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfan iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymunedol fel nyrsys ardal, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd, therapïau, iechyd meddwl a gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu. Mae gwasanaethau'n cael eu darparu fwyfwy ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd a Chyngor Sir Powys, yn cydweithio ac yn cronni adnoddau.

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a'n cyfleusterau yn yr adran 'Gwasanaethau' ar [wefan](#) y bwrdd iechyd. Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019-2022 a'n Hadroddiad Blynyddol hefyd yn rhoi trosolwg defnyddiol o'n gwasanaethau.

Mae Bwrdd BIAP yn atebol am lywodraethu da, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol BIAP, mae gennyf gyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n eglur yn y Memorandwm Swyddog Atebol a'r llythyr yn fy mhenodi. Mae a wnelo'r cyfrifoldebau hyn â chynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol, yn ogystal â system rheolaeth gadarn sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion, ac sy'n diogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r sefydliad hwn yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanyn nhw. Caiff y dyletswyddau hyn eu cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau y mae Swyddog Atebol GIG Cymru yn eu haseinio.

Mae Cadeirydd y bwrdd iechyd a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r GIG yng Nghymru yn fy ngalw i gyfrif am fy mherfformiad. Rwyf yn cael cyfarfodydd perfformiad ffurfiol â Chadeirydd a Phrif Weithredwr GIG Cymru. Hefyd, mae Tîm Gweithredol y bwrdd iechyd yn cyfarfod ag uwch arweinwyr yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd.

Ar adeg paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae'r Bwrdd Iechyd a'r GIG yng Nghymru'n wynebu pwysau cynyddol na welwyd mo'u tebyg o'r blaen wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rheini y mae COVID-19 yn effeithio arnyn nhw, tra ein bod hefyd yn cynllunio i ailddechrau gweithgareddau eraill lle cafwyd effaith ar hyn.

Mae'r ymateb gofynnol wedi golygu bod y sefydliad cyfan wedi gorfod gweithio'n wahanol iawn, yn fewnol a hefyd gyda ein staff, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid a bu'n angenrheidiol diwygio'r ffordd o gyflawni'r fframwaith llywodraethu a gweithredu. I gydnabod hyn, ysgrifennodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru at yr holl Brif Weithredwyr GIG yng Nghymru, o ran canllawiau ar wneud penderfyniadau yn ystod COVID-19 a chanllawiau ariannol. Cydnabu'r llythyr y byddai'n debygol y byddai sefydliadau'n gwneud penderfyniadau anodd yn gyflym a heb sylfaen dystiolaeth neu gefnogaeth unigolion allweddol a fyddai ar gael dan amgylchiadau gweithredu arferol. Er hynny, mae hi dal yn ofynnol bod y sefydliad yn dangos bod gwneud penderfyniadau wedi bod yn effeithlon ac y bydd yn bodloni unrhyw waith craffu o ran cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a dangos Gwerth am Arian ar ôl i argyfwng COVID-19 gilio ac y bydd y sefydliad yn dychwelyd i amodau gweithredu mwy arferol.

Mae'r penderfyniadau a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd mewn ymateb i COVID-19 wedi'u hesbonio yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

SWYDDOGAETHAU Y MAE BIAP YN EU GWESTEIO

Er mwyn cydymffurfio â cheisiadau o du Gweinidogion Cymru, mae BIAP yn gwesteio'r swyddogaethau a ganlyn:

- **Y saith Cyngor Iechyd Cymuned sy'n gweithredu ledled Cymru, a'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru**
Mae'r Cyngorau Iechyd Cymuned yn gweithredu ledled Cymru ac yn rhoi help a chynghor os oes gan ddinasyddion broblemau â gwasanaethau'r GIG, neu gwynion amdany'n nhw. Maen nhw'n sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion dinasyddion yn dylanwadu ar y polisiau a'r cynlluniau y mae darparwyr iechyd yn eu hardal yn eu rhoi ar waith. Maen nhw'n monitro ansawdd gwasanaethau'r GIG o safbwynt dinesydd ac yn darparu gwybodaeth am sut i gael gafael mewn gwasanaethau GIG. Sefydlwyd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru ym mis Ebrill 2004 â'r nod o gynghori, cynorthwyo a monitro Cyngorau Iechyd Cymuned o ran perfformio eu swyddogaethau a hefyd cynrychioli eu safbwyntiau a'u buddion ar y cyd i Weinidogion Cymru. Yn 2015, diwygiwyd y rheoliadau a datganwyd yn glir bod gan y Bwrdd gyfrifoldeb am osod safonau a monitro perfformiad y Cyngorau Iechyd Cymuned, ymddygiad aelodau a pherfformiad swyddogion, yn ogystal â gweithredu Gweithdrefn Gwyno.
- **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW):**
Rhith-sefydliad cenedlaethol, amlweddol yw HCRW ac mae'n cael ei ariannu a'i oruchwylio gan Is-adran Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu seilwaith i gefnogi a chynyddu capasiti ym maes ymchwil a datblygu, yn rhedeg nifer o gynlluniau ariannu ac yn rheoli gwaith dyrannu cyllid ymchwil a datblygu'r GIG yng Nghymru. Ei nod yw cynhyrchu a chefnogi ymchwil ragorol i wella iechyd a gofal pobl yng Nghymru ar draws amrywiaeth o gyflyrau ac amgylcheddau.

Nid yw Bwrdd BIAP yn gyfrifol am gyflawni amcanion y swyddogaethau hyn nac am eu rheoli o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu staffio gan ddefnyddio mecanweithiau recriwtio priodol, a'u bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog BIAP a'i bolisiau Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi enwebu ei Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fel y Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer y Cyngorau Iechyd Cymuned a'i Gyfarwyddwr Meddygol fel y Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae swyddogion allweddol o'r timau cyllid a'r gweithlu wedi'u nodi i gefnogi'r swyddogaethau, fel bo'n briodol.

Yn ystod 2019-20, gwnaethom ni barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y swyddogaethau rydyn ni'n eu gwesteio. Bu'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael trafodaeth ynglŷn â'r swyddogaethau rydyn ni'n eu gwesteio ym mis Ionawr 2020, yn sgil Adroddiad Archwiliad Mewnol Cynghorol. Gwnaeth yr Archwiliad Mewnol nifer o argymhellion ar gyfer gwelliant y byddwn ni'n bwrw ymlaen â nhw yn 2020/21.

Bydd angen datblygu fframweithiau atebolrwydd cadarn, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r cyrff a westeir, i ganiatáu i bob swyddogaeth gyflawni ei gyfrifoldebau.


EIN FFRAMWEITHIAU LLYWODRAETHU A SICRWYDD

Mae gan BIAP bwrpas clir y mae ei nodau a'i amcanion strategol wedi'u datblygu ohono. Ein gweledigaeth yw galluogi 'Powys Iach a Gofalgar'. Mae'r Bwrdd yn atebol am osod cyfeiriad strategol y sefydliad, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg effeithiol ar waith a gan alw Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif am gyflawni ei Gynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun Blyneddol cysylltiedig yn effeithiol. Mae copi o'n Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2019-20 i 2021-22 i'w weld ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

Mae **Ffigur 1** ar y dudalen nesaf yn rhoi trosolwg o'r fframwaith llywodraethu a oedd ar waith yn ystod 2019-20:

Ffigur 1: Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ffigur 1: Fframwaith Sicrwydd a Llywodraethu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



* i'w sefydlu

Y BWRDD

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff penderfynu corfforaethol, gan fod ei Gyfarwyddwyr Gweithredol a'i Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal ac maen nhw'n rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd. Mae manylion y rheiny sy'n eistedd ar y Bwrdd wedi'u cyhoeddi ar [wefan](#) y bwrdd iechyd. Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth ar dudalen 6.

Y Bwrdd sydd ar frig systemau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad. Ei brif rôl yw ymarfer arweinyddiaeth effeithiol, darparu cyfeiriad strategol a rheolaeth. Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad ac rwyf i, fel y Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol. I grynhoi, mae'r Bwrdd:

- Yn gosod cyfeiriad strategol y sefydliad o fewn polisiau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru;
- Yn sefydlu ac yn cynnal safonau llywodraethu corfforaethol uchel;
- Yn sicrhau y caiff nodau ac amcanion y sefydliad eu cyflawni trwy herio a chraffu ar berfformiad yn effeithiol ym mhob maes cyfrifoldeb;
- Yn monitro cynnydd o safbwynt cyflawni amcanion strategol a blynyddol; ac
- Yn sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol trwy weinyddu adnoddau'n effeithiol a'u defnyddio'n ddarbodus.

SAFONAU YMDDYGIAD

Mae *Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd* Llywodraeth Cymru'n berthnasol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn yn integreiddio pob agwedd ar lywodraethu ac yn ymgorffori'r gwerthoedd a'r safonau ymddygiad a ddisgwyli'r o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar bob lefel.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau mai gwerthoedd sy'n gyrru'r bwrdd iechyd, gydag egwyddorion 'Nolan' a safonau ymddygiad a bywyd cyhoeddus wedi'u gwreiddio, gan gynnwys didwylledd, safonau gwasanaeth cwsmeriaid, amrywiaeth ac arweinyddiaeth ymgysylltiedig. Mae gan y Bwrdd Bolisi Safonau Ymddygiad ar waith sy'n manylu ar ddisgwyliadau'r Bwrdd ac yn rhoi cyfarwyddyd fel bod unigolion yn cael eu cefnogi i gyflawni'r gofyniad hwnnw.

Mae'r Polisi Safonau Ymddygiad yn ailddatgan ac yn adeiladu ar ddarpariaethau Adran 7, Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad, Rheolau Sefydlog

y bwrdd iechyd. Mae'n ailbwysleisio ymrwymiad y bwrdd iechyd i sicrhau ei fod yn gweithredu i'r safonau uchaf, rolau a chyfrifoldebau'r rheini y mae'r bwrdd iechyd yn eu cyflogi, a'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod modd gwneud datganiadau o fuddiannau, anrhegion, lletygarwch, honoraria a nawdd. Mae gan y polisi nod hefyd o gasglu gwybodaeth am sut y mae'r cyhoedd yn derbyn ymddygiadau'r rheini sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, fel bod modd gweld y bwrdd iechyd fel sefydliad sydd ag arfer rhagorol yn hyn o beth.

Mae manylion am Bolisi Safonau Ymddygiad y Bwrdd, gan gynnwys Datganiadau o Fuddiannau, Anrhegion, Lletygarwch a Nawdd, ar gael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

RHEOLAU SEFYDLOG A CHYNLLUN CADW A DIRPRWYO

Mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd y bwrdd iechyd wedi'u halinio â'r gofynion y manylir arnyn nhw yn Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ac e-lawlyfr Llywodraethu Llywodraeth Cymru. Cymerwyd gofal i sicrhau bod trefniadau llywodraethu hefyd yn adlewyrchu'r gofynion y manylir arnyn nhw yn 'Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Good Practice 2011'.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Rheolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes. Maen nhw wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol y manylir arnyn nhw yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arfer gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu cynllun materion sydd wedi'u neilltuo i'r Bwrdd, sef cynllun manwl dirprwyo i swyddogion a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maen nhw'n darparu'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer sut y dylai'r bwrdd iechyd ymgymryd â'i fusnes, ac yn diffinio'i 'ffyrdd o weithio'. Mabwysiadodd y Bwrdd y Rheolau Sefydlog a oedd ar waith yn 2019-20 ar 27 Tachwedd 2019 ac maen nhw ar gael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau y gallai Gweinidogion Cymru eu rhoi, wneud trefniadau i rai swyddogaethau penodol gael eu gwneud ar ei ran fel ei bod yn bosibl cynnal busnes y bwrdd iechyd o ddydd i ddydd yn effeithiol, ac mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn cyflawni nodau ac amcanion y sefydliad. Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn, yn gyflin ag adolygu Rheolau Sefydlog a chylch gorchwyl Pwyllgorau, mae Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau'r Bwrdd wedi'i adolygu'n fanwl. Gellir gweld y ddogfen, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 27 Tachwedd 2019, ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

PWYLLGORAU'R BWRDD

Mae gan Adran 3 o Reolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ddarpariaeth sy'n nodi "*Gall y Bwrdd benodi Pwyllgorau'r bwrdd iechyd, a lle bo Llywodraeth Cymru yn gorchymyn hynny mae'n rhaid iddo eu penodi, naill ai i ymgymryd â swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i ddarparu cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth iddo ymarfer ei swyddogaethau.*" Yn unol â'r gofynion hyn, mae'r Bwrdd wedi sefydlu strwythur Pwyllgorau sefydlog y mae wedi penderfynu sy'n diwallu anghenion y bwrdd iechyd orau, tra'i fod yn ystyried unrhyw ofynion rheoleiddiol neu ofynion Llywodraeth Cymru. Mae Aelod Annibynnol o'r Bwrdd yn cadeirio pob Pwyllgor, ac mae eu cyfansoddiad yn cydymffurfio â Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru ar Bwyllgorau Bwrdd Effeithiol. Mae'r holl Bwyllgorau'n adolygu eu Cylch Gorchwyl a'u Cynlluniau Gwaith bob blwyddyn, i gefnogi busnes y Bwrdd. Mae Pwyllgorau hefyd yn cydweithio ar ran y Bwrdd i sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynol ac yn canolbwyntio ar faterion sydd â'r risg fwyaf a fyddai'n atal y bwrdd iechyd rhag cyflawni nodau ac amcanion ein cenhadaeth.

Yn ystod 2018-19, cwblhawyd adolygiad llawn ac ystyriol o strwythur pwyllgorau'r Bwrdd a phob cylch gorchwyl. Dygodd yr adolygiad hwn sylw at angen am ddull wedi'i adfywio i sicrhau: cydbwysedd priodol rhwng strategaeth a pherfformiad; a llai o ddyblygu a mwy o integreiddio rhwng pwyllgorau. Bwriwyd ymlaen â gwaith i ddatblygu trefniadau pwyllgorau diwygiedig, a chymeradwyodd y Bwrdd y rhain yn ffurfiol ym mis Mawrth 2019; rhoddwyd y trefniadau pwyllgorau diwygiedig ar waith yn 2019-20. Mae papur sy'n amlinellu'r newidiadau a wnaed, ac y cytunwyd arnyn nhw gan y Bwrdd, i'w weld ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

Dyma oedd y Pwyllgorau a oedd ar waith yn ystod 2019-20:

- Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Y Pwyllgor Gweithredol
- Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch
- Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
- Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Gellir gweld Cylchoedd Gorchwyl manwl, agendâu a phapurau ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau hyn ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar weithgareddau'r pwyllgorau. Mae hyn yn cyfrannu at asesiad y Bwrdd o risg, lefel sicrwydd a gwaith craffu i weld a yw amcanion yn cael eu cyflawni. Hefyd, ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol bod pob pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol. Roedd yna oedi â datblygu adroddiadau blynyddol pwyllgorau ar gyfer 2019/20 er mwyn rhyddhau capasiti i fod ar gael i gefnogi ymateb y bwrdd iechyd i COVID-19.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, ac mae'n cynnal cymaint o fusnes ei fwrdd a'i bwyllgorau â phosibl mewn sesiwn y mae croeso i'r cyhoedd ei mynychu ac arsylwi arni fel rheol. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau'n cyfarfod gydol y flwyddyn, a chofnodir pwy sy'n bresennol yn ffurfiol yn y cofnodion, gan fanylu ar unrhyw ymddiheuriadau a dderbyniwyd ac unrhyw ddirprwyon a enwebwyd.


O ystyried cyngor Llywodraeth Cymru ynglŷn â COVID-19, penderfynodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2020 y byddai'n cynnal cyfarfodydd yn electronig / dros y ffôn yn hytrach na mewn lleoliad ffisegol, hyd y gellir rhagweld. Bydd hyn yn golygu na fydd aelodau'r cyhoedd yn gallu mynychu yn y cawd nac arsylwi ar-lein. Gwnaeth y Bwrdd y penderfyniad hwn er budd diogelu'r cyhoedd, ein staff ac aelodau'r Bwrdd. Cytunodd y Bwrdd y bydd yn cyhoeddi crynodeb o gyfarfodydd a gynhelir ar wefan y bwrdd iechyd o fewn wythnos o'r cyfarfod, er mwyn hybu didwylledd a thryloywder. Hefyd, cytunodd y Bwrdd na fyddai'r cyfarfodydd a ganlyn yn digwydd, dros dro:

- Byddai cyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a oedd i fod i ddigwydd ar 29^{ain} Ebrill 2020 yn cael ei ganslo; Heb y cyfarfod hwn, bydd unrhyw adrodd ar gyllid a pherfformiad yn mynd gerbron y Bwrdd llawn ar 27^{ain} Mai 2020 (bydd yr Adroddiad Misol ar Gyllid yn cael ei gyhoeddi a'r Adroddiad Perfformiad Integredig) ynghyd ag unrhyw feysydd hanfodol a materion perthnasol eraill; a
- Byddai cyfarfod y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio a oedd i fod i ddigwydd ar 23^{ain} Ebrill 2020 yn cael ei ganslo, gan gydnabod y byddai'r sefydliad yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar COVID-19.

Mae Ffigur 2 isod yn rhoi trosolwg o rolau a chyfrifoldebau Pwyllgorau'r Bwrdd, fel y manylir arnyn nhw yng Nghylch Gorchwyl pob un.

Mae Ffigur 3 isod yn rhoi trosolwg o gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau a gynhaliwyd yn 2019-20.

Ffigur 2: Rolau a Chyfrifoldebau Pwyllgorau'r Bwrdd



Ffigur 3: Cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod

2019-20

Bwrdd/ Pwyllgor	Dyddiadau											
	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwe	Maw
Y Bwrdd		8 & 29		31		25		27		29		25
Archwilio, Risg a Sicrwydd		7 & 28		16		12		11		14		9
Cronfeydd Elusennol			11				15				3	
Profiad, Ansawdd a Diogelwch	16		4		1		10		3		4	
Perfformiad ac Adnoddau	30		24		6		22		16		24	
Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth		7			6			5			11	
Strategaeth a Chynllunio		2	24					1		16		14

Mae manylion Aelodau o'r Bwrdd a manylion am eu presenoldeb ar y Bwrdd i'w gweld yn **Atodiad 1**.

EITEMAU Y BU'R BWRDD YN EU HYSTYRIED YN 2019-20

Yn ystod 2019-20, cynhaliodd y Bwrdd:

- Bum cyfarfod cyhoeddus;
- Un cyfarfod eithriadol yn gyhoeddus i ystyried argymhelliad y Panel Adolygu Practis Cangen, sef Cais i gau Meddygfa Gangen Glantwymyn gan Iechyd Bro Ddyfi, a;
- Chwe sesiwn datblygu.
- Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Bwrdd (25 Mawrth 2020) mewn sesiwn gaeedig oherwydd y cyngor a'r cyfarwyddyd ynglŷn â COVID-19. Roedd hyn yn golygu na allai aelodau o'r cyhoedd fynychu yn bersonol nac arsylwi ar-lein. Gwnaeth y Bwrdd y penderfyniad hwn er budd diogelu'r cyhoedd, ein staff ac aelodau'r Bwrdd. Cyhoeddodd y Bwrdd grynodedd o'r cyfarfod ar y wefan o fewn wythnos i'r cyfarfod i hybu didwylledd a thryloywder.

Roedd gan bob un o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2019-20 gyfansoddiad priodol a oedd yn bodloni'r cworwm gofynnol.

Ymateb i COVID-19

Fis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Bwrdd ei Fodel Ymateb Clinigol i'r pandemig COVID-19. Roedd hwn yn amlinellu'r model gofal i'w roi ar waith i achub bywydau yn ystod COVID-19, ac roedd yn cynnwys pum prif elfen:

1. Aros gartref ac achub bywydau;
2. Achub Bywydau trwy Hunan-ofal, Teuluoedd a Chefnogaeth;
3. Achub Bywydau trwy wneud y defnydd gorau o'r sgiliau a'r adnoddau mewn Gofal Sylfaenol;
4. Achub Bywydau trwy wneud y defnydd gorau o'r sgiliau a'r adnoddau mewn Gofal Cymunedol; ac
5. Achub Bywydau trwy bartneriaeth gref â gofal aciwt ac arbenigol.

Mae pedair elfen gyntaf y model a amlinellir uchod yn golygu y bydd cynifer o bobl â phosibl yn gallu parhau i dderbyn eu gofal gartref neu yn agos at eu cartref ym Mhowys. Rydyn ni wedi cynyddu nifer y gwelyau, y sgiliau a'r gwasanaethau yn y gymuned i ofalu am ragor o gleifion gyda'r firws. Bydd hyn yn lleihau'r angen i gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty aciwt, ac yn dod â nhw'n nes i'w cartref pan fyddan nhw'n fwy sefydlog a phan na fydd angen gofal aciwt mewn ysbyty arnyn nhw bellach. Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi ailganolbwyntio ein hysbytai cymunedol a'n canolfannau iechyd a gofal fel eu bod nhw'n darparu lefel uwch o ofal ysbyty cymunedol o fewn y sir i'r rheini y mae angen y gofal hwn arnyn nhw. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynyddu nifer y gwelyau, cynyddu cwrdd yr arfer er mwyn i ni allu darparu lefel uwch o ofal o fewn y sir nag y byddem fel rheol, yn ogystal â sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu cymorth lliniarol gydag urddas a gofal diwedd oes. Rydyn ni hefyd yn parhau i ddatblygu cynlluniau fel bod modd cynnig capasiti ychwanegol yn lleol os oes angen cymorth iechyd a gofal ychwanegol. Bydd rhai pobl, fodd bynnag,

yn dioddef o glefydau mwy difrifol a bydd angen iddyn nhw gael eu derbyn i'r ysbyty i gael gofal arbenigol a chritigol, gyda thimau ac offer arbenigol er mwyn iddyn nhw gael y cyfle gorau bosibl o wella. Mae gennym ni berthnasoedd sydd wedi'u hen sefydlu gyda'n rhwydwaith o ysbytai cyfagos sy'n darparu gofal aciwt ac arbenigol i bobl Powys. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir yn ystod y cyfnod hwn, ac mae pob un o'n hysbytai cyfagos yn cynyddu ei gapasiti ei hun er mwyn iddo allu parhau i ddarparu gofal hanfodol – gan gynnwys gofal am ein cymunedau – ar gyfer COVID-19, yn ogystal ag ar gyfer y gwasanaethau hanfodol eraill, wrth i effaith COVID-19 gynyddu.

Fframwaith Datblygu Sefydliadol

Fis Mai 2019, ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd 'Y Siawns Gorau o Lwyddo', Fframwaith Strategol Datblygu Sefydliadol i ategu 'Powys Iach a Gofalgar' 2019-2021.

Diben y fframwaith hwn yw amlinellu'r blaenoriaethau datblygu i wella effeithiolrwydd trefniadaethol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, gan alluogi'r bwrdd iechyd i fod yn y sefyllfa orau bosibl i allu cyflawni ei ymrwymadau i drigolion Powys. Mae manylion yr ymrwymadau hyn i'w gweld yn y strategaeth iechyd a gofal 10-mllynedd: 'Powys Iach a Gofalgar' ac maen nhw ar waith yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI).

Fframwaith Strategol Dyfodol y Gweithlu

Cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Strategol Dyfodol y Gweithlu fis Ionawr 2020. Mae'r Fframwaith yn manylu ar fwriadau'r bwrdd iechyd, trwy ddisgrifio ein blaenoriaethau strategol lefel-uchel ar sail yr hyn a wyddom am sefyllfa gyfredol y gweithlu, ac mae'n sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth eglur am yr hyn sydd ei angen i gyflenwi 'Powys Iach a Gofalgar' trwy adnodd ein gweithlu. Mae'n ymrwymo i ddylunio model gweithlu iechyd a gofal a fydd yn diwallu anghenion ein dinasyddion a'n cymunedau, yn denu'r bobl iawn gyda'r sgiliau a'r wybodaeth iawn, yn parhau i werthfawrogi, i ymgysylltu a chadw ein gweithlu trwy arweinyddiaeth drugarog a chyfunol, a darparu cyfleoedd addysgu a datblygu.

Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaeth

Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2020-21 - 2022-23

Darparodd y Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer Powys, 'Powys Iach a Gofalgar', gyd-destun strategol cadarn i'r CTCI ar gyfer 2019/2020 – 2021/2022. Darparodd hyn strategaeth hirdymor y mae'r bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cytuno y dylai fod yn Gynllun Ardal Leol ar gyfer Powys. Roedd y CTCI ar gyfer 2019/2020 – 2021/2022 yn cynrychioli Blwyddyn Dau cyflawni'r strategaeth hirdymor hon. Yn ogystal â chymeradwyaeth y Bwrdd, derbyniodd CTCI 2019/2020 – 2021/2022 gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2019.

Fis Ionawr 2020, cymeradwyodd y Bwrdd ei CTCI ar gyfer 2020-23. Fis Mawrth 2020, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru i'r bwrdd iechyd yr ystyrir bod y CTCI yn

haeddu ei gymeradwyo, ar ôl asesiad cadarn, a'i fod yn darparu llinell sylfaen ar gyfer trafodaethau cynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu oedi â phrosesau'r CTCI a chaniatáu ailgyfeirio adnoddau i gynnal gwasanaethau allweddol.

Yn ystod 2019-2020, ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd hefyd:

- **Cais i Gau Meddygfa Gangen gan Iechyd Bro Ddyfi**
Cadarnhaodd y Bwrdd benderfyniad Panel Adolygu Meddygfa Gangen, a gyfarfu ar 18 Ebrill 2019, i dderbyn cais Iechyd Bro Ddyfi i gau ei safle yng Nglantwymyn ac atgyfnerthu ei wasanaethau ar ei safle ym Machynlleth o 31 Gorffennaf 2019.
- **Achos Busnes Rhaglen Rhwydwaith Trawma De Cymru**
Fis Tachwedd 2019, cymeradwyodd y Bwrdd fodel y rhwydwaith cyffredinol a ddisgrifiwyd yn yr Achos Busnes Rhaglenni (clinigol, gweithredol a llywodraethu) ar gyfer Rhwydwaith Trawma De Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Rhwydwaith Cyflenwi Gweithredol (ODN), a rôl y bwrdd iechyd fel darparwr cydrannau'r model gwasanaeth.
- **Cynllun Gwrthsefyll Pwysau'r Gaeaf Powys 2019/2020**
Fis Tachwedd 2019, cymeradwyodd y Bwrdd ei Gynllun Gwrthsefyll Pwysau'r Gaeaf a gyd-gynhyrchodd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y gymuned iechyd a gofal wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer cyfnod y gaeaf fel bod gofal diogel, amserol ac effeithiol ar gael, ynghyd â phrofiad a deilliannau positif i bobl Powys.
- **Rhaglenni Newid Strategol**
Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf a sicrwydd yn rheolaidd ynglŷn â rhaglenni newid allanol eraill, gan gynnwys: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – 'Dyfodol Clinigol'; NHS Future Fit (Ysbytai Amwythig a Telford); a Phartneriaeth Cynaliadwyedd a Thrawsnewid Henffordd a Swydd Gaerwrangon – Rhaglen Strôc

Fframwaith Ansawdd Clinigol

Fis Ionawr 2020, cymeradwyodd y Bwrdd ei Fframwaith Ansawdd Clinigol. Diben penodol Fframwaith Ansawdd Clinigol BIAP yw gwireddu gweledigaeth, sef:

"Gwelliant systematig, parhaus a chynaliadwy, dan arweiniad clinigwyr, o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn ansawdd y gofal clinigol y mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ei ddarparu'.

Yn y cyd-destun hwn a thrwy ei ddull o weithredu, mae'r fframwaith yn cwmpasu rhagbenderfynyddion sylfaenol wrth gyflenwi gofal clinigol o ansawdd uchel, gan gynnwys:

- Diwylliant sefydliadol – yn cwmpasu gonestrwydd a didwylledd
- Arweinyddiaeth glinigol
- Y fethodoleg wella sydd ar waith yn y sefydliad
- Gwybodaeth am ansawdd clinigol ac adrodd ar berfformiad

Mae'r fframwaith wedi'i strwythuro o amgylch pump o nodau sefydliadol sy'n

gysylltiedig â chymau gwella i bennu gofal o ansawdd da yng ngwasanaethau clinigol BIAP, yn ystod y cyfnod 2020-2023.

Llywodraethu, Rheoli Risg a Sicrwydd

Fe dderbyniodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf yn rheolaidd am ddatblygu a chryfhau mwy ar y trefniadau rheoli risg a sicrwydd ledled y sefydliad, ac fe gyfrannodd at hyn.

Fis Mawrth 2019, cymeradwyodd y Bwrdd ei Fframwaith Sicrwydd, gyda diweddariad chwarterol ynghylch Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar gael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd. Fis Gorffennaf 2019, cymeradwyodd y Bwrdd ei Ddatganiad Archwaeth am Risg ac ym mis Medi 2019 cymeradwyodd y diweddariad o'r Fframwaith Rheoli Risg. Bu'r Bwrdd yn ystyried ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mhob cyfarfod, gan sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli'n unol â'i archwaeth a'i drothwyon.

Fis Mai 2019, cymeradwyodd y Bwrdd: Rheolau Sefydlog diwygiedig a Chynllun diwygiedig i Gadw a Dirprwyo Pwerau.

Yn ystod 2019-20, cymeradwyodd y Bwrdd y polisïau allweddol a ganlyn i'w rhoi ar waith yn y sefydliad:

- Polisi Gweithio i Wella
Mae'r Polisi hwn yn manylu ar y trefniadau dan bolisi Gweithio i Wella a bydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn defnyddio hwn i reoli, ymateb a datrys pryderon er mwyn cyflawni gofynion deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG: Rheoliadau Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn (Cymru) 2011. Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2011, ac eithrio Rhan 7, a ddaeth i rym fis Ebrill 2012. Mae Rhan 7 y Polisi'n ymdrin ag ystyried Iawn os yw corff GIG Cymru wedi comisiynu gofal gan Ddarparwr GIG yn Lloegr - Trefniadau Trawsffiniol.
- Polisi Safonau Ymddygiad
Nod y polisi hwn yw sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi gweithwyr ac Aelodau Annibynnol i weithredu mewn modd sy'n ategu'r Fframwaith Safonau Ymddygiad, yn ogystal â manylu ar y trefniadau sydd ar waith i reoli datganiadau o fuddiannau, anrhegion, lletygarwch, honoraria a nawdd, trwy'r safonau safonol sydd ar waith.
- Polisi Llwgrwobrwyo
Diben pennaf y polisi hwn yw amlinellu safbwynt y Bwrdd Iechyd o ran cydymffurfio â'r Ddeddf Llwgrwobrwyo; manylu ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd a chyfrifoldebau'r rheini sy'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd, i atal llwgrwobrwyo a llygredd; a darparu canllawiau cryf ar sut i adrodd am unrhyw bryderon neu amheuan ynglŷn ag ymddygiad twyllodrus posibl. Mae'r polisi hwn yn ffurfio rhan allweddol o amddiffyn y Bwrdd Iechyd rhag y risgiau yn sgil trosedd economaidd.

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

Daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i rym ar 21 Mawrth 2016, a dechreuwyd ei rhoi ar waith fesul cam gyda gofyn i'w gweithredu'n llawn o 6 Ebrill 2018 ymlaen. Fis Mai 2019, derbyniodd y Bwrdd adroddiad ar y sefyllfa oddi wrth y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ynglŷn â rhoi'r Ddeddf ar waith yn lleol, gyda sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol wedi'u cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cydymffurfio. O ran gwasanaethau a gomisiynir oddi wrth ddarparwyr eraill, cynhwysir lefelau staff diogel fel gofyniad yn y Cytundeb Tymor Hir a chaiff lefelau staff eu monitro trwy Fframwaith Sicrwydd Comisiynu'r Bwrdd.

Yn ogystal â'r uchod, gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cymeradwyo'r Cyfrifon Blynnyddol ar gyfer 2018-19;
- Cymeradwyo'r Cynllun Adnoddau ar gyfer 2019-20;
- Derbyn adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a chleifion trwy straeon am brofiad;
- Cymeradwyo a monitro'r Rhaglen Cyfalaf Dewisol;
- Derbyn, ystyried a thrafod perfformiad ariannol a'r risgiau cysylltiedig y mae'r bwrdd ieched yn eu rheoli;
- Ystyried perfformiad y Bwrdd fel mater o drefn, o ran targedau cenedlaethol a lleol allweddol a chatau lliniarol cytunedig i'w cymryd mewn ymateb, er mwyn gwella perfformiad lle bo'n briodol;
- Derbyn adroddiadau sicrwydd fel mater o drefn oddi wrth Bwyllgorau a Grwpiau Cynghori'r Bwrdd.

EITEMAU Y BU PWYLLGORAU'R BWRDD YN EU HYSTYRIED

Yn ystod 2019-20, bu Pwyllgorau'r Bwrdd yn ystyried ac yn craffu ar amrywiaeth o adroddiadau a materion sy'n berthnasol i feysydd y mae'r Bwrdd wedi'u dirprwyo iddyn nhw. Ymhlith yr adroddiadau y bu'r pwyllgorau'n eu hystyried oedd amrywiaeth o adroddiadau archwilio mewnol, adroddiadau archwilio allanol ac adroddiadau oddi wrth gyrff adolygu a rheoleiddio eraill, fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Fel roedd yr achos mewn blynnyddoedd blaenorol, mae gwaith y Pwyllgorau wrth ystyried a dadansoddi gwybodaeth o'r fath wedi chwarae rhan allweddol yn fy asesiad o effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, trefniadau rheoli risg a mecanweithiau sicrwydd.

Bu'r Pwyllgorau hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar feysydd datblygu strategol lleol a chenedlaethol a meysydd polisi newydd. Mae Aelodau'r Bwrdd hefyd yn chwarae rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau eraill ar ran y Bwrdd, fel sesiynau Datblygu'r Bwrdd (o leiaf chwech y flwyddyn), mynychu cyfarfodydd partneriaeth, cysgodi ac amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol ac allanol eraill.

Ceir trosolwg o'r meysydd ffocws allweddol ar gyfer pob un o bwyllgorau'r Bwrdd yn Ffigur 4 sy'n dilyn.

Ffigur 4: Meysydd Ffocws Allweddol Pwyllgorau'r Bwrdd

Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd	▪ Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2019-20 ▪ Cadw llygad ar gyflawni rhaglen o adroddiadau archwilio mewnol ac allanol ▪ Ceisio sicrwydd o ran Gwirio ar ôl Gwneud Taliadau ▪ Cadw llygad ar ddigonolrwydd Gwasanaethau Atal Twyll Lleol ▪ Monitro rhoi argymhellion archwilio ar waith ▪ Cadw trefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer sicrwydd a rheoli risg dan sylw ▪ Adolygu a cheisio sicrwydd o ran manwl gywirdeb cyfrifon Blynnyddol ▪ Cadw llygad ar y Rhaglen Gwella Llywodraethu
Y Pwyllgor Gweithredol	▪ Bwrw ymlaen â chynlluniau gweithredu yn sgil yr Adroddiad Perfformiad Integredig a rheoli perfformiad wrth gyflawni'r cynlluniau gweithredu hynny ▪ Cadw effeithiolrwydd gweithredol polisiau a gweithdrefnau dan sylw ▪ Craffu ar strategaethau ac adroddiadau allweddol cyn eu cyflwyno i Bwyllgorau eraill y Bwrdd a/ neu i'r Bwrdd i sicrhau eu manwl gywirdeb a'u hansawdd ▪ Darparu agwedd strategol ar faterion sy'n achosi pryder, gan sicrhau cydlynid rhwng cyfarwyddiaethau ▪ Rhoi cyngor i Bwyllgorau'r Bwrdd a/ neu i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud ag ansawdd, diogelwch, cynllunio, comisiynu, cytundebau lefel gwasanaeth a mentrau rheoli newid ▪ Sicrhau bod staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar y bwrdd iechyd cyfan ▪ Gweithredu fel y fforwm y gall Cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr ei ddefnyddio i godi pryderon a materion i'w trafod yn ffurfiol, gan benderfynu ynglŷn â'r materion hyn
Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	▪ Craffu ar geisiadau am gronfeydd elusennol ▪ Cadw llygad ar incwm a gwariant cronfeydd elusennol
Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch	▪ Adolygu perfformiad o'i gymharu â dangosyddion allweddol profiad, ansawdd a diogelwch cleifion ▪ Ceisio sicrwydd o ran ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol a gwasanaethau a gomisiynir ▪ Monitro dull y bwrdd iechyd o drin cwynion a phryderon ▪ Ceisio sicrwydd o ran materion penodol, er enghraifft, Gwasanaethau Mamolaeth a Gomisiynir ▪ Cadw llygad ar ddatblygu'r Datganiad Ansawdd Blynnyddol

	▪ Derbyn adroddiadau ar faterion fel Atal a Rheoli Haint, Llesiant yn y Gwaith, Diogelu ac Iechyd a Diogelwch ▪ Monitro gofynion yr Iaith Gymraeg, cydraddoldeb ac amrywiaeth; a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd meddwl. ▪ Monitro effeithiolrwydd trefniadau sydd ar waith i gefnogi Gwella ac Arloesi ▪ Ystyried diogelu gwybodaeth a threfniadau llywodraethu cysylltiedig ▪ Ceisio sicrwydd o ran gweithredu rheoliadau Gweithio i Wella a gwersi a ddysgwyd.
Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	▪ Ceisio sicrwydd ynglŷn â rheolaeth ariannol a pherfformiad ariannol ▪ Cadw llygad ar gyflawni perfformiad y bwrdd iechyd o'i gymharu â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun Blyneddol cysylltiedig, a deilliannau lleol allweddol ▪ Ceisio sicrwydd ynglŷn â threfniadau ar gyfer rheoli perfformiad ac atebolrwydd gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a gwasanaethau a gomisiynir ▪ Monitro fframweithiau a chynlluniau'r gweithlu a datblygu sefydliadol; a monitro metrigau gweithlu allweddol ▪ Monitro gofynion GDPR a Rhyddid Gwybodaeth ▪ Monitro cyflawni deilliannau ar y cyd, gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio	▪ Cadw llygad ar ddatblygiad Rhaglen Cyfalaf Dewisol ac Achosion Busnes Cyfalaf y Bwrdd ▪ Derbyn adroddiadau ar faterion fel Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd, gan gynnwys y Cynllun Ariannol a Chynllun y Gweithlu a Chynllun Blyneddol y Bwrdd, wedi'u halinio â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ▪ Ystyried a chadw'r canlynol dan sylw: • unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd • goblygiadau ar gyfer cynllunio gwasanaeth sy'n codi yn sgil datblygu strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd a rhai ei randdeiliaid a'i bartneriaid • Cynllun Argyfyngau Sifil Posibl a Chynllun Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd

DATBLYGU'R BWRDD

Fis Gorffennaf 2019, cymeradwyodd y Bwrdd ei Gynllun Datblygu ar gyfer 2019/20 – 2020/21. Mae diben y Cynllun yn amlinellu cydrannau allweddol Bwrdd effeithiol a meysydd i'w datblygu ymhellach fel y'u nodwyd trwy broses o hunanasesu a myfyrio (Ionawr 2019) ac mae'n cadarnhau Cynllun Datblygu'r

Bwrdd i'w gyflenwi gydol 2019/20 a 2020/21.

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd y Bwrdd ran mewn nifer o sesiynau datblygu a briffio a oedd yn cwmpasu pynciau a oedd yn cynnwys rheoli risg, datblygu sefydliadol, comisiynu strategol, y prif broblemau a phynciau llosg a chyflwyniadau gan sefydliadau, er enghraifft gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Roedd y Bwrdd wedi trefnu i gynnal ei hunanasesiad a myfyrdod fis Ebrill 2020 (gan gynnwys ystyried effeithiolrwydd ei bwyllgorau). Fodd bynnag, gohiriwyd hyn o ganlyniad i COVID-19. Yn ei absenoldeb, bydd y dasg o roi Cynllun Datblygu'r Bwrdd ar waith yn parhau i'r ail flwyddyn er mwyn bod yn fwy effeithiol.

GRWP IAU CYNGHORI

Mae'n ofynnol dan Reolau Sefydlog BIAP bod y bwrdd yn sefydlu tri grŵp cyngori. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Bwrdd geisio cyngor oddi wrth ei staff a'i randdeiliaid ac ymgynghori â nhw. Sef:

- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Fforwm Partneriaeth Lleol
- Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Mae gwybodaeth ynglŷn â rôl a chylch gorchwyl pob Grŵp Cyngori i'w gweld yn Rheolau Sefydlog y bwrdd iechyd, ac mae'r rhain i'w gweld ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol nawr wedi'i hen sefydlu. Gwnaed gwaith yn 2019-20 i gryfhau trefniadau gweithredu'r Fforwm a datblygu ei rôl i ddarparu cyngor i'r Bwrdd i'r eithaf. Ystyriwyd yn 2019-20 a fyddai'n bosibl cyfuno'r Fforwm Partneriaeth Lleol â'r Grŵp Iechyd a Diogelwch. Ystyrir hyn ymhellach yn 2020-21. Ni fu'r Fforwm yn ystyried unrhyw faterion arwyddocaol a ran y Bwrdd yn ystod 2019-20.

Ni fu'r Grŵp Rhanddeiliad yn cyfarfod yn ystod 2019/20. Er bod y Bwrdd wedi nodi camau gweithredu i adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp a sefydlu amserlen cyfarfodydd yn ystod 2019/20, cyflawnwyd camau gweithredu eraill o fewn y Rhaglen Llywodraethu Blynyddol fel blaenoriaeth.

Yn ystod 2020/21, yn unol â'r Rhaglen Llywodraethu Blynyddol, gwneir gwaith i adolygu aelodaeth y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i sicrhau bod ei rôl a'i bwrpas yn glir a sicrhau ei fod wedi'i alinio â rhaglen fusnes y Bwrdd.

Nid oes gan y Bwrdd ei Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol ar waith. Er bod y Bwrdd wedi nodi camau gweithredu i sefydlu'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn ystod 2019/20, cyflawnwyd camau gweithredu eraill o fewn y Rhaglen Llywodraethu Blynyddol fel blaenoriaeth.

Gan nad yw'r Grŵp hwn yn bodoli, mae'r Bwrdd yn cyfeirio at weithwyr clinigol proffesiynol trwy ei gyfarwyddwyr clinigol (y Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Nyrsio, y Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd a'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus) a grwpiau rheoli fel Penaethiaid y Grŵp Nyrsio a Bydwreigiaeth a Phenaethiaid Therapiau. Mae'r Bwrdd hefyd yn cyfeirio at Feddygon Teulu trwy ei drefniadau clystyrau.

Y bwriad yw sefydlu'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn 2020/21, yn unol â'r Rhaglen Llywodraethu Blynyddol.

CYD-BWYLLGORAU

Mae'r Prif Weithredwr yn darparu adroddiadau rheolaidd ar waith y Cyd-bwyllgorau i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, a gellir gweld y rhain ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

PWYLLGOR GWASANAETHAU IECHYD ARBENIGOL CYMRU A PHWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYD

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys yn gyd-bwyllgorau Iechyd Cymru, a sefydlwyd dan Gyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009 (2009/35) a 2014 (2014/9 (w.9)) a Chyfarwyddiadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (Cymru) 2014 (2014/8 (W.8)).

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AC AR Y CYD

Mae'r Prif Weithredwr yn darparu adroddiadau rheolaidd ar waith y Byrddau Partneriaeth i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, a gellir gweld y rhain ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

CYNGOR SIR POWYS

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys gyfres o gytundebau Adran 33 cyffredin ac mae'r sefydliadau'n rheoli cyd-drefniadau ar gyfer Cartrefi Gofal, Cyfarpar Cymunedol, Glan Irfon, gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), Gwasanaethau Ailalluogi a Chamddefnyddio Sylweddau trwy'r cytundebau hyn. Yn ogystal â'r cytundebau Adran 33, mae yna nifer o feysydd allweddol lle ceir gwaith integredig, gan gynnwys: Gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn, gofalmwr a phlant. Caiff trefniadau Adran 33 eu goruchwyllo gan Gyd-fwrdd Partneriaeth, a amlinellir isod.

CYD-FWRDD PARTNERIAETH

Gwnaed Powys yn rhanbarth yn ei rhinwedd ei hun dan Ran 9 o Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn sgil hyn, ynghyd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, a'r cyd-ymgyrch tuag at fwy o integreiddio rhwng y bwrdd iechyd a'r Cyngor Sir, fe sefydlodd BIAP a CSP Gyd-fwrdd Partneriaeth ym mis Chwefror 2016. Mae hyn yn dod ag arweinwyr strategol enwebedig o CSP a'r bwrdd iechyd at ei gilydd i sicrhau partneriaeth effeithiol yn gweithio ar draws y sefydliadau o fewn y sir er budd pobl Powys. Mae'r Cyd-fwrdd Partneriaeth hefyd yn goruchwyllo trefniadau Adran 33, fel y sonnir uchod.

Mae'r Cyd-fwrdd Partneriaeth yn gyfrifol am gadw llygad ar yr agenda

integreiddio. Rhoddwyd Cylch Gorchwyl ffurfiol ar waith ac arwyddwyd cytundeb ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd a CSP.

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS POWYS

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r corff statudol a sefydlwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n dwyn cyrff cyhoeddus ym Mhowys ynghyd i ddiwallu anghenion dinasyddion Powys, heddiw ac yfory. Nod y grŵp yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Powys. Gan weithio'n unol â'r pum dull o weithio, mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi ei Asesiad Llesiant a'i Gynllun Llesiant. Mae'r Cynllun Llesiant, sydd wedi'i ddatblygu trwy ymgysylltu helaeth, yn gosod pedwar amcan lleol ar gyfer y Powys rydyn ni eisiau eu gweld erbyn 2040.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn trwy gyflenwi'r strategaeth iechyd a gofal a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gosod 15 cam llesiant yn ei Gynllun Llesiant ac fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar y rhain yn ystod 2018-21 i gyfrannu at gyflawni'r amcanion. Y camau hyn yw'r rheini lle gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf trwy ddatblygu atebion gyda'n gilydd.

PWYLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS POWYS

Sefydlwyd Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys ym mis Medi 2018 fel cyd-bwyllgor â chynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n eistedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys. Bu'r Pwyllgor hwn wrthi yn ystod y flwyddyn yn craffu ar gynnydd ar nifer o'r 12 o gamau yn y Cynllun Llesiant.

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL POWYS

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yw'r corff cyfreithiol statudol a sefydlwyd ym mis Ebrill 2016 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ei rôl allweddol yw nodi meysydd gwelliant allweddol ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ym Mhowys. Mae'r dasg o nodi cyfleoedd i integreiddio rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd hefyd wedi'i gosod yn gyfreithiol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyflawnwyd hyn trwy adeiladu ar y blynyddoedd o gydweithio a thrwy ddatblygu'r strategaeth iechyd a gofal sydd wedi nodi blaenoriaethau allweddol. Ceir amlinelliad o'r cyfleoedd allweddol ar gyfer gweithio integredig sydd wedi'u nodi a'r camau i'w cymryd i'w cefnogi yn y Cynllun Ardal, gan ganolbwyntio ar 'Wireddu'r Weledigaeth'. Y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yw Canolbwyntio ar Lesiant, Mynd i'r Afael â'r 4 mawr (canser, clefydau cardiofasgwlaidd, clefydau anadlol ac iechyd meddwl), Help a Chefnogaeth Gynnar a Gofal Cydgysylltiedig. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrthi ar hyn o bryd yn goruchwyllo prosiect integredig mawr yng Ngogledd Powys sy'n darparu

model gofal newydd ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ehangu i gynnwys llety â chymorth ac addysg gynradd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu Cronfa Gofal Integredig ledled Cymru i'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru. Nod y gronfa yw ysgogi a galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r defnydd o'r gronfa ym Mhowys.

Fis Medi 2019, bu Swyddfa Archwilio Cymru'n edrych i weld a yw'r gronfa'n cael ei defnyddio'n effeithiol i gyflenwi gwasanaethau cynaliadwy sy'n cyflawni gwell deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru nifer o feysydd y gallai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys eu gwella ar lefel ranbarthol, fel y manylir arnyn nhw yn eu hadroddiad. Hefyd, nododd Swyddfa Archwilio Cymru rai cwestiynau allweddol y gallai aelodau Bwrdd Byrddau Iechyd ac aelodau craffu awdurdodau lleol eu harchwilio gyda swyddogion arweiniol sy'n gyfrifol am y gronfa, er mwyn cael rheolaeth agos ar y ffordd y mae'r gronfa'n parhau i gael ei defnyddio ar draws y rhanbarth. Bydd Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio'r Bwrdd yn ystyried y rhain yn ei gynllun gwaith ar gyfer 2020/21.

CYD-BWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL CANOLBARTH CYMRU

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gydnabod canolbarth Cymru yn ffurfiol fel ardal gynllunio ddynodedig, daeth Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth yn Gyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru ym mis Mawrth 2018. Mae cynllun tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, sef 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol', yn manylu ar weledigaeth hirdymor i'r dyfodol o 'drefn system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' sy'n canolbwyntio ar iechyd, llesiant ac atal salwch.

Mae Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru'n cefnogi'r cyfeiriad teithio hwn ac mae ei Fwriad Strategol yn manylu ar yr hyn y byddwn ni'n ei wneud i sicrhau bod yna ddull cydgysylltiedig o fynd ati i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal ledled Canolbarth Cymru dros y tair blynedd nesaf.

FFORWM CYNLLUNIO A CHYFLAWNI DE DDWYRAIN CYMRU

Yn 2017-18, fe ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn sgil trafodaethau â Chadeiryddion Byrddau Iechyd, yn gofyn iddyn nhw sefydlu trefniadau Cynllunio Rhanbarthol sy'n rhoi sylw yn fuan i rai o opsiynau ailgynllunio gwasanaethau clinigol lle mae atebion y tu hwnt i ffiniau byrddau iechyd unigol.

Felly sefydlwyd y Fforwm Cynllunio a Chyflawni Rhanbarthol, sy'n cynnwys Prif Weithredwr GIG Cymru a Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

PWYLLGOR PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU GIG CYMRU

Mae Pwyllgor Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru wedi'i sefydlu dan Ymddiriedolaeth GIG Felindre sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cydwasaethau, gan gynnwys rheoli a darparu Cydwasaethau i'r GIG yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am drefniadau llywodraethu a gwesteio'r pwyllgorau hyn i'w gweld yn Rheolau Sefydlog y bwrdd iechyd ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

Y COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Y Cod Llywodraethu Corfforaethol sy'n berthnasol i gyrff y GIG ar hyn o bryd yw 'The Corporate governance code for central government departments: Code of good practice 2017'. Mae hwn i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Nid yw'n ofynnol i'r bwrdd iechyd, fel sefydliadau eraill GIG Cymru, gydymffurfio â phob elfen o'r Cod, ond mae prif egwyddorion y Cod yn ddilys gan eu bod nhw'n berthnasol i bob corff sector cyhoeddus.

Adlewyrchir y Cod Llywodraethu Corfforaethol o fewn polisïau a gweithdrefnau allweddol. Hefyd, o fewn ein system rheolaeth fewnol, mae yna amrywiaeth o fecanweithiau ar waith sydd wedi'u cynllunio i fonitro ein cydymffurfiad â'r cod. Yn eu plith mae: Hunanasesu; Archwilio mewnol ac allanol; ac Adolygiadau annibynnol.

Mae'r Bwrdd yn glir ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod, a'i fod yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r Cod, ac na wyrwyd o'r Cod o gwbl fel y mae'n berthnasol i gyrff GIG yng Nghymru.

PWRPAS Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Fel rwyf wedi adrodd mewn Datganiadau Llywodraethu Blynyddol blaenorol, mae'r system rheolaeth fewnol sydd ar waith ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na chael gwared â phob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, ac nid llwyr, o effeithiolrwydd. Seiliwyd y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y bwrdd iechyd, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Gallaf gadarnhau bod y system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y bwrdd iechyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Fodd bynnag, addaswyd neu ohiriwyd rhai elfennau o'r system rheolaeth fewnol yn ystod chwarter olaf 2019/20 i gefnogi ymateb y bwrdd iechyd i COVID-19, yn benodol:

- Ni fu Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a Phwyllgor Strategaeth a Chynllunio'r bwrdd yn cyfarfod, gyda'r Bwrdd yn amsugno unrhyw fusnes brys;
- Ni chafodd gwaith rhoi Argymhellion Archwiliad ei fonitro;
- Caewyd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2019-20 gan ohirio dau archwiliad i 2020/21;
- Ni fu'r Grŵp Risg a Sicrwydd yn cyfarfod i orchwyllo gwaith Rheoli Risgiau Gweithredol, er bod rheolwyr yn dal i fod yn gyfrifol am reoli risg yn unol â'r hyn y manylir arno yn y Fframwaith Rheoli Risg;
- Sefydlwyd Model Gorchymyn a Rheoli i arwain y cynllunio a'r ymateb i COVID-19.

Bydd y system rheolaeth fewnol yn parhau i gael ei hadolygu a'i mireinio wrth i'r sefydliad symud ymlaen i ail gyfnod ymateb i COVID-19.

Y GALLU I YMDRIN Â RISGIAU AC AGWEDDAU ALLWEDDOL AR Y FFRAMWAITH RHEOLI

Fel Swyddog Atebol, rwyf yn gyffredinol gyfrifol am reoli risg ac adrodd i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd rheoli risg yn y bwrdd iechyd drwyddo draw. Mae fy nghyngor i'r Bwrdd wedi'i seilio ar wybodaeth oddi wrth swyddogion gweithredol, adborth a dderbyniwyd oddi wrth Bwyllgorau'r Bwrdd, yn enwedig y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch.

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol (Pwyllgor y Bwrdd, fel y gwelir ar dudalen 23) yn rhoi cyfle i gyfarwyddwyr gweithredol ystyried, gwerthuso a mynd i'r afael â risg a mynd ati i ymgysylltu â'r Bwrdd a'i bwyllgorau ac adrodd iddyn nhw ar broffil risgiau'r sefydliad. Hefyd, mae'r Grŵp Risg a Sicrwydd, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Cynorthwyol ac Uwch Reolwyr i gadw llygad ar waith rheoli risgiau gweithredol, yn adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol.

Ysgrifennydd y Bwrdd yw arweinydd y bwrdd iechyd ar gyfer risg, ac mae'n gyfrifol am sefydlu'r fframwaith polisi a systemau a phrosesau sydd eu hangen i reoli risgiau yn y sefydliad. Gan ddibynnu ar natur risg, fe fydd Cyfarwyddwyr eraill yn cymryd y llyw, er enghraifft, daw risgiau i ddiogelwch cleifion o fewn cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Nyrsio, a'r Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd.

Y FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Mae'r Bwrdd o'r farn bod rheoli risg yn gadarn yn rhan hanfodol o reoli da, a'r nod yw sicrhau ei fod yn rhan hanfodol o ddiwylliant y bwrdd iechyd. Mae'n elfen gynyddol bwysig o gynllunio'r bwrdd iechyd, gosod y gyllideb a phrosesau perfformiad.

Mae Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd, a'i adolygwyd a'i ddiweddarwyd ym mis Medi 2019, yn manylu ar brosesau a mecanweithiau'r bwrdd iechyd ar gyfer nodi, asesu ac uwchgyfeirio risgiau. Mae wedi'i ddatblygu i greu diwylliant rheoli risg cadarn yn y bwrdd iechyd drwyddo draw trwy fanylu ar y dull a'r mecanweithiau y bydd y bwrdd iechyd yn eu defnyddio i:

- wneud yn siŵr bod yr egwyddorion, y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer arfer gorau wrth reoli risg yn gyson yn y bwrdd iechyd drwyddo draw, ac yn addas i'r pwrpas;
- sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli trwy Fframwaith Sicrwydd sefydliadol cadarn a bod Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Risgiau Cyfarwyddiaethau yn cyd-fynd ag ef;
- gwreiddio gweithdrefnau rheoli risg a gweithdrefnau adrodd ar risgiau lleol i sicrhau proses reoli integredig effeithiol yng ngweithgareddau'r bwrdd iechyd drwyddyn nhw draw;
- sicrhau bod dealltwriaeth o risgiau a'u heffaith debygol yn darparu sail ar gyfer penderfyniadau strategol a gweithredol;
- sicrhau bod risgiau i gyflawni amcanion strategol y bwrdd iechyd yn cael eu dileu, eu trosglwyddo neu eu rheoli'n rhagweithiol;
- rheoli'r risgiau clinigol ac anghlinigol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd mewn ffordd gydgyssylltiedig; a
- sicrhau bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau arwyddocaol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd ac am y cynlluniau cysylltiedig i drin y risg.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn manylu ar broses adrodd aml-haen, sy'n cynnwys y Fframwaith Sicrwydd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, Cofrestrau Risgiau Cyfarwyddiaethau, Cofrestrau Risgiau Lleol a Chofrestrau Risgiau Prosiectau. Mae wedi'i ddatblygu i helpu i feithrin a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n annog cymryd risg yn briodol, rheoli perfformiad yn effeithiol a dysgu sefydliadol er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir yn barhaus.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn manylu ar y ffyrdd y caiff risgiau eu nodi a'u hasesu. Mae nifer o bolisiau sy'n ymwneud â rheoli risg wrth ei wraidd, gan gynnwys adrodd ar ddigwyddiadau, llywodraethu gwybodaeth, hyfforddiant, iechyd a diogelwch, trais ac ymddygiad ymosodol, cwynion, rheoli haint, chwythu'r chwiban, adnoddau dynol, cydsynio, codi a chario a diogelwch eiddo.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg ar gael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

GWREIDDIO DULL EFFEITHIOL O REOLI RISG

Mae gwreiddio dull effeithiol o reoli risg yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd gan ei fod yn hanfodol i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion, yn rhai strategol a gweithredol ac, yn anad dim, i ddarparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel.

Fis Mawrth 2020, aeth yr Archwilwyr Mewnol ati i adolygu trefniadau Rheoli Risg a Sicrwydd y Bwrdd, gan ganolbwyntio ar sut y mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Fframwaith Rheoli Risg yn cael eu rhoi ar waith a'u diweddarau yn unol â CTCI diwygiedig. Rhoddwyd sicrwydd cyfyngedig i'r Bwrdd o ran yr adolygiad hwn.

Cadarnhaodd yr Archwiliad Mewnol fod y Bwrdd wedi mabwysiadu dull strwythuredig o fynd ati i reoli risg, lle bo risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli a, lle bo'n briodol, eu huwchgysgu neu eu hisgyfeirio trwy fecanweithiau llywodraethu'r sefydliad. Hefyd, mae Fframwaith Rheoli Risg y bwrdd iechyd yn nodi'r unigolion hynny sy'n gyfrifol am reoli risg ac yn manylu ar strwythurau a phrosesau rheoli risg allweddol y bwrdd iechyd.

Er bod yr Archwiliad Mewnol yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn ystod 2019-20 ar lefel sefydliadol a strategol i osod y fframwaith a ddefnyddir i nodi a rheoli risg, gwnaeth yr Archwiliad Mewnol nifer o argymhellion lle gellid gwneud gwelliannau wrth wreiddio risg i mewn i waith rheoli gweithredol y sefydliad. Yn ystod 2020-21, byddwn ni'n bwrw ymlaen ag argymhellion yr Archwiliad Mewnol fel blaenoriaeth.

Rydw i'n cydnabod y sicrwydd cyfyngedig roedd yr Archwiliad Mewnol yn gallu ei ddarparu o ystyried y gwendidau a nodwyd o ran y rheoli gweithredol. Rydw i'n fodlon bod y Bwrdd wedi parhau i dderbyn ac adolygu ei gofrestr risgiau corfforaethol i sicrhau bod risgiau strategol yn cael eu rheoli a chydabu'r Archwilwyr Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru hyn fel rhan o Asesiad Strwythuredig 2019.

ARCHWAETH AM RISG

Mae Datganiad Archwaeth am Risg y Bwrdd yn manylu ar ddull strategol y Bwrdd o drin cymryd risg trwy ddiffinio'i drothwyon archwaeth am risg. Mae'n ddogfen 'fyw' a fydd yn cael ei hadolygu a'i haddasu'n rheolaidd, er mwyn adlewyrchu'n briodol unrhyw newidiadau i strategaethau'r sefydliad, ei amcanion neu ei allu i reoli risg.

Wrth ddiweddarau a chymeradwyo ei Ddatganiad Archwaeth am Risg ym mis Gorffennaf 2019, bu'r Bwrdd yn ystyried yn ofalus capasiti a gallu'r bwrdd iechyd i reoli risg.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod risg yn rhan reddfodol o ddarparu a chomisiynu

gwasanaethau gofal iechyd ac felly bod angen dull diffiniedig o weithredu i gyfleu cyd-destun risg, gan sicrhau bod y sefydliad yn deall ac yn ymwybodol o'r risgiau y mae'n fodlon eu derbyn wrth fynd ar drywydd ei nodau a'i amcanion.

Datblygwyd y Datganiad Archwaeth am Risg ar gyfer 2019-20 i adlewyrchu'r archwaeth cynyddol o ran risgiau arloesol ac ariannol, a allai fod yn angenrheidiol i gefnogi cyflawni strategaeth deng mlynedd y Bwrdd, sef 'Powys Iach a Gofalgar'. Wrth gydnabod y risgiau sy'n rhan reddfodol o wasanaethau gofal iechyd, mae'r datganiad archwaeth am risg yn dechrau ar sail archwaeth isel.

Mae'r Datganiad Archwaeth am Risg yn cadarnhau nad yw'r Bwrdd yn agored i risgiau sy'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd neu ddiogelwch gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu neu'n eu comisiynu; na risgiau a allai arwain at y sefydliad yn methu â chydymffurfio â chyfraith y DU, deddfwriaeth gofal iechyd, neu unrhyw rai o'r fframweithiau rheoleiddio perthnasol rydyn ni'n eu gweithredu. Archwaeth mwyaf y Bwrdd am risg yw mynd ar drywydd arloesi a herio arferion gweithio a risgiau ariannol cyfredol o ran ei barodrwydd i gymryd cyfleoedd lle y gellir rhagweld y gallai fod ar ein ennill yn bositif, o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd rheoleiddiol.

Mae'r lefelau archwaeth am risg a ganlyn, ar sail gwybodaeth o'r Sefydliad Llywodraethu Da, wedi'u defnyddio fel sylfaen i bennu lefelau'r archwaeth y manylir arnyn nhw yn y Datganiad:

Lefel Archwaeth am Risg	Aeddfedrwydd y Risg	Disgrifiad o'r Archwaeth am Risg
ISEL (Sgôr Risg 1-6)	Minimol	Yn ffafrio opsiynau cyflenwi tra diogel, wedi'u hen sefydlu/ seiliedig ar dystiolaeth sydd â graddau risg isel.
CYMEDROL (Sgôr Risg 8-10)	Pwyllog	Yn ffafrio opsiynau cyflenwi diogel sydd hefyd yn cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill ac sydd â rhywfaint o risg hysbys ond gyda'r budd posibl yn gwrthbwyso hyn.
UCHEL (Sgôr Risg 12-15)	Yn agored	Yn fodlon ystyried pob opsiwn cyflenwi posibl, yn rhai sydd wedi'u hen sefydlu ac yn rhai newydd, ac yn gwneud dewis sydd hefyd yn dderbyniol debygol o dalu ar ei ganfed.
SYLWEDDOL (Sgôr Risg 16-25)	Yn ceisio Aeddfed	Yn awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig o bosibl talu mwy ar eu canfed er gwaethaf risg a allai fod yn fwy. Yn hyderus wrth osod lefelau archwaeth am risg uwch oherwydd bod rheolaethau, systemau sganio ymlaen a systemau ymatebolrwydd yn gadarn.

Nodir y trothwyon a ddarparwyd o fewn y Datganiad Archwaeth am Risg, a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2019, isod:

Categori Risg	Disgrifiad
ARCHWAETH AM RISG: Isel (Sgôr Risg 1-6)	
Ansawdd a Diogelwch Gwasanaethau	Mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn hollbwysig i'r Bwrdd Iechyd ac mae gennym ni archwaeth pwylllog am risg sy'n effeithio'n niweidiol ar ansawdd gofal. Rydyn ni o'r farn bod diogelwch cleifion a staff o'r pwys mwyaf ac wrth wraidd ein gallu i weithredu a chynnal gweithgareddau'r sefydliad o ddydd i ddydd. Mae ein harchwaeth yn isel am risgiau sy'n arwain at, neu sy'n achosi digwyddiadau o niwed osgoadwy i'n cleifion neu ein staff. Mae hyn yn golygu nad ydyn ni'n agored i risgiau a allai arwain at ofal neu asesiad risg glinigol o ansawdd gwael, at beidio â chydymffurfio â safonau arfer clinigol neu broffesiynol, deilliannau anfwriadol neu ymyriadau clinigol gwael. Ni fyddwn ni'n derbyn risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad amhroffesiynol, tanberfformiad, bwllo neu gymhwysedd unigolyn i berfformio rolau neu dasgau yn ddiogel, nac unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau a allai beryglu diogelwch unrhyw grŵp neu aelod o staff.
Rheoleiddio a Chydymffurfio	Ni fyddwn ni'n derbyn risgiau a allai arwain at y sefydliad yn methu â chydymffurfio â chyfraith y DU neu ddeddfwriaeth gofal iechyd, neu unrhyw fframweithiau rheoleiddio perthnasol rydyn ni'n gweithredu yn unol â nhw.
ARCHWAETH AM RISG: Cymedrol (Sgôr Risg 8-10)	
Enw Da a Hyder y Cyhoedd	Byddwn ni'n cynnal safonau ymddygiad, moeseg a phroffesiynoldeb uchel bob amser, gan arddel ein Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad, ac ni fyddwn ni'n derbyn risgiau neu amgylchiadau a allai ddifetha hyder y cyhoedd yn y sefydliad. Ni ddylid peryglu ein henw da am uniondeb a chymhwysedd â phobl Powys, partneriaid, rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru. Mae gennym ni archwaeth cymedrol am risgiau a allai effeithio ar enw da y bwrdd iechyd pan fo'r rhain yn codi o ganlyniad i'r bwrdd iechyd yn cymryd cyfleoedd i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau, o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd rheoleiddiol.
Cyllid	Mae cronfeydd cyhoeddus wedi'u rhoi yn ein gofal ac mae'n

	rhaid i ni barhau i fod yn ariannol hyfyw. Byddwn ni'n defnyddio ein hadnoddau i'r eithaf ar gyfer cleifion a staff. Ni ystyrir risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi neu wario mwy oni bai bod y rhain wedi'u cysylltu â chefnogi arloesedd a newid strategol. Ni fyddwn ni'n derbyn risgiau sy'n ein cadw'n agored i dwyll neu i dorri ein Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
ARCHWAETH AM RISG: Uchel (Sgôr Risg 12-15)	
Arloesi a Newid Strategol	Rydyn ni eisiau manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu a thyfu ein gwasanaethau trwy annog gweithgarwch entrepreneuriaidd a thrwy fod yn greadigol ac yn rhagweithiol wrth geisio mentrau newydd, sy'n gyson â'r cyfeiriad strategol y manylir arno yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac, ar yr un pryd, yn parchu ac yn glynu at ein rhwymedigaethau statudol. Byddwn ni'n ystyried risgiau sy'n gysylltiedig ag arloesi, ymchwilio a datblygu i alluogi integreiddio gofal, datblygu modelau gofal newydd a gwelliannau mewn arfer clinigol a allai gefnogi cyflawni ein gwerthoedd a'n dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y person a'r claf. Ni fyddwn ni'n cymryd risgiau oni bai bod y capasiti a'r gallu gennym ni i'w rheoli, a'n bod yn hyderus na fydd yna unrhyw effaith niweidiol ar ddiogelwch ac ansawdd y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu neu'n eu comisiynu.

PROFFIL RISG Y BWRDD IECHYD

Fel y gellir gweld o'r Map Gwres yn **Ffigur 7**, ar ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd nifer o risgiau allweddol i gyflawni amcanion strategol y bwrdd iechyd wedi'u nodi. Gellir gweld manylion llawn y rheolaethau sydd ar waith a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

Ffigur 7: Map Gwres Risg Strategol

Effaith	Catastroffig	5				
	Mawr	4	Methiant Gwasanaethau Gofal GMS y tu Allan i Oriau.	- Modelau gwasanaeth tameidiog ac anghynaliadwy o ganlyniad i angen newidiol yn y boblogaeth ac ad-drefnu gwasanaethau cyrrff cyfagos. - Nid yw'r bwrdd iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i gyflawni sefyllfa adennill costau. - Nid yw systemau IGCh yn ddigon cadarn na sefydlog i gefnogi gofal diogel, effeithiol a chyfoes. - Nid yw trefniadau llwybraethu effeithiol wedi'u hymgortio ar draws pob rhan o'r bwrdd iechyd. - Ni all y bwrdd iechyd ddenu, recriwtio a chadw staff i rai rolau meddygol a chlinigol, nyrssys a meddygon cofrestredig yn bennaf (meddygon teulu).	- Nid yw rhai gwasanaethau a gomisiynir yn gynaliadwy nac yn ddiogel, ac nid ydynt yn cyrraedd targedau cenedlaethol. - Mae'r gofal a ddarperir mewn rhai ardaloedd yn cael ei berwgu oherwydd nad yw ystad y bwrdd iechyd yn cydymffurfio ac nad yw'n addas at y diben. - Nid yw adnoddau (ariannol ac eraill) wedi'u haliu'n llawn a blaenoriaethau'r bwrdd iechyd. - Effaith andwyol bosibl ar bartiad busnes a darparu gwasanaeth yn deillio o achos pandemig o glefyd heintus gyda chanlyniadau uchel.	
	Sylweddol	3			- Nid yw'r bwrdd iechyd yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, fel yr amlinellir yn yr hysbysiad Cydymffurfio. - Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn freus, nid yn gynaliadwy, ac yn effeithio ar allu PTHB i gyflawni mesurau'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.	
	Bach	2				
	Dibwys	1				
			1	2	3	4
	Tebgrwydd	Anaml	Anghebygol	Posibl	Iebygol	Sicr

Mae trosolwg o'r risgiau allweddol (h.y. y rheini yn adran goch y Map Iechyd), a'r camau sydd wedi'u cymryd, i'w gweld yn **Ffigur 8**.

Ffigur 8: Risgiau Allweddol a Rheolaethau

DISGRIFIAD O'R RISG	RHEOLAETHAU AR WAITH, CAMAU A GYMERWYD A CHAMAU GWELLA
Nid yw rhai gwasanaethau a gomisiynir yn gynaliadwy neu'n ddiogel, ac nid ydyn nhw'n cyrraedd targedau cenedlaethol	RHEOLAETHAU AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD: - Gweithredu'r Fframwaith Comisiynu Strategol (ar gyfer comisiynu system gyfan) - Gwreiddio proses uwchgyfeirio'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu - Grŵp Comisiynu a Newid Strategol y Pwyllgor Gweithredol (yn cynnwys ystyried gwasanaethau bregus) - Adolygu rheolaidd mewn Cyfarfodydd Cyflenwi a Pherfformiad - Gwaith craffu gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau - Gwaith craffu gan y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch - Archwiliadau mewnol - Cyfarfodydd Adolygu Ansawdd a Pherfformiad Contractau ar gyfer y 15 Darparwr GIG a darparwyr allweddol yn y sector preifat - Panel a Pholisi Ceisiadau am Gyllid Cleifion Unigol - Cyd-bwyllgor a Grŵp Rheoli WHSSC - Cytuno ar Lwybr Gofal Integredig WHSSC yn CTCI BIAP - Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys - Cytundebau Fframwaith Cydwasanaethau - Cytundebau Adran 33 - Rheoliadau Comisiynwyr Cyfrifol ar gyfer Plant Agored i Niwed Sydd Wedi'i Lleoli Oddi Cartref - Manylu ar Amcanion Cyflawni Sefydliadol penodol yng Nghynllun Blyneddol y bwrdd iechyd ar gyfer 2019-20 - Cyfrannu yn y Rhwydwaith Trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr (Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion rhwng Cymru a Lloegr)

	▪ Manylu ar Fwriadau Comisiynu yn y CTCI ▪ Cyflwyno Trosolwg o Gytundebau Tymor Hir a Chytundebau Lefel Gwasanaeth y GIG i'r Pwyllgor Gweithredol (a'r broses gymeradwyo) ▪ Y Pwyllgor Gweithredol wedi cymeradwyo naratif Cytundebau Tymor Hir a Chytundebau Lefel Gwasanaethau (sy'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn) ▪ Y Prif Swyddog Gweithredol wedi llofnodi Cytundebau Tymor Hir a Chytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer gofal iechyd ▪ Datblygu Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ▪ Datblygu Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ▪ Recriwtio Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus i helpu i gryfhau'r wybodaeth am gomisiynu ▪ Polisi cymeradwyo ymlaen llaw ar waith ▪ Trefniadau polisi AEE ar waith ▪ Polisi Ymyriadau Na Wneir Fel Rheol yn destun ymgynghoriad CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2020-21: ▪ Gwreiddio gwaith comisiynu system gyfan trwy weithredu'r Fframwaith Comisiynu Strategol ▪ Gwreiddio'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu a sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith ▪ Rhoi bwriadau comisiynu ar gyfer 2018-19 ar waith ▪ Rheoli'n gadarn perfformiad pob darparwr gwasanaethau gofal cynlluniedig ar gyfer pobl Powys trwy'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ▪ Rhaglen waith i gryfhau prosesau effeithiol i ddatblygu a rheoli cynlluniau cyflyrau penodol a chynlluniau gwasanaeth ▪ Cryfhau'r wybodaeth am gomisiynu yn unol â'r CTCI ▪ Adolygu llif cleifion a gweithgarwch i mewn i wasanaethau arbenigol i sicrhau llwybrau diogel a phriodol ▪ Cryfhau capasiti, gallu a phrosesau llywodraethu'r sefydliad ar gyfer comisiynu – gan gynnwys rhyngwyneb â gwasanaethau arbenigol ▪ Fel aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, cefnogi gwaith cyflawni Cynllun Ardal Powys syn cynnwys comisiynu opsiynau llety priodol, effeithiol ac effeithlon ar gyfer pobl hŷn, plant unigol a phlant sy'n derbyn gofal ▪ Trwy'r Cyd-fwrdd Partneriaeth, parhau i ddatblygu cyfleoedd i gronni gwaith a gomisiynir oddi wrth y Trydydd Sector ▪ Recriwtio rheolwr cronfa gyfun ar gyfer Gofal Preswyl Adran 33 ▪ Cryfhau'r dull system gyfan o fynd i'r afael â'r 4 Mawr
Mae'r ffaith nad yw ystâd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio a'i bod yn anaddas i'w diben yn cyfaddawdu'r gofal a ddarperir mewn rhai meysydd	<u>RHEOLAETHAU AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD:</u> <u>YSTADAU</u> ▪ Is-grwpiau arbenigol ar gyfer pob disgyblaeth cydymffurfio ▪ Cyflwyno cynlluniau gwella seiliedig ar risgiau ▪ Nodi arweinwyr arbenigol ▪ Sefydlu Grŵp Cydymffurfio Ystadau a Grŵp Rheoli Cyfalaf ▪ Pwyllgor Nwyon Meddygol; Grŵp Diogelwch Tân; Grŵp Diogelwch Dŵr; Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ar waith ▪ Datblygu Rhaglen Gyfalaf ar gyfer cydymffurfio a'i chymeradwyo ▪ Gosod Cyfalaf ac Ystadau fel Blaenoriaeth Sefydliadol (BS 22) yng Nghynllun Blyneddol y bwrdd iechyd ar gyfer 2019-20, gydag Amcanion Cyflawni Sefydliadol cysylltiedig ▪ Rhoi sylw (yn barhaus) i faterion yn ymwneud â chynnal a chadw a chydymffurfio ▪ Mynd i'r afael â gwelliannau o ran cynnal a chadw a chydymffurfio i sicrhau

	bod amgylchedd y claf yn ddiogel, yn briodol ac yn unol â safonau <u>CYFALAF</u> ▪ Gweithdrefnau Cyfalaf ar gyfer gweithgareddau prosiect ▪ Gweithdrefnau Cyfalaf ar gyfer gweithgareddau prosiect ▪ Goruchwyllo/ cyfarfod â staff caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG fel mater o drefn ▪ Cyngor a chefnogaeth arbenigol oddi wrth Wasanaethau Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG ▪ Adolygiadau archwilio gan staff Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG ▪ Cyswllt agos â Swyddogaeth Cyfalaf Llywodraeth Cymru ▪ Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ▪ Datblygu Rhaglen Gyfalaf a'i chymeradwyo ▪ Manylu ar Achosion Busnes Strategol, Amlinellol a Llawn gan ddiffinio risg ▪ Gosod Cyfalaf ac Ystadau fel Blaenoriaeth Sefydliadol (BS 22) yng Nghynllun Blyneddol y bwrdd iechyd ar gyfer 2019-20, gydag Amcanion Cyflawni Sefydliadol cysylltiedig <u>YR AMGYLCHEDD</u> ▪ Achrediad ISO 14001 gydag archwilio allanol parhaus i gadw'r achrediad ▪ Grŵp yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ▪ Cefnogaeth a goruchwyliaeth Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (Yr Amgylchedd) Partneriaeth Cydwasanaethau GIG ▪ Cefnogaeth a chynngor Llywodraeth Cymru CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2020-21: ▪ Gweithredu'r Rhaglen Gyfalaf a datblygu'r rhaglen gyfalaf hirdymor ▪ Parhau i geisio cyllid Llywodraeth Cymru ▪ Datblygu gallu ac effeithiolrwydd y swyddogaeth Ystadau a Chyfalaf ▪ Adolygu strwythur presennol yr adran cyfalaf ac ystadau
Nid yw adnoddau (ariannol ac eraill) wedi'u halinio'n llawn â blaenoriaethau'r bwrdd iechyd	RHEOLAETHAU AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD: ▪ Y CTCI wedi'i gymeradwyo'n arwydd o hyder wrth gynllunio a chyflenwi ▪ Datblygu Fframwaith Datblygu Sefydliadol ▪ Asesu gallu sefydliadol, gan gynnwys arolwg staff, Archwiliadau Mewnol a rhai Swyddfa Archwilio Cymru, gwaith adolygu allanol ▪ Cryfhau gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gwaith rheoli'r Gronfa Gofal Canolraddol CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2020-21: ▪ Datblygu Fframwaith Strategol Dyfodol y Gweithlu a'i roi ar waith ▪ Datblygu Fframwaith Strategol Amgylcheddau Arloesol a'i roi ar waith ▪ Datblygu Fframwaith Strategol Digidol yn Gyntaf a'i roi ar waith
Effaith niweidiol bosibl ar barhad busnes a chyflenwi gwasanaeth yn sgil y brigiad yn achosion y pandemig a chlefyd heintus o ganlyniad i hyn	RHEOLAETHAU AR WAITH/CAMAU A GYMERWYD: ▪ Rhoi Fframwaith Pandemig BIAP ar waith; grŵp Aur (Strategol), grŵp Arian (Tactegol) a chyfres o grwpiau gorchwyl a gorffen wedi'u cynnull i gyfarfod yn wythnosol. Sefydlu tîm rheoli digwyddiad ▪ Cynllun Gweithredu ar waith ▪ Defnyddio rhagdybiaethau cynllunio'r senario waethaf sy'n rhesymol ei thybied y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) i fodelu effaith brigiad mewn achosion am 4-6 mis ar boblogaeth Powys a chynllunio ymateb y bwrdd iechyd ▪ Cefnogi'r system ehangach yng Nghymru trwy gyfrannu at grwpiau cynllunio ac ymateb dan arweiniad Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru

	▪ Cyhoeddi'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19 yn rheolaidd trwy Gyhoeddiadau Powys i sicrhau bod prosesau cyfathrebu effeithiol ar waith ledled y bwrdd iechyd ▪ Galw i mewn i safleoedd ysbytai allweddol BIAP i weld y trefniadau ymateb lleol ▪ Profion cymunedol ar waith i gefnogi'r cyfnod 'Cyfyngu' ▪ Dosbarthu canllawiau Llywodraeth y DU i wasanaethau sylfaenol a chymunedol CAMAU GWELLA I BARHAU Â NHW YN 2020-21: ▪ Mae'n bosibl y bydd angen rhoi trefniadau Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ar waith rywbryd yn y dyfodol, gan ddibynnu ar raddau'r brigiad mewn achosion ac effeithiolrwydd yr ymateb iechyd cyhoeddus
--	---

Fel y gwelir yn y tabl uchod, wrth ddatblygu ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-23, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r camau a fydd yn cael eu cymryd i liniaru risgiau o'r fath.

Roedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn manylu ar asesiad risg cychwynnol a oedd yn amlinellu syniad o raddfa'r risg a oedd wedi'i gynnwys o fewn y fframwaith ariannol. Roedd y risgiau'n cynnwys amrywiaeth o faterion ym ymwneud â chyflenwi, materion ym ymwneud â chydymffurfio ymhlith partneriaid, cyflawni targedau arbedion, derbyn incwm ychwanegol a risgiau'n codi o'r ffaith bod yn rhaid gwneud rhagdybiaethau wedi'u seilio ar y wybodaeth bresennol am y pwysau ar y GIG yn y dyfodol. Y Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau sydd wedi bod yn monitro'r risgiau hyn yn ystod 2019-20.

Yn ystod 2019/20, cytunodd y Bwrdd i leihau'r tebygolrwydd y byddai nifer o'r risgiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn digwydd, oherwydd effaith y camau lliniarol sy'n cael eu rhoi ar waith neu newid yn yr amgylchiadau. Yn eu plith oedd:

- Risg nad yw systemau TGCh yn ddigon cadarn neu sefydlog i gefnogi gofal diogel, effeithiol a chyfoes
- Risg nad yw'r bwrdd iechyd yn gallu denu, recriwtio a chadw staff i rai rolau meddygol a chlinigol, yn enwedig nyrsys cofrestredig a meddygon (meddygon teulu)
- Risg bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n fregus, yn anghynaliadwy, a'r effaith ar allu BIAP i gyflawni mesurau'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol
- Risg y bydd Gofal Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol y Tu Allan i Oriau yn methu

Yn ystod 2019/20, cytunodd y bwrdd y byddai'n isgyfeirio nifer o risgiau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i'r Gofrestr Risgiau Cyfarwyddiaethau, oherwydd effaith rhoi camau lliniaru ar waith neu oherwydd effaith newid mewn amgylchiadau. Yn eu plith oedd:

- Risg y bydd senario Brexit 'heb gytundeb' yn effeithio'n niweidiol ar

systemau a gwasanaethau BIAP, a sectorau allweddol o fewn economi Powys

Datganodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 yn bandemig ar 11 Mawrth 2020, ac arweiniodd hyn wedyn at angen sefydliadau GIG, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, i ganolbwyntio ar baratoadau a chynlluniau i ymdrin â chynnydd disgwylledig yn y galw oherwydd y cleifion yr oedd angen ymyrraeth arnyn nhw. Mae'r sefyllfa wedi bod yn newid yn gyson ac wedi gofyn am ymateb ystwyth.

Bydd angen i ddull y Bwrdd o drin rheolaeth risg, felly, fod yn gytbwys ac yn gymesur er mwyn sicrhau trefniadau rheoli risg effeithiol ac, ar yr un pryd, sicrhau y bydd gallu ar gael i gynllunio ar gyfer COVID-10 ac ymateb iddo. Bydd angen i'r dull o ymdrin â rhyddhau capasiti a phennu blaenoriaethau (yn gysylltiedig â COVID-19 a 'busnes fel arfer') yn ystod y cyfnod hwn gael ei bennu trwy asesiad risg.

Yn ystod y pandemig COVID-19, bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol er mwyn:

- Ystyried a fyddai angen diweddarau unrhyw risgiau sy'n bodoli eisoes i adlewyrchu effaith COVID-19 arnyn nhw pe gallai hynny leihau/cynyddu'r sgôr risg o ran tebygolrwydd a/ neu effaith;
- Ystyried a oes yna risgiau newydd yn codi o effaith COVID-19 ar gyflawni amcanion strategol y bwrdd;
- Asesu a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch y risgiau hynny lle gallai fod angen addasu goddefiant a'r archwaeth am risg er mwyn cydnabod effaith COVID-19 ar y sefydliad.

Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19, sefydlodd y Prif Swyddog Gweithredol strwythur gorchymyn a rheoli fel rhan o drefniadau Cynllunio Parhad Busnes, dan arweiniad y Grŵp Strategol (Aur). Y Grŵp Aur sy'n gyfrifol am bennu'r strategaeth a'r polisi cydgysylltiedig ar gyfer rheolaeth gyffredinol ar ymateb y bwrdd iechyd i COVID-19, er mwyn amddiffyn enw da'r sefydliad a sicrhau cyflenwad gofal sy'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel ar gyfer poblogaeth Powys.

Wrth asesu gallu'r bwrdd iechyd i ymateb i COVID-19, mae'r Grŵp Aur wedi nodi'r prif risgiau y mae gofyn eu lliniaru a'u monitro, a datblygwyd Cofrestr Risgiau COVID-19. Mae a wnelo'r risgiau a geir yng Nghofrestr Risgiau COVID-19 dim ond â threfniadau ymateb y bwrdd iechyd i COVID-19, ac nid ydyn nhw'n cynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 sy'n berthnasol i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd (a gofnodir trwy'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol) neu'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaeth (a gofnodir trwy'r Cofrestrau Risgiau Cyfarwyddiaethau).

Bydd y Grŵp (Aur) Strategol yn adolygu Cofrestr Risgiau COVID-19 yn rheolaidd, a bydd yn adrodd i'r Bwrdd ochr yn ochr â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod

2020/21.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd rôl allweddol mewn monitro effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a'r broses ar gyfer rheoli risg. Bydd gwaith yn parhau yn 2020/21 i gryfhau'r adrodd ar risgiau i Bwyllgorau'r Bwrdd.

Mae Meddygon Teulu, Fferyllwyr, Ymarferwyr Deintyddol, Optometryddion, Cartrefi Gofal Nyrsio, Mudiadau Gwirfoddol a'r rheini y mae gennym ni berthynas partneriaeth â nhw i ddarparu gwasanaeth, e.e. Awdurdodau Lleol a byrddau iechyd eraill, yn gyfrifol am nodi a rheoli eu risgiau eu hunain trwy'r prosesau contractiol sydd ar waith.

AGWEDDAU ALLWEDDOL AR Y FFRAMWAITH RHEOLI

Yn ogystal â threfniadau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau sydd wedi'u disgrifio'n gynharach yn y ddogfen hon, rwyf wedi bod yn gweithio dros y 12 mis diwethaf i gryfhau fframwaith rheoli'r bwrdd iechyd ymhellach. Mae elfennau allweddol o hyn yn cynnwys:

STRWYTHUR LLYWODRAETHU ANSAWDD

Yn ystod 2019-20, bwriodd y bwrdd iechyd ymlaen â gwaith i adolygu trefniadau a gweithgareddau i gefnogi gwaith cyflenwi gofal clinigol o ansawdd uchel. Parhaodd strwythur llywodraethu ansawdd presennol y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch i dderbyn adroddiadau ar sicrwydd a risgiau a uwchgyfeiriwyd a oedd â chysylltiad ag ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf. Sefydlwyd Grŵp Llywodraethu Ansawdd newydd ym mis Gorffennaf 2019 â ffocws i sicrhau bod systemau a phrosesau llywodraethu a rheoli cadarn ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol; adroddwyd ar hyn trwy'r Pwyllgor Gweithredol i'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch ynglŷn â materion yn ymwneud â risg neu uwchgyfeirio. Gan gydnabod ei gyfrifoldeb cyfunol am ansawdd, gyda ffocws penodol ar ansawdd clinigol a gwella ansawdd clinigol, fe gymeradwyodd y Bwrdd 'Gwella Ansawdd Clinigol: Fframwaith Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer Gweithredu 2020-2023' ym mis Ionawr 2020.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod profiad pobl yn agwedd bwysig ar sicrhau'r deilliant clinigol gorau posibl. Mae gwrando ar straeon cleifion a dysgu ohonyn nhw ar lefel y Bwrdd wedi cefnogi ffocws cryf ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person, â ffocws ar y deilliant, i helpu i ddarparu sail ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â dylunio, cyflenwi a gwerthuso cynllunio gwasanaeth. Eleni, mae'r Bwrdd wedi derbyn cyflwyniadau ynglŷn â gyrru wrth fyw â chlefyd Parkinson, dull brysbennu Powys o fynd ati i drin cleifion â chyflyrau cyhyrysgerbydol mewn gofal sylfaenol a'n model gofal ym maes therapi galwedigaethol. Mae'r rhestr wirio ar gyfer gyrru nawr yn rhan annatod o'r arfer fel rhan o'r adolygiad blynyddol rheolaidd ar gyfer unrhyw un â chlefyd Parkinson sy'n gyrru. Rhannwyd y gwelliant hwn hefyd trwy Gynhadledd Flynyddol y Prif Swyddogion Nyrsio y llynedd ac, yn fwy eang, trwy Rwydweithiau Rhagoriaeth Clefyd

Parkinson, yn ogystal â gwneud cyflwyniad poster mewn cynhadledd ryngwladol.

SAFONAU IECHYD A GOFAL

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ddefnyddio'r Safonau Iechyd a Gofal (HCS) i ddarparu sail ar gyfer ansawdd y gwasanaethau a ddarperir mewn lleoliadau cleifion mewnol. Bydd gwasanaethau'n cynnal hunanasesiadau sy'n eu galluogi i nodi arfer da, sy'n cael ei rannu ar draws y bwrdd iechyd i gynorthwyo i wella meysydd eraill. Cyfeirir at HCS yn yr holl adroddiadau i Bwyllgorau, a bydd y risgiau a'r uwchgyfeirio cysylltiedig yn cael eu codi.

Fis Rhagfyr 2019, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y byrddau iechyd i ddweud bod adolygiad o'r fframwaith safonau ar y gweill. Fel rhan o'r adolygiad, gofynnwyd i fyrddau iechyd lenwi holiadur ar effeithiolrwydd cyfredol y safonau ac, yn anad dim, p'un a ydyn nhw'n parhau i ateb y diben, ynteu a oes angen cynnal adolygiad trylwyr yn awr.

IECHYD A DIOGELWCH

Yn ystod 2019-20, buddsoddodd y bwrdd iechyd yn ei swyddogaeth Iechyd a Diogelwch, gan alinio'r tîm hwn â'r adrannau Iechyd Galwedigaethol a Hyfforddiant y Gweithlu.

Yn ystod dechrau 2019, bu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn ymweld ag amrywiol safleoedd BIAP fel rhan o fenter genedlaethol i edrych ar reolaeth Trais ac Ymddygiad Ymosodol a Chodi a Chario, gan argymhell nifer o feysydd i'w gwella. Pan ailymwelwyd â'r safleoedd fis Tachwedd 2019, adroddodd yr HSE fod BIAP wedi gwella'n sylweddol yn y meysydd a nodwyd, a bod ymwybyddiaeth, gwybodaeth ac ymroddiad y staff yn amlwg. Yn ystod yr ailymweliad, cyflwynwyd dau hysbysiad gwella a nodwyd dau dramgwydd cyfraith iechyd a diogelwch, yn gysylltiedig â chynnal profion Diogelwch Dŵr a chadernid yr asesiadau risg safle.

Mae gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch newydd linell atebolrwydd eglur trwy'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch i'r Bwrdd.

Cafodd nifer o brif bolisiau Iechyd a Diogelwch eu hadolygu, eu diweddarau a'u cymeradwyo. Mae Hyfforddiant Codi a Chario wedi'i symleiddio yn bedwar prif faes.

Mae'r templedi asesu risg a ganlyn wedi'u hadolygu a'u diweddarau:

- Asesiad Codi a Chario Cleifion a Chynlluniau Codi a Chario Mwy Diogel
- Ffurflen a chanllawiau Asesu Risg Codi a Chario Llwythi Difywyd
- Ffurflen a Phhecyn Cymorth Templed Asesu Risg Cyffredinol
- Ffurflen Asesu Risg Trais ac Ymddygiad Ymosodol Cymru Gyfan

Mae rhestrau aros ar gyfer meddygon iechyd galwedigaethol wedi'u cwtdogi o naw mis i chwech wythnos. Mae rhaglen Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) ar-lein SilverCloud ar waith, gan gynnwys darpariaeth i bobl hunangyfeirio.

FFRAMWEITHIAU DATBLYGU A SICRWYDD COMISIYNU

Mae Powys yn wahanol i Fyrddau Iechyd eraill yng Nghymru oherwydd bod rhyw 75% o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi iddo'n cael ei wario ar sicrhau gofal iechyd oddi wrth ddarparwyr nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol. Mae ein gwaith comisiynu yn rhychwantu'r continwwm, gan ei fod yn cynnwys hybu iechyd, gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gwasanaethau arbenigol, comisiynu ar gyfer cleifion unigol, gofal iechyd parhaus, comisiynu mewn partneriaeth a chyd-gomisiynu â'r awdurdod lleol.

Gan mai ardal hynod wledig yw hon, heb unrhyw Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, darperir rhyw 90% o ofal cleifion a dderbynnir i ysbyty, ac 80% o ofal eilaidd cleifion allanol, y tu hwnt i'w ffiniau. Mae'n gryn her sicrhau bod ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae ein trigolion yn eu derbyn ar draws pum economi iechyd, yng Nghymru a Lloegr, mewn hyd at 30 o wahanol arbenigeddau, yn briodol.

Yn 2019-20, dan y Fframwaith Comisiynu Strategol, mae gwaith wedi'i wneud ag arbenigwyr iechyd cyhoeddus i helpu i gryfhau'r wybodaeth am gomisiynu, gan feithrin dull o weithredu a fydd yn galluogi'r bwrdd iechyd i sganio nifer o systemau a ffynonellau gwybodaeth (gan gynnwys y System Gwybodaeth Iechyd Clinigol a system MAIR ar gyfer gwasanaethau arbenigol) i ddwyn sylw at y materion pwysicaf.

Fel rhan o'n dull o fynd ati i gomisiynu, mae gennym ni Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ar waith i sicrhau bod gennym ni ddealltwriaeth fwy diogel, fwy holistig a chadarn o'r gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu ar hyn o bryd – gyda dull wedi'i seilio ar reolau o fynd ati i uwchgyfeirio. Mae gwaith wedi'i wneud yn llwyddiannus â GIG Dyffryn Gwy i leihau'r meysydd pryder allweddol, gan gynnwys dangosyddion marwolaethau. Mae prosesau uwchgyfeirio hefyd wedi'u defnyddio o ran gwasanaethau sy'n destun mesurau arbennig, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Amwythig a Telford, lle bu pryderon sylweddol ynglŷn â'r Adran Achosion Brys a gwasanaethau mamolaeth yn arbennig. Yn ogystal â'i weithdrefnau uwchgyfeirio ei hun, mae BIAP hefyd wedi cymryd rhan mewn trefniadau rheoli risg system-eang ar gyfer y darparwr hwnnw, dan arweiniad GIG Lloegr.

Yn 2019-20, gwnaed gwaith sylweddol i ddatblygu safbwynt ar thema benodol o wasanaethau mamolaeth "ar draws y system" gyda sicrwydd mamolaeth yn rhychwantu'r holl ddarparwyr sy'n bwydo i'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu. Mae breuder rhai gwasanaethau mamolaeth cyfagos, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Amwythig a Telford a'r rheini ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, wedi bod yn bryder penodol.

Mae arweinydd penodol ar gyfer ansawdd a diogelwch gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu wedi llenwi dangosfwrdd o ddangosyddion allweddol yn dangos materion allweddol fel digwyddiadau difrifol, marwolaethau, briwiau pwyso, heintiau sy'n cael eu dal mewn ysbytai a phrofiad y claf.

Trwy Archwiliad Mewnol, roedd yna sicrwydd rhesymol o ran rheolaeth ariannol

gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cymeradwyo gwerthoedd Cytundebau ag Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, yr wyf i fy hun yn eu llofnodi fel Swyddog Atebol. Derbynnir adroddiadau rheolaidd ar gynnydd wrth gyrraedd sefyllfa lle gellir llofnodi ar ôl trafod telerau, trwy'r "Trosolwg o Gytundebau Tymor Hir a Chytundebau Lefel Gwasanaeth".

Mae "Cofnod Gwasanaethau Bregus" hefyd yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd i Grŵp Gweithredol a Chynllunio Strategol y Pwyllgor Gweithredol.

Rhoddir sicrwydd o ran gwasanaethau arbenigol i'r Bwrdd trwy gyfrwng adroddiadau trwy fframwaith ansawdd strategol Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, a sicrwydd o ran Gwasanaethau Ambiwylans Brys trwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys.

Mae Cytundeb Adran 33 sydd wedi'i llofnodi wedi bod ar waith gyda Chyngor Sir Powys ar gyfer swyddogaethau cartrefi gofal. Cafwyd hi'n anodd penodi Rheolwr Cronfa Gyfun, a gyflawnwyd ym mis Ionawr 2020. Darparodd y Bwrdd Iechyd gefnogaeth ac adnoddau interim ychwanegol yn ystod y flwyddyn i helpu i fwrw ymlaen â rhaglen waith roedd ei hangen ar gyfer y Cytundeb Adran 33, gan gynnwys datblygu adroddiad gwybodaeth ymlaen llaw i ddull sicrwydd comisiynu o weithredu.

Ymgynghorwyd ynglŷn â gweithdrefn newydd ar gyfer Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw a rhoddwyd hon ar waith, yn ogystal â pharhau i ddefnyddio polisïau a gweithdrefnau a oedd wedi'u diweddarau ar gyfer Ceisiadau Ariannu Cleifion Unigol ac achosion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, sydd wedi helpu i sicrhau prosesau cadarn ar gyfer achosion unigol hynod gymhleth.

ARCHWILIO CLINIGOL

Mae'r Strategaeth Archwilio Clinigol gyfredol i'w hadolygu yn ystod 2020, fel y nodwyd yn Fframwaith Ansawdd Clinigol y Bwrdd. Gan gydnabod bod archwilio clinigol yn un o nifer o offerynnau sy'n ein galluogi i ddarparu gofal iechyd diogel ac effeithiol o safon uchel, bydd dull BIAP o drin archwiliad clinigol yn cael ei ymgorffori mewn Strategaeth Effeithiolrwydd Clinigol a Gwella Ansawdd. Datblygwyd Cynllun Rhaglen Archwilio Clinigol yn gysylltiedig â'r Fframwaith Ansawdd Clinigol. Mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ac ailgydweddu sefydliadol. Bydd Cynllun Archwilio Clinigol yn cael ei ddrafftio ar gyfer 2020/21 sy'n ymgorffori o fewn y cynllun:

- Elfennau'r Rhaglen Archwilio Cenedlaethol fel y maen nhw'n berthnasol i BIAP;
- Dysgu o Ddigwyddiadau Difrifol (SI) neu gwynion;
- Polisi/ ymarfer newydd neu ddiwygiedig a meysydd lle y mae angen gwella'r gwasanaeth; a
- Blaenoriaethu prosiectau archwilio clinigol newydd ac eildro (gan ystyried unrhyw risgiau clinigol a gydnabyddir).

Parhaodd pob gwasanaeth clinigol i gynnig rhaglen archwilio lleol yn ystod

2019/20, gyda'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd rhan yn yr Archwiliadau Clinigol ar gyfer:

- Ailsefydlu Cardiaidd;
- Awdioleg; a
- Gofal Diabetes Gofal Sylfaenol.

FFRAMWAITH CWYNION A PHRYDERON

Gwnaed gwaith sylweddol yn 2019/20 i gydymffurfio'n well â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011. O ganlyniad i hyn, gwnaed gwaith dan arweiniad y Tîm Gweithredol yn canolbwyntio ar wella'r ffordd y mae digwyddiadau difrifol yn cael eu rheoli, gan gynnwys archwilio, dysgu a rhannu gwersi. Targedwyd pryderon/ cwynion â'r nod o ddarparu ymatebion o ansawdd o fewn fframiau amser a fyddai'n cael eu hasesu. Mae'r gwaith hwn yn parhau trwy Gwella Ansawdd Clinigol: Fframwaith Gweithredu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 2020-2023, sy'n manylu ar ein targedau clir ar gyfer gwella ansawdd clinigol, diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad y claf.

Mae manylion pellach am gwynion a phryderon i'w gweld yn Natganiad Ansawdd Blynyddol 2019-2020 ac Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2019-2020. Mae rhagor o wybodaeth am Weithio i Wella i'w gweld ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

ADOLYGIADAU O FARWOLAETHAU

Mae'r broses arferol ar gyfer adolygu marwolaethau cleifion mewnol yn parhau i gael ei defnyddio yn ysbytai Powys trwy gydol y flwyddyn, ond bwriedir cyflwyno newid yn 2020 i adolygiad chwarterol o farwolaethau ledled Powys. Bu grŵp wrthi hefyd yn adolygu'r modiwl Datix arfaethedig ar gyfer dogfennaeth adolygu marwolaethau. Cynigiodd defnyddwyr Powys adborth helaeth i'r gwneuthurwyr. Ffurfiwyd cysylltiadau hefyd â swyddfa Archwilydd Meddygol Cymru Gyfan ynglŷn â'r defnydd o'r feddalwedd yn y dyfodol. Yn anffodus, mae'r pandemig coronafeirws yn achosi oedi ar hyn o bryd i roi'r adolygiadau chwarterol, meddalwedd Datix neu rôl lawn yr Archwilydd Meddygol ar waith yn derfynol. Cyflwynwyd adroddiad yn crynhoi adolygiadau o farwolaethau lleol i Bwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd ym mis Tachwedd 2019.

DATGANIAD ANSAWDD BLYNYDDOL

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi cyfle i:

- rannu pa mor dda rydyn ni'n ei wneud ar draws yr holl wasanaethau ac ar draws y llwybr cleifion, gan gynnwys gweithio gyda gofal cymdeithasol a'r trydydd sector;
- hybu arfer da i'w rannu a'i ledaenu'n fwy eang;
- cadarnhau unrhyw feysydd sydd angen gwella;
- adrodd ar ein cynnydd o'r naill flwyddyn i'r nesaf;
- rhoi cyfrif i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill am ansawdd ein gwasanaethau; ac

- ymgysylltu â'n cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gofal a dderbynnir.

Bydd y bwrdd iechyd yn cyhoeddi ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol erbyn 30 Medi 2020. Bydd hwn yn rhoi crynodeb o weithgareddau'r bwrdd iechyd wrth fynd i'r afael ag anghenion lleol. Bydd y Datganiad Ansawdd Blynyddol yn dwyn sylw at grynodeb o'r camau a gymerwyd i wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir, ynghyd â chyfeiriad at Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), y bwriedir ei gyflwyno o fewn y flwyddyn nesaf. Gellir gweld Datganiadau Ansawdd Blynyddol y bwrdd iechyd ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

PORTFFOLIOS GWEITHREDOL

Fis Tachwedd 2019, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau wedi'i ddiweddarau. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ddirprwyo cyfrifoldeb i Gyfarwyddwyr Gweithredol. Seilir dyraniad cyfrifoldebau ar sicrhau bod yr atebolrwydd a'r awdurdod ym mhorthffolio pob Cyfarwyddwr a Chyfarwyddiaeth wedi'u halinio'n briodol, a hefyd ar sicrhau bod y cyfarwyddiaethau'n canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd. Mae'r Cynllun Dirprwyo hefyd yn cefnogi cryfhau arweinyddiaeth glinigol. Ceir trosolwg o bortffolios Cyfarwyddwyr Gweithredol yn **Ffigur 9**.

Ffigur 9: Portffolios Gweithredol – Tachwedd 2019

Prif Weithredwr			
Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd Heddwf	Cyfarwyddwr Meddygol	Cyfarwyddwr Nyrso	Cyfarwyddwr Cyllid a Thecnoleg Gwybodaeth
- Cyflenwi gwasanaethau sylfaenol a chymunedol - Trefniadau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau - Achrediad gwell gwasanaethau - Gweithredoli gofal iechyd parhaus - Mynediad at dargedau RTT, a goruchwyllo perfformiad gwasanaeth ambiwlans - Oedi wrth drosglwyddo gofal - Rheoli perfformiad contractwyr Gofal Sylfaenol - Agenda Integreiddio - Datblygu Gofal Sylfaenol, gan gynnwys Cystyrau - Symud cleifion traigâr o wasanaethau GMS - Gweithredoli Rheoli Meddyginiaethau	- Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad Clinigol - Rheoli Meddyginiaethau - Gwarcheidwad Caidcott - Archwiliad Clinigol - Deddfwriaeth Feddygol & Pholisi Genedlaethol - Safonau'r Gweithlu Daintyddol & Meddygol Proffesiynol, Rheoliad & Aiddilysu - Diogelwch & Ansawdd Gwaed - Rheoli Organau - Rhwyrddwriaeth Clinigol - Cydymffurfiaeth NICE - Gwasanaethau Uffrigell - Comisiynu Cleifion Unigol - Cydymffurfiaeth â Safonau Coleg Brenhinol Meddygol - Gwella Arloesi a Gwasanaethau - Mynediad at y restr perfformwyr - Materion Mainwaeodd Dynol - Ymchwil a Datblygu - Dadebru - Arolwg manwolaeth	- Arweinyddiaeth proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, gan gynnwys safonau, addysg, rheoliad, aiddilysu a goruchwyllo bydwragedd - Ansawdd, Profiad y Claf & Bodlonrwydd, Codi Pryderon a Gweithio i Wella - Rhybuddion Diogelwch Cleifion - Dihalegi - Strategaeth Gofal Nyrsio a Ariannir a Gofal Iechyd Parhaus - Diogelu Oedolion a Phlant - Maeatheg & Hydradu Trefniadau diogelu wrth amddiffadu o ryddid - Atal a Rheoli Heintiau - Gofalwyr - Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc - Gwirfoddoli	- Dylatswyddi Ariannol Statudol gan gynnwys cyfrifon blynnyddol - Cynllunio Ariannol - Rheoli, monitro ac adrodd ariannol - Systemau a rheolaethau ariannol - Caffael - Gwrth-dwyll - Cyfrifeg Cronfeydd Elusannol - Trefniadau ariannol HCRW & CHC - Cyflenwi strategaeth a gwasanaethau IM&T - Darpariaeth systemau gwybodaeth clinigol a rheoli, Sallwaith TCG a Theleaffoni - Deallusrwydd Busnes, ansawdd data a chodio clinigol - Darpariaeth gwasanaethau ariannol i gyfarwyddiaethau - Cysylltu ag Archwilywyr Ariannol Allanol - Cyfrifeg Asedau
Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol & Gwasanaethau Cymorth
- Trefniadau Cynllunio - Comisiynu, gan gynnwys rheoli perfformiad gwasanaethau wedi'u chomisiynu & pherthynas â WHSSC - Cysylltu â'r Trydydd Sector - Gofal Iechyd Trawsffiniol - Rheoli Perfformiad - Ystadau gan gynnwys cynaliadwy amgylcheddol - Cysylltu â CHC yn ymwneud â newid gwasanaethau - Arweinyddiaeth proffesiynol cynllunio, rheoli perfformiad, comisiynu, ystadau cyfalaf a newid gwasanaethau	- Strategaeth Gwella Iechyd - Assesiad Anghenion Iechyd - Cynllunio Iechyd Cyhoeddus - Mentrau Iechyd Cyhoeddus - Monitro a Gwylidwriaeth Iechyd Cyhoeddus - Rheoli Brigiad - Argyfwng Sifil Posibl, Cynllunio Brys a Pharhad Busnes - Darpariaeth Cyngor Iechyd Cyhoeddus - Uwedd Arfog & Cym-filwyr - Iechyd a gofal derbodus - Deddf Ulesiant - Cenelaethau'r Dyfodol - Arweinyddiaeth proffesiynol gweithlu'r iechyd cyhoeddus - Adroddiad Blyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus	- Arweinyddiaeth proffesiynol therapiau a gwyddorau iechyd - Arweinydd am radioleg, radiograffeg, strôc a gwasanaethau niwrolegol - Dyfeisiau Meddygol - Hawliau Dynol - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - Darpariaeth Gymraeg	- Cyflogaeth a pherthnasoedd staff ac ymgysylltiad - Cynllunio'r Gweithlu - Polisiau ac Ymarferion y Gweithlu - Iechyd a Lles Cyflogeon gan gynnwys gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol - Trefniadau Partneriaeth Undebau Uafur - Systemau Rheoli Gwybodaeth y Gweithlu - Fframwaith Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad - Codi Pryderon - Trefniadau Datgelu a Gwahardd - Iechyd a Diogelwch - Diogelwch Tân - Tactio Trais ac Ymddygiad Ymosodol - Gwasanaethau Cyfleusterau - Rheoli Cofnodion Cyflogeon

STAFF AC YMGYSYLLTU Â STAFF

Rydyn ni'n ymgysylltu â'n staff mewn nifer o ffyrdd sy'n rhan o'r gwiriadau a balansau rydyn ni'n eu gwneud i alluogi llywodraethu da.

Mae'r Bwrdd wedi rhoi Fforwm Partneriaeth Lleol ar waith fel grŵp cynghori ffurfiol. Pwrpas y Fforwm Partneriaeth Lleol yw darparu mecanwaith ffurfiol lle mae'r bwrdd iechyd, fel cyflogwr, ac undebau llafur/cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli gweithwyr y bwrdd iechyd yn cydweithio i wella gwasanaethau iechyd i ddinasyddion Powys; cyflawnir hyn trwy broses reolaidd ac amserol o ymgynghori, trafod telerau a chyfathrebu. Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn caniatáu ymgysylltu ynglŷn â blaenoriaethau lleol ar gyfer materion yn ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd.

Yn ogystal â'r mecanweithiau ffurfiol hyn, mae gennym ni broses ymgynghori sy'n agored i'n holl staff ar gyfer pob polisi sefydliadol newydd a diwygiedig, a digwyddiadau ymgysylltu â staff. Defnyddir y mecanweithiau hyn ochr yn ochr â Facebook, Twitter, Cyhoeddiadau Powys, Cylchlythyr wythnosol a ffyrdd rhithwir eraill i staff rannu eu gwaith a'u barn.

Mae rhaglenni ymgysylltu a chyfathrebu positif â staff wedi ein galluogi i sicrhau bod nifer fawr o bobl yn manteisio ar frechiadau'r fflw, ac i barhau â'n rhaglenni i wreiddio ein gwerthoedd i sicrhau diwylliant caredig a thosturiol yn y sefydliad drwyddo draw, gan gynnwys Gwobrau Rhagoriaeth Staff llwyddiannus iawn.

CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Yn ystod 2019-20, rydyn ni wedi parhau i gryfhau ein systemau a'n prosesau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu.

Y prif weithgaredd ymgynghori ffurfiol eleni oedd y cyfnod dadansoddi a dod i benderfyniad yn sgil ymgynghori ffurfiol ynglŷn â'r cynigion yn ymwneud â gofal sylfaenol Iechyd Bro Ddyfi.

Fodd bynnag, roedd hon yn flwyddyn arwyddocaol i raglenni ymgysylltu gyda chynllunio, lansio a chyflenwi rhaglen ymgysylltu partneriaeth gynhwysfawr ar gyfer Rhaglen Llesiant Gogledd Powys yn dod i'w anterth ar ddiwedd y flwyddyn gyda datblygu'r Model Gofal newydd. Ochr yn ochr â hyn, cynlluniodd a lansiodd tîm ymgysylltu a chyfathrebu'r bwrdd iechyd raglen ymgysylltu ar y gwasanaethau podiatreg.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni hefyd wedi cryfhau ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi cyflawni amrywiaeth o ymgyrchoedd, cyhoeddiadau a digwyddiadau, a hynny gan gydgyhyrchu mwy a mwy gyda rhanddeiliaid. Mae enghreifftiau'n cynnwys parhau â rhaglen Gofal a Chymorth Lleol dan arweiniad Llywodraeth Cymru i hybu dewisiadau amgen i Ofal Sylfaenol Meddygon Teulu.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi parhau â'n gwaith o drosglwyddo gwefan y bwrdd iechyd o System Reoli Cynnwys Cascade i lwyfan newydd y mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru'n ei rhoi ar waith. Bydd gwaith symud y wefan drosodd yn parhau yn ystod 2020/21 ar ôl yr oedi yn ystod Chwarter 4 oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar COVID-19.

Fel y crybwyllwyd uchod, mae llawer o'r ffocws yn ystod Chwarter 4 wedi bod ar fater COVID-19 wrth iddo ddod yn fwyfwy amlwg, gyda chapasiti a gallu ymgysylltu a chyfathrebu'r bwrdd iechyd â'u dwylo'n llawn yn cynorthwyo â mynd i'r afael â'r argyfwng iechyd cyhoeddus anferthol hwn.

LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Llywodraethu Gwybodaeth yw'r ffordd y mae'r bwrdd iechyd yn trin yr holl wybodaeth, yn enwedig gwybodaeth bersonol a sensitif sy'n ymwneud â'n cleifion, ein defnyddwyr gwasanaeth a'n gweithwyr. Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn manylu ar y gofynion a'r safonau y mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd eu cyrraedd i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau i drin gwybodaeth yn ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am Lywodraethu Gwybodaeth yn y bwrdd iechyd, ac mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn gweithredu fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yw Swyddog Diogelu Data (DPO) enwebedig y bwrdd iechyd, yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Y Cyfarwyddwyr Meddygol yw'r Gwarcheidwad Caldicott enwebedig. Mae perfformiad o'i gymharu â deddfwriaeth sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei gipio ac adroddir ar hyn i'n Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau <https://biap.gig.cymru/amdanom-ni/y-bwrdd/pwyllgorau-partneriaethau-a-grwpiau-cynghori/pwyllgorau-bwrdd-iechyd-addysgu-powys/pwyllgor-perfformiad-ac-adnoddau/>

Yn ystod yr ymateb i Covid-19, dibynnir ar Lywodraethu Gwybodaeth mwy fyth wrth i dechnolegau newydd gael eu cyflwyno i rannu gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a staff. Mae dangosyddion perfformiad yn erbyn deddfwriaeth sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys y canlynol:

- **HYFFORDDIANT LLYWODRAETHU GWYBODAETH**

Llywyddodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gydymffurfio 93% o ran hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth gorfodol ar gyfer 2019-20. Roedd hyn yn rhagori ar y cydymffurfio cenedlaethol cyfartalog o ran hyfforddiant, ac ar y targed a osodwyd ar gyfer cydymffurfio yn sefydliadau GIG Cymru.

- **DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â DATA PERSONOL (TRAMGWYDDAU)**

Sefyllfa pan y mae diogelwch yn cael ei dorri gan arwain at ddifrodi, colli, newid, datgelu heb awdurdod neu fynediad i ddata personol, boed yn ddamweiniol neu anghyfreithlon, yw digwyddiad data personol. Yn unol â gofynion GDPR, rhaid adolygu pob digwyddiad data personol yn ddyddiol a, phan ystyrir bod unrhyw ddigwyddiadau'n sylweddol, rhaid rhoi gwybod amdany'n nhw'n ffurfiol i Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr. Yn ystod 2019/20, rhoddwyd gwybod yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am chwe digwyddiad data personol. Roedd y rhain yn cynnwys datgelu gormod i'r llysoedd a datgelu gormod i berthnasau cleifion. Ni chododd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw gosbau ariannol ar y bwrdd iechyd o ganlyniad i'r digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdany'n nhw. Fodd bynnag, gwnaeth y bwrdd iechyd fabwysiadu argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn lleol, ac mae'r argymhellion hyn ar fin cael eu hychwanegu at gofrestr argymhellion yr archwilwyr mewnol, ac rydyn ni'n parhau i dderbyn unrhyw wersi a ddysgwyd neu adborth. Adroddir ar ffigyrau sy'n dangos nifer y tramgwyddau sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth i'n Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch (<http://www.powysthb.wales.nhs.uk/experience-quality-and-safety-committee>)

- **DEDDF RHYDDID GWYBODAETH**

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i'r cyhoedd gael gweld amrywiaeth o gofnodion a gwybodaeth y mae cyrff cyhoeddus yn eu cadw, ac mae'n darparu ymrwymiad i fod yn fwy agored a thryloyw yn y sector cyhoeddus. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020, derbyniodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gyfanswm o 354 o geisiadau am wybodaeth, ac atebwyd 201 o'r rhain o fewn y targed o 20 diwrnod. Derbyniwyd pedwar cais am adolygiad mewnol, a derbyniwyd un cwyn o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Archwiliwyd y Cynllun Cyhoeddiadau gan adolygu'r 7 dosbarth gwybodaeth sy'n ofynnol eu cyhoeddi ar [wefan](#) y bwrdd iechyd. Mae'r sefydliad yn cydymffurfio â 49 o'r 60 safon ac mae gwaith yn parhau i gynyddu â'r meysydd nad ydyn nhw'n cydymffurfio.

Adroddir yn rheolaidd ar ddangosyddion perfformiad allweddol ynglŷn â cheisiadau mynediad at wybodaeth i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Bwrdd ac mae papurau ar gael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

- **PECYN CYMORTH LLYWODRAETHU GWYBODAETH CYMRU**

Offeryn hunanasesu cenedlaethol yw'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n galluogi sefydliadau i fesur lefel eu cydymffurfriad yn erbyn Safonau Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol a deddfwriaeth diogelu data er mwyn darganfod a yw gwybodaeth yn cael ei thrin a'i diogelu'n briodol. Mae'n disodli'r offeryn asesu blaenorol, sef rhoi Egwyddorion Caldicott ar Waith (C-PIP). Rhyddhawyd cynllun peilot o'r asesiad yn 2019-20 a'r dyddiad cau ar gyfer ei gyflwyno oedd diwedd mis Chwefror 2020. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2020/21 i werthuso canlyniadau'r cyflwyniad, targedu meysydd i'w gwella a darparu adroddiad ar gydymffurfio a chynllun gwella i Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Meddygol fel Gwarcheidwad Caldicott.

RHEOLI COFNODION

Proses yw Rheoli Cofnodion y mae'r bwrdd iechyd yn ei defnyddio i reoli pob agwedd ar gofnodion, boed wedi'u cynhyrchu'n fewnol neu'n allanol ac mewn unrhyw fformat neu fath o gyfrwng, o'u creu trwy eu cylch oes i'w gwarediad yn y pen draw. Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am hyn. Rhan o'i rôl yw bod yn

gyfrifol am ddatblygu a chynnal arferion rheoli cofnodion o fewn y sefydliad yn gyffredinol, a sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau cysylltiedig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r safonau diweddaraf.

Fis Awst 2019, cynhaliodd Archwilydwr Mewnol adolygiad o reoli cofnodion. Nod yr adolygiad oedd asesu pa mor ddigonol oedd y trefniadau ar waith ar gyfer rheoli cofnodion iechyd, gan gynnwys cydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau.

Roedd yr adolygiad yn ceisio darparu sicrwydd: -

- bod rolau, cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer creu, storio, rheoli, cadw a gwaredu cofnodion wedi'u dogfennu'n glir ac yn adlewyrchu'r Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data;
- bod cofnodion yn cael eu rhannu a'u storio'n ddiogel, gan gynnwys olrhain a chludo gwybodaeth, hygyrchedd/ argaeledd a chynnal cofnodion (gan gynnwys archifo a gwaredu);
- bod unrhyw broblemau â rheoli cofnodion wedi'u nodi, eu blaenoriaethu o ran risg a'u cofnodi; a
- bod adnoddau digonol yn cael eu rhoi i hyfforddi staff (gan gynnwys hyfforddiant cynefino) a bod gan y staff sy'n goruchwylio rheoli cofnodion ddigon o wybodaeth a phrofiad.

Daeth yr Archwiliad Mewnol i'r casgliad mai 'Dim Sicrwydd' oedd lefel y sicrwydd a roddir o ran effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol sydd ar waith i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli cofnodion. Gwnaeth adroddiad yr Archwiliad Mewnol chwe argymhelliad gradd uchel i'w gweithredu.

Yn y cyfarfod ar 11 Tachwedd 2019, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Cynllun Gwella Rheoli Cofnodion a ddatblygwyd gan Ysgrifennydd y Bwrdd mewn ymateb i'r archwiliad. Penodwyd Rheolwr Gwella Gwasanaeth ar gyfer Rheoli Cofnodion o 1 Chwefror 2020 i roi'r argymhellion ar waith ac adroddir ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Er bod y gwaith yn parhau, mae'r brigiad mewn achosion Covid-19 wedi cael effaith niweidiol ar y gallu i fynd i'r afael â llawer o'r gofynion yn unol â'r amserlenni y manylir arnyn nhw yn y Cynllun.

DATGELIADAU GORFODOL YCHWANEGOL

Y CYNLLUN PENSIWN

Gallaf gadarnhau, fel cyflogwr â staff sydd â'r hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, bod mesurau rheolaeth ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r holl rwymedigaethau cyflogwyr a gynhwysir yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion Cynllun Pensiwn yr aelodau'n cael eu diweddarau'n fanwl gywir yn unol â'r amserlen y manylir arni yn y Rheoliadau. Mae nodyn 9.7 y Cyfrifon Blynnyddol yn rhoi manylion am y cynllun, sut y mae'n cael ei weithredu a hawl cyflogeion.

YR IAITH GYMRAEG

Yn ystod 2019-20, mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg ledled BIAP. Yn dilyn penodi Rheolwr Gwella Gwasanaeth newydd, mae BIAP wedi dechrau rhoi set o Safonau'r Gymraeg ar waith â'r nod o wella profiad cleifion ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am y safonau hyn y mae'n ofynnol i BIAP gydymffurfio â nhw i'w gweld ar y [wefan](#).

Mae cyfres o gynlluniau adrannol yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'u datblygu ac Arweinwyr Gwasanaethau wedi'u nodi i oruchwylio'r gweithdrefnau monitro. Sefydlwyd Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg newydd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau ac i rannu enghreifftiau o arfer gorau. Mae hyn yn cael effaith bositif o ran codi ymwybyddiaeth ledled y Bwrdd Iechyd ac yn annog darpariaeth gwasanaeth dwyieithog fwy rhagweithiol yn unol ag egwyddor y 'Cynnig Gweithredol'. Mae llawer o fentrau i godi ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant yn cael eu cyflwyno fesul cam fel gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi ar y wardiau, ein gwaith hybu Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg ar 6 Rhagfyr 2019 a chymerodd ein staff nyrsio ran yn 'Nyrsys' ar S4C, sef cyfres ddogfen yn dilyn nyrsys newydd gymhwyso yn paratoi i ofalu am gleifion ar draws Cymru a oedd hefyd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd.

Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r modd y nodir defnyddwyr gwasanaeth sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae Gwasanaethau Cleifion yn gallu cofnodi a dwyn sylw at ddewis iaith rhywun wrth iddyn nhw gael eu hatgyfeirio sy'n golygu bod staff yn gallu paru staff sy'n siaradwyr Cymraeg â chleifion sy'n siaradwyr Cymraeg, gydag enghreifftiau i'w cael ledled y Bwrdd Iechyd. Mae BIAP hefyd yn parhau i asesu sgiliau'r gweithlu er mwyn monitro faint o staff sy'n siaradwyr Cymraeg sydd ar gael, yn enwedig mewn cymunedau gyda nifer uchel o siaradwyr Cymraeg.

Mae adnoddau a chymhorthion Cymraeg bellach ar gael i gefnogi staff yn eu rolau ac mae'r holl staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u sgiliau presennol yn cael eu hannog i wneud hynny. Mae sawl aelod o'r staff wedi manteisio ar y cyfle i fynychu'r cyrsiau Cymraeg sydd ar gael ac maen nhw'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'u sgiliau iaith gyda chleifion yn y gweithle.

Mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i sicrhau nad yw BIAP yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae staff wedi gwneud asesiadau o'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion a'r cyhoedd ac mae'r gweithdrefnau cyfieithu presennol wedi cael eu hadolygu a'u cryfhau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Yn 2019-20, cynhaliodd yr Archwiliad Mewnol adolygiad lefel-uchel o'r camau y mae'r bwrdd iechyd wedi'u cymryd i asesu effaith Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2018 ac i gydymffurfio â nhw. Darparodd yr archwiliad mewnol lefel sicrwydd

cyfyngedig i'r Bwrdd, gan nodi'r gwendidau. Gan gydnabod bod y bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd yn 2019-20 o ran yr Iaith Gymraeg, bydd angen parhau i wella ymhellach yn 2020/21.

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae BIAP wedi parhau i roi cyfres o fentrau ar waith â'r nod o wella ansawdd a hygyrchedd ei wasanaethau i grwpiau lleiafrifol ac agored i niwed. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol BIAP a'i Amcanion wedi'i adolygu ac mae cryn dipyn o ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i wneud i baratoi ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 4 blynedd newydd ar gyfer 2020-2024. Mabwysiadodd Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion ddull o gydweithio lle daeth yr holl gyrff cyhoeddus a thrydydd sector at ei gilydd i gynnal arolwg gydag aelodau o'r cyhoedd a grwpiau a dargedwyd â nodweddion gwarchodedig. Bu'r Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol yn dadansoddi'r data a defnyddiwyd hyn i ddarparu sail ar gyfer amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Bu BIAP yn gweithio'n agos â'n cymydog yn BIP Hywel Dda i sicrhau bod amcanion ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'u halinio â'r amcanion cenedlaethol y manylir arnyn nhw yn amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae BIAP wedi croesgyfeirio'r cynllun gweithredu 4 blynedd newydd i'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y CTCI sydd wedi'i adfywio i helpu i wneud cydraddoldeb ac amrywiaeth yn brif ffordd ar draws pob cyfarwyddiaeth ac i sicrhau bod dull cyson o weithredu'n cael ei fabwysiadu o fewn BIAP.

Mae cyflawniadau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod 2019-2020 i wella bywydau cleifion â dementia sydd hefyd ag anabledd corfforol neu anabledd dysgu, sy'n cynnwys gweithgareddau ward ystyrlon, atgyfeiriadau cyflymach at awdioleg i gleifion â dementia sy'n colli eu clyw, a datblygu timau trin dementia yn y cartref i atal anfon pobl i'r ysbyty.

Ymysg y cyflawniadau nodedig eraill mae'r gwaith a wnaed gan staff o fewn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl sydd wedi bod yn gweithio gyda Diverse Cymru i roi'r Pecyn Cymorth Cymwyseddau Diwylliannol ar waith fel rhan o'n dyhead i gyflawni'r Cynllun Ardystio Arfer Iechyd Meddwl Da yn y Gweithlu ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Hefyd, mae Prosiect Diwrnod Asesu Mamolaeth llwyddiannus wedi'i gyflwyno fesul cam gan ddarparu mynediad hanfodol i sganau a chefnogaeth yn y sir, gan leihau'r angen i ddarparu rieni deithio i Ysbytai Cyffredinol Dosbarth cyfagos ac mae Tîm Prosiect Brechiad y Ffliw mewn Beichiogrwydd hefyd yn arwain y ffordd o ran imiwneiddio rhag y ffliw dan arweiniad bydwagedd.

PARODRWYDD AR GYFER ARGYFWNG AC ARGYFYNGAU SIFIL POSIBL

Mae BIAP wedi'i ddisgrifio fel ymatebwr Categori 1 dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ac felly mae gofyn iddo gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau deddfwriaethol y manylir arnyn nhw yn y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn gosod 5 dyletswydd statudol ar ymatebwyr Categori 1, sef:

- asesu risg o argyfyngau;
- bod â chynlluniau argyfwng ar waith;
- sefydlu trefniadau rheoli parhad busnes;
- bod â threfniadau ar waith i rybuddio, hysbysu a chynghori aelodau o'r cyhoedd;
- rhannu gwybodaeth, cydweithredu a chysylltu ag ymatebwyr lleol eraill.

Fis Rhagfyr 2014, cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Pandemig Powys sy'n darparu fframwaith trosfwaol sy'n manylu ar ymatebion BIA Powys i bandemig y fflw. Datblygwyd Fframwaith y Pandemig i ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Ymateb Amlasiantaeth eraill.

Cymeradwyodd y bwrdd hefyd (Ionawr 2020) ei Gynllun Argyfyngau Sifil Posibl. Diben hwn yw galluogi BIAP i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiad mawr neu argyfwng.

Yn ystod 2019, bu'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn nifer o sesiynau cynllunio, hyfforddi ac ymarfer amlasiantaeth i gynyddu gallu'r bwrdd iechyd i ymateb i amrywiaeth eang o argyfyngau.

Mae'r meysydd cynllunio allweddol ar gyfer 2019/2020 yn cynnwys:

- **Paratoi ar gyfer BREXIT 'Heb Gytundeb'**

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i baratoi ar gyfer effeithiau posibl Brexit 'Heb Gytundeb' ar ei wasanaethau trwy gydol 2019/2020.

Ar lefel genedlaethol, cynrychiolwyd y Bwrdd Iechyd ar nifer o grwpiau cynllunio Brexit y GIG, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y DU ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'. Cynrychiolwyd y Bwrdd Iechyd hefyd ar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys, gan sicrhau bod cynllunio a chydlynw amlasiantaeth effeithiol ar waith mewn ymateb i effaith posibl Brexit 'hen gytundeb'.

Ar lefel leol, roedd paratodau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' yn canolbwyntio ar sicrhau parhad ac ansawdd y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd mor barod ag oedd yn rhesymol bosibl i ymateb i'r heriau o adael yr UE. Roedd meysydd allweddol y gwaith hwn yn cynnwys:

- sicrhau parhad cyflenwadau meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a deunyddiau traul clinigol fel rhan o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol;
- sicrhau bod ein gweithlu'n teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi trwy ddarparu cefnogaeth barhaus i staff yr UE sy'n gweithio ym Mhowys, gan gynnwys hybu'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a agorodd yn swyddogol ar 30^{ain} Mawrth 2019;
- darparu cefnogaeth llesiant meddwl yn y sector ffermio;
- cyfathrebu effeithiol;

- ceisio sicrwydd oddi wrth y darparwyr gwasanaeth a gomisiynir bod paratoadau priodol yn cael eu datblygu yng nghyd-destun Brexit 'heb gytundeb'.

Fis Ionawr 2020, tynnodd y Bwrdd Iechyd ei baratoadau Brexit 'heb gytundeb' yn ôl, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

• **Trefniadau Cynllunio ar gyfer COVID-19**

Mae'r brigiad mewn achosion y coronafeirws newydd presennol (COVID-19) wedi cyflwyno heriau sylweddol yn rhyngwladol, ers i'r straen newydd gael ei nodi yn Ninas Wuhan, Tsieina fis Rhagfyr 2019. Ers hynny, mae achosion wedi'u nodi ar draws y byd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig.

Ar 30^{ain} Ionawr 2020, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd fod y brigiad mewn achosion o'r Coronafeirws yn "Argyfwng Iechyd Cyhoeddus o Bryder Rhyngwladol". Ar 11^{eg} Mawrth 2020, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd wedyn bod COVID-19 yn "Bandemig" yn dilyn trosglwyddiad cyflym byd-eang o'r brigiad mewn achosion.

Fel y nodwyd o'r blaen, roedd yr angen i gynllunio ac ymateb i'r pandemig COVID-19 yn golygu nifer o heriau i'r sefydliad. Nodwyd nifer o risgiau newydd a oedd yn dod i'r amlwg. Tra bo cynllun digwyddiad mawr a pharhad busnes ar waith gan y sefydliad, yn ôl gofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae graddfa ac effaith y pandemig wedi bod yn ddigynsail. Cymerwyd camau sylweddol ar lefel genedlaethol a lleol i baratoi ac i ymateb i'r effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth. Mae hyn wedi galw am weithio mewn partneriaeth ar yr ymateb amlasiantaeth fel aelod allweddol o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol. Mae yna ryw faint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r effaith gyffredinol y bydd hyn yn ei chael ar gyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol a thymor hir gan y sefydliad, er fy mod yn hyderus bod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd.

Mae Fframwaith Pandemig BIAP yn cael ei ddefnyddio i lunio'r trefniadau paratoi ac ymateb sy'n cael eu gwneud o fewn y Bwrdd Iechyd ar adeg cwblhau'r adroddiad blynyddol hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau gorchymyn a rheoli mewnol, sy'n canolbwyntio ar grwpiau Aur (Strategol) ac Arian (Tactegol), fel rhan o'i ymateb i COVID-19. Mae grwpiau gorchwyl a gorffen wedi'u sefydlu i gyflawni darnau penodol o waith, e.e. sefydlu gweithdrefnau ar gyfer profion cymunedol a phroffion staff.

Hefyd, datblygwyd cynllun gweithredu COVID-19 mewnol i sicrhau bod ymateb y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu'r holl fesurau cyfredol dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos ag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan

gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth iddo barhau â'i ymateb a'i gynllunio i'r cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn wrth wraidd hyn, a'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a fedrai o bosibl effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

CYFARWYDDIADAU GWEINIDOGOL A CHYLCHLYTHYRAU IECHYD CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Offerynnau Anstatudol o'r blaen ac wedi ailgyflwyno Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn 2014/15. Mae manylion y rhain a chofnod o unrhyw gyfarwyddiadau gweinidogion a roddir ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Gallaf gadarnhau bod yr holl Gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o'r blaen wedi'u hystyried yn llawn a, lle bo'n briodol, eu rhoi ar waith. Cyhoeddwyd 1 cyfarwyddyd gweinidog fis Rhagfyr 2019, yn ymwneud â gweithredu ar Effeithiau Treth Pensiynau 2019/20. Mae manylion llawn Cylchlythyrau Iechyd Cymru, cyfarwyddiadau gweinidogol a'r camau y mae'r bwrdd iechyd wedi'u cymryd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

GWIRIO AR ÔL GWNEUD TALIADAU

Yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru, mae'r Tîm Gwirio ar ôl Gwneud Taliadau, (sef rôl y mae Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG yn ei gwneud ar ran y bwrdd iechyd), o ran Gwasanaethau Ychwanegol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, wedi cyflawni ei waith dan delerau'r cytundeb lefel gwasanaeth ac yn unol â phrotocolau cytunedig GIG Cymru. Adroddir ar waith y Tîm Gwirio ar ôl Gwneud Taliadau i Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Bwrdd ac mae papurau ar gael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

ADOLYGIAD O DDEFNYDDIO ADNODDAU'N DDARBODUS, YN EFFEITHLON AC YN EFFEITHIOL

Fe ddiwygiodd Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 ddyletswyddau ariannol Byrddau Iechyd Lleol dan adran 175 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae'r Ddeddf yn gosod dwy ddyletswydd ariannol ar Fyrdau Iechyd Lleol:

- Dyletswydd dan adran 175 (1) i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na chyfanswm y cyllid a ddyrennir iddo dros gyfnod o dair blynedd ariannol; a
- Dyletswydd dan adran 175 (2A) i baratoi cynllun yn unol â chyfarwyddiadau cynllunio a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd dan Adran 175 (1) tra'i fod yn gwella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdany'n nhw, a'r ddarpariaeth gofal iechyd i bobl o'r fath, ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru iddyn nhw ei gymeradwyo.

Cyflawnodd y bwrdd iechyd y ddwy ddyletswydd ariannol yn 2019-20.

CYNALIADWYEDD A CHYNLLUNIAU CYFLENWI LLEIHAW CARBON

Mae asesiadau risg ar waith yn unol â gofynion parodrwydd ar gyfer argyfwng ac argyfyngau sifil posibl seiliedig ar ragamcanion tywydd 2009 Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r sefydliad dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r gofynion Adrodd ar Addasu. Er mwyn cyrraedd targed 'datgarboneiddio erbyn 2030' Llywodraeth Cymru, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi datblygu System Reoli Amgylcheddol yn unol ag ISO14001:2005, ac mae'n ei rhoi ar waith. Mae hon yn cynnwys cynllun cyflenwi datgarboneiddio. Mae hyn, ochr yn ochr ag ymarfer ôl troed carbon a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yn gosod yr agenda i ddatblygu 'Strategaeth Carbon Niwtral' trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bydd yn cefnogi'r bwrdd iechyd i weithio ar y cyd ac yn effeithiol â sefydliadau sy'n bartneriaid i gyrraedd targedau 2030.

Mae Adroddiad ar Gynaliadwyedd y Bwrdd yn rhan allweddol o adran Adroddiad ar Berfformiad yr Adroddiad Blynnyddol ac mae'n manylu mwy ar y materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd.

CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG (CTCI)

Gosododd Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 ddyletswydd statudol ar fyrddau iechyd i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd bob blwyddyn. Roedd diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 hefyd yn gosod y ddyletswydd statudol i fyrddau iechyd gael eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Yn unol â'r dyletswyddau deddfwriaethol hyn, aeth y bwrdd ati i ddatblygu a chyhoeddi CTCI cymeradwy ar gyfer 2019-22, a gymeradwywyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae copi o'r cynllun ar gael ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

Gellir gweld dadansoddiad manwl o berfformiad y bwrdd iechyd ar gyfer 2019/20 yn Adroddiad Blynnyddol 2019/20 BIAP, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst 2020.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn y mwyafrif o'r targedau allweddol y dylanwadir yn uniongyrchol arnyn nhw y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod. Rydyn ni hefyd yn perfformio'n dda yn erbyn yr amcanion llesiant a osodwyd ar y cyd fel rhan o'r Strategaeth Iechyd a Gofal, Powys Iach a Gofalgar.

Cyflawnodd y bwrdd iechyd y targed ariannol i fantoli'r gyllideb yn 2019/20 ac roedd dal o fewn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf.

Fis Mawrth 2020, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru i'r bwrdd iechyd yr ystyrir bod CTCI 2020-23 yn haeddu ei gymeradwyo, ar ôl asesiad cadarn, a'i fod yn darparu

llinell sylfaen ar gyfer trafodaethau cynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu oedi â phrosesau'r CTCI a chaniatáu ailgyfeirio adnoddau i gynnal gwasanaethau allweddol.

Defnyddir y CTCI hefyd fel Datganiad Llesiant y bwrdd iechyd, gan ddangos sut, trwy'r camau i gyflawni ein hamcanion llesiant, rydyn ni'n cyfrannu at y saith nod llesiant ar gyfer Cymru ac yn gweithredu'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy.

Datblygwyd y CTCI o fewn cyd-destun y Strategaeth Iechyd a Gofal, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017. Mae'n manylu ar y weledigaeth i alluogi 'Powys Iach a Gofalgar', a gyflawnir trwy ganolbwyntio ar bedwar amcan llesiant craidd a phedwar amcan sy'n galluogi llesiant, gyda chwe egwyddor cyflawni wrth wraidd y rhain; Gwneud Beth Sy'n Bwysig, Gwneud Beth Sy'n Gweithio, Canolbwyntio ar yr Angen Mwyaf, Sicrhau Bod Gwasanaethau o Fewn Cyrraedd Teg, Bod yn Ddarbodus a Gweithio Gyda Phobl a Chymunedau.

Amcanion Llesiant Craidd



Canolbwyntio ar
Llesiant



Help a Cymorth
Cynnar



Mynd i'r Afael â'r
Pedwar Mawr



Gofal
Cydgysylltiedig

Amcanion Galluogi Llesiant



Dyfodol y Gweithlu



Amgylcheddau
Arloesol



Digidol yn Gyntaf



Trawsnewid mewn
Partneriaeth

Mae dull y bwrdd iechyd o gynllunio'n parhau i gryfhau ac aeddfedu.

Mae'r dull yn amlweddol ac mae'n ystyried y ffrydiau cynllunio niferus ar draws lefelau lleol, sefydliadol a rhanbarthol. Egwyddorion allweddol prosesau cynllunio yn y bwrdd iechyd yw sicrhau:

- Mai cleifion sy'n ganolog i waith cynllunio a chyflenwi gwasanaethau.
- Bod yna amgylchedd cynllunio dan arweinyddiaeth clinigwyr, gyda nifer o bobl broffesiynol yn cyfrannu ato.
- Bod yna waith cynllunio system gyfan, sy'n sicrhau aliniad â chynlluniau darparwyr cyfagos.
- Bod yna drawsnewid o gomisiynu a swyddogaethau darparwyr.
- Bod integreiddio'n cael ei hybu ar lefel strategol a lefel gwasanaeth.

- Bod yna berthnasoddd mewnol sy'n cynnwys ein staff/undebau llafur.
- Bod yna berthnasoddd allanol â rhanddeiliaid allweddol.
- Bod yna gysylltiadau cynllunio cryf â'r Cyngorau Iechyd Cymuned.

Yn ei Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2019, cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru fod gan y Bwrdd Iechyd *"ddull cryf lle mae cynllunio strategol yn y cwestiwn ac mae'n newid strwythurau a threfniadau arwain i wireddu ei weledigaeth. Mae cynlluniau tanategol yn datblygu ar y cyd â phartneriaid ac maent ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn"*.

RHEOLI AC ADRODD AR BERFFORMIAD INTEGREDIG

Caiff cyflawni nodau'r CTCI ei reoli trwy'r Fframwaith ar gyfer Gwella Perfformiad gan adrodd ar y cyflawni a'r perfformiad i'r Bwrdd bob chwarter ar ffurf Adroddiad Perfformiad Integredig.

Amcan y fframwaith yw sicrhau bod gwybodaeth ar gael sy'n galluogi'r Bwrdd a phersonél allweddol eraill i ddeall, monitro ac asesu perfformiad y sefydliad o ran cyflawni nodau'r CTCI, gan alluogi cymryd camau priodol pan fydd perfformiad yn erbyn targedau sydd wedi'u gosod yn dirywio, a chefnogi a hybu gwelliant parhaus yn y modd o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Gwella Perfformiad yn cyfrannu at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sy'n sicrhau bod yna sicrwydd digonol, parhaus a dibynadwy ynglŷn â rheoli risgiau mawr i gyflawni amcanion strategol ac, yn anad dim, i gyflawni gwasanaethau o ansawdd sy'n canolbwyntio ar y claf.

ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Fe ddarparodd gwaith yr archwilwyr mewnol a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio blynyddol ac adroddiadau eraill, sail i fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol. Hefyd, mae barn annibynnol a diduedd a fynegwyd gan amrywiaeth o gyrff y tu allan i'r bwrdd iechyd wedi bod yn allweddol bwysig, gan gynnwys barn Llywodraeth Cymru; Cyngor Iechyd Cymuned Powys; ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Fel Swyddog Atebol, rwyf yn gyffredinol gyfrifol am reoli risg ac adrodd i'r Bwrdd ynglŷn ag effeithiolrwydd rheoli risg yn y bwrdd iechyd drwyddo draw. Mae fy nghyngor i'r Bwrdd wedi'i seilio ar adroddiadau ar reolaeth fewnol a dderbyniwyd oddi wrth ei bwyllgorau ac yn enwedig y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch. Mae'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch hefyd yn rhoi sicrwydd ynglŷn â materion yn ymwneud â

llywodraethu clinigol a diogelwch cleifion. Hefyd, mae adroddiadau y mae'r Tîm Gweithredol wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd yn nodi materion risg i'w hystyried.

Mae pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried amrywiaeth o adroddiadau'n ymwneud â'u meysydd busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi cynnwys amrywiaeth gynhwysfawr o adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau archwilio allanol, ac adroddiadau ar safonau proffesiynol ac oddi wrth gyrff rheoleiddio eraill. Bu'r Pwyllgorau hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar feysydd ar gyfer datblygu strategol lleol a chenedlaethol a meysydd polisi newydd. Mae pob Pwyllgor yn adrodd ar ei fusnes yn rheolaidd ac mae'r Bwrdd yn derbyn yr adroddiadau hyn yn gyhoeddus.

Er y bu cynnydd sylweddol yn 2019/20 i gryfhau'r system rheolaeth fewnol, rydw i'n cydnabod bod gwelliannau pellach yn hanfodol yn 2020/21 o ran rheoli risg a gwreiddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Byddwn ni'n bwrw ymlaen â gwaith sylfaenol hefyd i roi Fframwaith Datblygu Sefydliadol a Fframwaith Ansawdd Clinigol y Bwrdd ar waith, a fydd yn cyfrannu at y system reolaeth.

ARCHWILIO MEWNOL

Mae'r archwiliad mewnol yn darparu llif sicrwydd ynglŷn â'r system rheolaeth fewnol i'r Bwrdd a minnau, fel Swyddog Atebol, trwy'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi'i chyflawni'n unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn â'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Byddwn ni'n sicrhau bod gwaith pob rheoleiddiwr, arolygwr a chorff sicrwydd yn cael ei fapio ac y ceir tystiolaeth o hyn yn ein fframwaith sicrwydd fel bod y Bwrdd yn gwbl ymwybodol o'r gweithgarwch hwn a lefel y sicrwydd y mae'n ei ddarparu. Byddwn ni hefyd yn blaenoriaethu gwaith i gefnogi cofnodi a monitro argymhellion yn sgil gwaith rheoleiddwyr, arolygwyr ac adolygiadau sicrwydd allweddol eraill.

BARN Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2019-20

Wrth ystyried llywodraethu, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol o'r farn gyffredinol bod rheoli risg yn swyddogaeth o'r rhaglen archwilio seiliedig ar risg hon ac yn cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch tuag at welliant parhaus.

Gwnaeth yr angen i ymateb i'r pandemig COVID-19 effeithio ar raglen archwilio 2019/20, gyda rhai archwiliadau wedi'u gohirio i 2020/21 wrth i'r sefydliad ymateb i'r pandemig. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd i ddarparu Barn Flynyddol y


Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau sydd heb eu cwblhau'n llawn.

Daw'r Pennaeth Archwilio Mewnol i'w gasgliad ar ôl ystyried p'un a yw'r trefniadau ar waith ai peidio i sicrhau bod y llywodraethu, y rheoli risg a'r rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio'n addas a'u rhoi ar waith yn effeithiol yn y parthau sicrwydd a ganlyn:

- Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfio â Rheoliadau
- Cynllunio Strategol, Rheoli ac Adrodd ar Berfformiad
- Llywodraethu a Rheoli Ariannol
- Llywodraethu Clinigol, Ansawdd a Diogelwch
- Llywodraethu a Diogelu Gwybodaeth
- Gwasanaeth Gweithredol a Rheoli Swyddogaethau
- Rheoli'r Gweithlu
- Rheoli Cyfalaf ac Ystadau

Mae cwmpas y farn hon wedi'i gyfyngu i'r meysydd hynny a archwiliwyd yn y cynllun archwilio seiliedig ar risg y cytunwyd arno â'r uwch reolwyr ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Dylid dehongli asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, a dylid ei ystyried yn sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus.

Manylir ar farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad ar gyfer 2019-20 isod:



"Yn fy marn i, gall y Bwrdd gymryd sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny dan sylw, wedi'u cynllunio'n addas ac wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen i reolwyr roi sylw i rai materion yn ymwneud â chynllunio rheolaeth neu â chydymffurfio, ac fe fydd gan y rhain effaith isel i gymedrol ar risgiau gweddilliol nes y byddan nhw wedi'u datrys."

Wrth lunio barn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cadarnhau eu bod wedi beirniadu'n broffesiynol a hefyd wedi defnyddio'r canllawiau Archwilio a

Sicrwydd ar y meini prawf ategol ar gyfer y farn gyffredinol a gynhyrchwyd gan y Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd ar gyfer GIG Cymru.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi dod i'r casgliad y gellid adrodd bod Sicrwydd Rhesymol ar gyfer pump o wyth parth sicrwydd y mae'r cynllun wedi'i strwythuro o'u hamgylch. Y tri sydd â sicrwydd 'cyfyngedig' yn ôl asesiad eleni yw 'llywodraethu clinigol, rheoli risg a chydymffurfio â rheoliadau', 'ansawdd a diogelwch llywodraethu clinigol' a 'llywodraethu gwybodaeth a diogelwch TG'.

O'r 27 adolygiad sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2019/20, y farn oedd bod sicrwydd 'rhesymol' i 15 a sicrwydd 'sylweddol' i ddau. Rhoddwyd sicrwydd 'cyfyngedig' i chwe adolygiad a 'dim' sicrwydd i un arall. Nid oedd yn berthnasol rhoi sgôr sicrwydd i dri adolygiad.

Roedd sicrwydd 'rheoli risg a sicrwydd y bwrdd', 'Safonau'r Gymraeg', 'llywodraethu cartrefi gofal a chartrefi nyrsio', 'asesiadau budd gorau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid', 'ceisiadau rhyddid gwybodaeth' yn gyfyngedig. Hefyd, cafodd y gwaith dilynol ar adroddiad 'dim' sicrwydd 2017/18 o ran 'podiatreg' sgôr sicrwydd 'cyfyngedig' yn 2019/20.


Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod bod rheoli risg yn effeithiol yn gyfrifoldeb allweddol. Nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn yr adolygiad o reoli risg ei bod yn siomedig mai dim ond sgôr sicrwydd 'cyfyngedig' yr oedd yn bosibl ei rhoi am yr ail flwyddyn yn olynol. Ni welwyd fawr o gynnydd o gwbl â gweithredu argymhellion y flwyddyn flaenorol, gan arwain at ailadrodd nifer o'r darganfyddiadau o adroddiad sicrwydd cyfyngedig 2018/19. Er y nodwyd gwelliant bach, mae'r darganfyddiadau allweddol o flynyddoedd blaenorol yn dal yr un fath – nid oedd unrhyw gofrestrau risgiau ar lefel y gyfarwyddiaeth ac roedd diffyg tystiolaeth o dimau'r gyfarwyddiaeth yn goruchwyllo fel rheolwyr.

Dyrannwyd 'dim sicrwydd' mewn adolygiad o 'reoli cofnodion' a dygwyd sylw at faterion sylweddol. Thema drosfwaol darganfyddiadau archwilio oedd annigonolrwydd y trefniadau a oedd ar waith. Roedd mwyafrif y darganfyddiadau'n gyson â'r rheini a godwyd mewn archwiliadau blaenorol, yn dyddio yn ôl mor bell â 2012, gan gynnwys adroddiad dim sicrwydd yn 2015/16. Codwyd chwe argymhelliad blaenoriaeth uchel.

Oherwydd y brigiad mewn achosion Covid-19 ac effaith hyn ar adnoddau'r bwrdd iechyd, nid oedd yr Archwilwyr Mewnol yn gallu bwrw ymlaen â phedwar adolygiad dilynol a oedd yn weddill o ddeilliannau sicrwydd cyfyngedig 2018/19 ('iechyd a diogelwch' a 'threfniadau llywodraethu Adran 33'). Roedd yr adolygiadau o 'wasanaethau deintyddol – monitro contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol' a'r 'adran arlwygo' yn dangos tystiolaeth o welliannau a oedd yn ddigon i alluogi sgôr sicrwydd 'rhesymol'.

Bu'r Bwrdd a rheolwyr gweithredol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Archwilwyr Mewnol gydol y flwyddyn ac mae adborth ffurfiol ar y gwaith yn dangos bod Archwilio Mewnol yn helpu'r bwrdd iechyd i wneud gwelliannau parhaus.

Ceir crynodeb o sgorau'r archwiliadau a ddyfarnwyd yn 2019-20 yn y tabl isod:



Derbyniodd y rheolwyr ddarganfyddiadau'r holl adolygiadau archwilio mewnol a wnaed yn 2019/20 a oedd yn nodi sicrwydd 'cyfyngedig' neu 'dim' sicrwydd, ac mae cynlluniau gweithredu wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau terfynol. Adroddwyd ar holl adroddiadau'r Archwiliad Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i gael eu goruchwyllo a'u monitro.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn gyfrifol am olrhain holl argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac am sicrhau eu bod yn cael sylw mewn ffordd sy'n briodol ac yn brydlon, trwy systemau cadarn ar gyfer cofnodi a monitro argymhellion archwilio sy'n codi o Adolygiadau Archwiliadau Mewnol ac Allanol.

Byddaf yn monitro'r broses o roi cynlluniau gweithredu/argymhellion yr archwiliadau ar waith trwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Gweithredol Cyflawni a Pherfformiad.

Gallwch chi weld Barn lawn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiadau Archwilio Mewnol ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

ATAL TWYLL

Yn unol â Safonau Twyll, Llwgrwobrwyaseth a Llygredigaeth NHS Protect ar gyfer Cyrff GIG (Cymru) fe gytunodd yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a'r

Cyfarwyddwr Cyllid ar gynllun gwaith ar gyfer 2019-20 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd hwn ym mis Mai 2019.

Cwblhawyd y cynllun gwaith ar gyfer 2019-20 ac roedd hwn yn rhoi sylw i'r holl ofynion dan gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth Atal Twyll yn rhoi adroddiadau rheolaidd a'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Tîm Gweithredol ac yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yr Adroddiad Blyneddol Atal Twyll a Llygredigaeth ar gyfer 2020-21 ar 25 Mehefin 2020.

Mae Awdurdod Atal Twyll y GIG (sef NHS Protect gynt) yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer holl waith atal twyll, llwgrwobrwyd a llygredigaeth y GIG ac mae'n gyfrifol am faterion strategol a gweithredol sy'n berthnasol iddo. Un rhan allweddol o'r swyddogaeth hon yw sicrhau ansawdd y modd o gyflawni gwaith atal twyll, llwgrwobrwyd a llygredigaeth gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cyflawni'n gyson.

ARCHWILIO ALLANOL: DARGANFYDDIADAU ASESU STRWYTHUREDIG

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwiliwr allanol statudol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gwneud rôl yr archwilydd allanol ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Bu gwaith Asesiad Strwythuredig 2019 Swyddfa Archwilio Cymru'n adolygu agweddau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol y bwrdd iechyd ac, yn benodol, y cynnydd wrth roi sylw i argymhellion y flwyddyn flaenorol. Ehangwyd y cwpas i gynnwys sylwadau ar drefniadau'n ymwneud â chaffael, rheoli asedau a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

Ar y cyfan, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod gwaith Asesiad Strwythuredig wedi dangos bod trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn darparu sylfeini cryf i wireddu ei weledigaeth, a bod gan y Bwrdd ddealltwriaeth glir o'r trefniadau hynny y mae angen eu datblygu ymhellach a'i fod wedi canolbwyntio camau gweithredu i gyflawni gwelliannau.

Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru dri argymhelliad yn ei hadroddiad. Roedd yr argymhellion o ran llywodraethu'n ymwneud â: gweithrediad y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau; a, gwerthuso'r strwythur pwyllgorau newydd.

Er fy mod yn falch bod Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn ein bod wedi gwneud cynnydd da, rwyf yn gwbl ymwybodol o'r angen i gryfhau a gwella trefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd ymhellach. Gallaf gadarnhau bod camau i fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion ar y gweill.

Gellir gweld Asesiad Strwythuredig 2019 Swyddfa Archwilio Cymru ar [wefan](#) y bwrdd iechyd.

CASGLIAD

Fel Swyddog Atebol ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar sail y broses sicrwydd a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth berthnasol a'r sicrwydd o ran rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau bod y Bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ymwybodol o'u hatebolrwyddau o ran rheolaeth fewnol a bod y Bwrdd wedi cael system o ddarparu sicrwydd ar waith yn ystod y flwyddyn, wedi'i halinio ag amcanion corfforaethol i gynorthwyo â nodi a rheoli risg. Rwy'n falch o nodi bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn dal i fod yn destun monitro 'fel mater o drefn' fel rhan o drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru, o ganlyniad i'n trefniadau rheolaeth fewnol.

Yn ystod 2019-20, aethom ni ati'n rhagweithiol i nodi meysydd sydd angen eu gwella ac i ofyn bod Archwilwyr Mewnol yn gwneud asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Gwneir mwy o waith yn 2020-21 i sicrhau bod argymhellion sy'n codi o adolygiadau archwilio, yn enwedig lle ceir sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd, yn cael eu rhoi ar waith. Rydyn ni wedi cymryd camau sylweddol i wreiddio gwaith rheoli risg a'r fframwaith sicrwydd ar lefel gorfforaethol; bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2020-21. Bydd gweithredu Rhaglen Llywodraethu Blynnyddol y Bwrdd yn gweld effeithiolrwydd a system rheolaeth fewnol y Bwrdd yn cryfhau mwy fyth yn 2020-21.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol hwn yn cadarnhau bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi parhau i aeddfedu fel sefydliad ac, er bod yna feysydd i'w cryfhau, nad oes unrhyw faterion sylweddol yn ymwneud â rheolaeth neu lywodraethu wedi'u nodi. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol wedi bod â system rheolaeth fewnol gadarn ac effeithiol ar waith sy'n rhoi sicrwydd rheolaidd wedi'i alinio ag amcanion strategol a risgiau strategol y sefydliad. Ar y cyd â'r Bwrdd, byddaf yn parhau i hyrwyddo gwelliannau a byddaf yn anelu at roi sicrwydd i'n dinasyddion a'n rhanddeiliaid bod y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol, a'u bod wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion a disgwyliadau cleifion.

Fel yr awgrymir gydol y datganiad hwn, mae'r rheidrwydd i gynllunio ac ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG yn ehangach a chymdeithas yn gyffredinol. Mae wedi galw am ymateb dynamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â'r risgiau. Bydd yr angen i'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach ymateb ac adfer yn sgil y pandemig yn parhau trwy gydol 2020/21 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu'n ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn.

LLOFNODWYD GAN:

CAROL SHILLABEER

DYDDIAD: 30 MEHEFIN 2020

[PRIF WEITHREDWR]

Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd a'u Presenoldeb ar y Bwrdd

Enw	Swydd a Maes Arbenigedd	Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd	Presenoldeb 2019-20	Rôl Hyrwyddo'r Bwrdd
Vivienne Harpwood	Cadeirydd	▪ Cadeirydd y Bwrdd	7/7	
		▪ Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth	4/4	
Melanie Davies	Is-gadeirydd	▪ Is-gadeirydd y Bwrdd	6/7	
		▪ Cadeirydd y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch	5/6	
		▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth	3/4	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	4/6	
Ian Phillips	Aelod Annibynnol [Technoleg Gwybodaeth]	▪ Aelod o'r Bwrdd	5/7	
		▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio	4/4	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd	4/6	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	5/6	
Trish Buchan	Aelod Annibynnol [Trydydd Sector]	▪ Aelod o'r Bwrdd	7/7	Glanhau, Hylendid a Rheoli Haint
		▪ Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio	4/4	
		▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch	6/6	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	3/3	
Matthew Dorrance	Aelod Annibynnol [Awdurdod Lleol]	▪ Aelod o'r Bwrdd	4/7	
		▪ Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	3/6	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd	4/7	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth	4/4	
Owen James	Aelod Annibynnol [Cymuned]	▪ Aelod o'r Bwrdd	7/7	
		▪ Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	2/3	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch	6/6	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio	4/4	
		▪ Aelod o'r Bwrdd	7/7	

Enw	Swydd a Maes Arbenigedd	Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd	Presenoldeb 2019-20	Rôl Hyrwyddo'r Bwrdd
Tony Thomas	Aelod Annibynnol [Cyllid]	▪ Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd	7/7	
		▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	3/4	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	5/6	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth	4/4	
Mark Taylor	Aelod Annibynnol [Cyfalaf ac Ystadau] [O fis Gorffennaf 2019]	▪ Aelod o'r Bwrdd	6/6	
		▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd	4/5	
		▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	4/4	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	2/2	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio	2/2	
Susan Newport	Aelod Annibynnol [Undeb Llafur]	▪ Aelod o'r Bwrdd	6/7	Iechyd y Lluoedd Arfog/ Cyn-filwyr
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch	4/6	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth	3/4	
Duncan Forbes	Aelod Annibynnol [Cyfreithiol [Hyd fis Awst 2019]]	▪ Aelod o'r Bwrdd	2/3	
		▪ Is-gadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau	1/3	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd	2/3	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio	2/2	
Frances Gerrard	Aelod Annibynnol [Prifysgol] [Absenoldeb Salwch o 2 ^{il} Chwefror 2020]	▪ Aelod o'r Bwrdd	5/6	
		▪ Aelod o'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch	4/5	

Enw	Swydd a Maes Arbenigedd	Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd	Presenoldeb 2019-20	Rôl Hyrwyddo'r Bwrdd
Carol Shillabeer	Prif Weithredwr	- Aelod o'r Bwrdd - Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys - Aelod o'r Cyd-fwrdd Partneriaeth - Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru <u>Mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> - Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth - Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn rheolaidd	Presenoldeb ar y Bwrdd 7/7	
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, ac Iechyd Meddwl [Hyd fis Ebrill 2019]	- Aelod o'r Bwrdd - Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) - Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) <u>Mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> - Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch - Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 0/0	
Jamie Marchant (O fis Mehefin 2019)	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, ac Iechyd Meddwl [O fis Mehefin 2019]	- Aelod o'r Bwrdd - Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) - Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (pan fo'r Prif Weithredwr yn absennol) <u>Mae'n ofynnol iddo fynychu:</u> - Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch - Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 4/5	

Enw	Swydd a Maes Arbenigedd	Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd	Presenoldeb 2019-20	Rôl Hyrwyddo'r Bwrdd
Wyn Parry	Cyfarwyddwr Meddygol	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Mae'n ofynnol iddo fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 5/7	
Rhiannon Jones	Cyfarwyddwr Nysio a'r Cyfarwyddwr Interim Therapiau a Gwyddorau Iechyd [Hyd fis Gorffennaf 2019]	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch <u>Mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio ▪ Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 2/2	
Claire Madsen	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd [O fis Ionawr 2020]	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch ▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 2/2	
Alison Davies	Cyfarwyddwr Nysio [O fis Ionawr 2020]	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch <u>Mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio ▪ Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 1/1	

Enw	Swydd a Maes Arbenigedd	Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd	Presenoldeb 2019-20	Rôl Hyrwyddo'r Bwrdd
Katrina Rowlands	Cyfarwyddwr Interim Nyrsio [O fis Gorffennaf 2019 hyd fis Ionawr 2020]	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch <u>Mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio ▪ Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ▪ <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 3/3	
Julie Rowles	Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth <u>Mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch ▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau eraill y Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 7/7	
Hayley Thomas	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio <u>Mae'n ofynnol iddi fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau eraill y Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 7/7	

Enw	Swydd a Maes Arbenigedd	Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd	Presenoldeb 2019-20	Rôl Hyrwyddo'r Bwrdd
Stuart Bourne	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Mae'n ofynnol iddo fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio ▪ Y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau eraill y Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 7/7	
Eifion Williams	Cyfarwyddwr Cyllid a TG [Hyd fis Gorffennaf 2019]	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddo fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ▪ Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <u>Mae'n ofynnol iddo fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau eraill y Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 2/2	
Pete Hopgood	Cyfarwyddwr Interim Cyllid a TG [O fis Gorffennaf 2019]	▪ Aelod o'r Bwrdd <u>Arweinydd Gweithredol, ac mae'n ofynnol iddo fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ▪ Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <u>Mae'n ofynnol iddo fynychu:</u> ▪ Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ▪ Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio <u>Yn mynychu pob un o Bwyllgorau eraill y Bwrdd yn ôl y gofyn</u>	Presenoldeb ar y Bwrdd 5/5	

Atodiad 1

Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru 2019-20

Cyfarwyddyd Gweinidogol/ Cylchlythyr iechyd Cymru	Blwyddyn Mabwysiadu	Sefyllfa BIAP
Cyfarwyddyd Gweinidogol y cyfeiriwyd ato mewn llythyr oddi wrth Andrew Goodall, 19 Rhagfyr 2019 – Gweithredu ar Effeithiau Treth Pensiwn 2019/20	2019	Derbyniwyd a manylwyd arno mewn datganiadau ariannol.
WHC 2019 (001) – Newidiadau i argaeledd bwydydd heb glwten (GF) er mwyn trin clefyd seliag ar bresgripsiwn yn Lloegr – goblygiadau i Gymru	2019	Adroddwyd ar hyn i arweinwyr rhagnodi yn y Pwyllgor Cyffuriau a Therapiwteg. Nid oedd galw am gymryd camau penodol ym Mhowys.
WHC 2019 (002) – Yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch archebu brechlynnau fflw ar gyfer tymor 2019-20	2019	Rhaeadrwyd y cylchlythyr yn unol â'r canllawiau. Dosbarthwyd ef i aelodau Grŵp Llywio'r Fflw ar 07/02/19 ac ar 11/02/19. Adolygwyd ef yng nghyfarfod Grŵp Llywio'r Fflw ar 11/02/19.
WHC 2019 (003) – Rhestr o Gylchlythyrau Iechyd Cymru - 1 Awst 2018 hyd 31 Ionawr 2019	2019	Derbyniwyd yr holl Gylchlythyrau ar gyfer y cyfnod, a chymerwyd y camau gofynnol
WHC 2019 (004) – Dyletswyddau Ariannol Statudol a Gweinyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru	2019	Nodwyd cyfrifoldebau ariannol AaGIC
WHC 2019 (005) – Cynnal parhad cyflenwad meddyginiaethau pe baem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd 'heb gytundeb'	2019	Mae'r Pennaeth Fferylliaeth yn aelod o Grŵp Prinder Meddyginiaethau Llywodraeth Cymru Caiff y negeseuo ar gyfer risgiau prinder Cymru-eang ei reoli'n ganolog trwy'r grŵp hwn. O fewn Powys, rydyn ni 1. Wedi gofyn i'r tîm rheoli meddyginiaethau fynd ati i annog peidio â phentyrru cyflenwadau 2. Wedi gweithio gyda'n cyflenwyr ysbytai cyffredinol dosbarth i nodi gor-archebu posibl. Mae cyngor cenedlaethol wedi'i anfon at bob fferyllfa gymunedol a phractis meddygon teulu, ac ailadroddwyd y wybodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Therapiwteg a Chyffuriau Gofal Sylfaenol

WHC 2019 (006) – Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru Rhaglen Dreigl Flynyddol 2019 a 2020	2019	Archwiliadau sy'n berthnasol i BIAP ar y gweill, i'w cwblhau yn 2020
WHC 2019 (007) – Datganiad Ansawdd Blynyddol 2018 a 2019 - Canllawiau	2019	Paratowyd y Datganiad Ansawdd Blynyddol a'i gyhoeddi erbyn 31 Mai, yn ôl y gofyn.
WHC 2019 (008) – Newidiadau i'r Rhaglen Brechu rhag yr Eyr o 1 Ebrill 2019	Mawrth 2019	Rhaeadrwyd y cylchlythyr yn unol â'r canllawiau. Dosbarthwyd ef i aelodau o Grŵp Brechu Powys ar 19/02/19. Adolygwyd ef yng nghyfarfod Grŵp Brechu Powys ar 12/03/19.
WHC 2019 (011) – Rhoi argymhellion yr adolygiad o wasanaethau iechyd rhywiol ar waith – camau gweithredu hyd yn hyn a'r camau nesaf	2019	Papur Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad wedi'i baratoi ym mis Medi wrth ragweld y byddai yna Gylchlythyr Iechyd Cymru ar Iechyd Rhywiol ar ddod Cynhaliwyd gweithdy amlasiantaeth ym mis Hydref 2018 i baratoi'r blaenoriaethau perthnasol ar gyfer Cynllun Gwella Iechyd Rhywiol Powys Bydd y cynnwys yn cael ei ychwanegu fel rhan o'r ymateb gofynnol i Gylchlythyr Iechyd Cymru erbyn mis Mehefin 2019
WHC 2019 (012) – Gweithredu'r Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru, sef strategaeth ar gyfer rheoli gwaedlifau ôl-enedigol, mewn gwasanaethau mamolaeth	2019	Gwnaeth Powys roi elfen Gymunedol (asesiad risg cam 1 o Strategaeth Gwaedu Obstetrig Cymru) fel y strategaeth Cymru-gyfan gytunedig ar gyfer rheoli gwaedlifau ôl-enedigol, mewn gwasanaethau mamolaeth. Rhoddwyd hyfforddiant llawn i holl fydwragedd Powys yn niweddariadau Bydwreigiaeth 2019-20 yn ymwneud â defnyddio dogfennaeth a mesur gwaed a gollir yn wrthrychol. Gwneir profion VHA, hemoglobin a lactad cynnar yn y gymuned pan drosglwyddir cleifion ar gyfer gwaedlifau ôl-enedigol
WHC 2019 (013) - Canllawiau ar gyfer Ffurflenni Monitro Ariannol Misol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau 2019 a 2020	2019	Mae'r canllawiau wedi'u rhoi ar waith ac mae'r Tîm Cyllid yn glynu atyn nhw

WHC 2019 (014) – Y Broses Gymrodeddu ar gyfer Dadleuon – Canllawiau ar gyfer Dyledion sy’n Destun Dadl (anfonebau a chytundebau gwasanaeth) yn GIG Cymru 2019/20 – 2020/21	2019	Diwygiwyd canllawiau gan ymgorffori newid yn yr amserlen ar gyfer dadleuon ynglŷn â chytundebau gwasanaeth. Dilynir y canllawiau hyn lle bo angen. Ni fu unrhyw ofynion am gymrodeddu yn ystod 2019/20
WHC 2019 (015) – Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio Rhag y Ffliw 2019-2020	2019	Anfonwyd y cylchlythyr at swyddogion arweiniol. Roedd camau gweithredu perthnasol yn WHC 015/2019 yn cynnwys cynllun gweithredu brechlyn y fflw tymhorol BIAP a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Gorffennaf 2019. Amgaead – Rhaglen Brechu Rhag y Ffliw ar gyfer Plant 2019/20 – Manyleb Gwasanaeth Ychwanegol Cenedlaethol
WHC 2019 (016) – Etholiadau Seneddol Ewropeaidd- 23 Mai 2019	2019	Cyhoeddodd Cyhoeddiadau Powys ganllawiau a chynhwyswyd y canllawiau hyn yn y Polisi Safonau Ymddygiad
WHC 2019 (017) – Canllawiau ar Fyw gyda Phoen Parhaus yng Nghymru	2019	Mae Powys wedi cyflwyno Llwybr Poen Cronig sy’n cydymffurfio â chanllawiau NICE.
WHC 2019 (018) – Llwybr ar gyfer Cyfathrebu Estynedig ac Amgen	2019	Rhaeadrwyd y cylchlythyr yn unol â’r canllawiau.
WHC 2019 (019) – Nodau gwella ymwrthedd i gyffuriau a heintiau cysylltiedig â gofal iechyd 2019-20	2019	Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 5 mlynedd 2019 – 2024, sy’n tanategu Strategaeth Ymwrthedd i Gyffuriau y DU 2020
WHC 2019 (020) – Newidiadau i’r rhaglen imiwneiddio Papiloma Dynol (HPV) ar gyfer y flwyddyn ysgol academiaidd yn dechrau ym mis Medi 2019	2019	Anfonwyd y cylchlythyr at y swyddog arweiniol ar gyfer y gwasanaeth nyrsys ysgol. Cadarnhawyd bod cynlluniau ar waith i ymestyn y rhaglen imiwneiddio HPV o fis Medi 2019, yn unol â’r gofynion.
WHC 2019 (021) – Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau i Bobl sy’n Agored i Niwed	2019	Mae’r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol nawr yn trosglwyddo FP17au ac mae pob cam gweithredu wedi’i gymryd.
WHC 2019 (022) – Rhannu gwybodaeth cleifion rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol – cyd-ddatganiad gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a Choleg yr Optometryddion	2019	Rhoddwyd gwybod i ymgynghorwyr am y gofynion.

WHC 2019 (023) – DIWEDDARU CANLLAWIAU AR GYFER CLIRIO A RHEOLI GWEITHWYR GOFAL IECHYD SY’N BYW Â FEIRWS A GLUDIR YN Y GWAED	2019	Meddyg Iechyd Galwedigaethol yn diwygio canllawiau y dylid bod wedi’u cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2020
WHC 2019 (024) – Pertussis – brechiad galwedigaethol i weithwyr gofal iechyd	2019	Nid oes unrhyw Gyfarwyddiadau Grŵp Cleifion ar gyfer pertussis – roedd hyn i fod i gael ei drafod gyda Rheolwyr Meddyginiaethau ar 5 Mawrth 2020. Mae hyn yn cael ei liniaru gan fod Meddyg Iechyd Galwedigaethol yn llofnodi presgripsiynau unigol. Bydd y ffocws ar bertussis yn cynyddu nawr bod ymgyrch y fflw yn dirwyn i ben. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd oedi â'r cynnydd gan ddibynnu ar y galw y mae COVID-19 yn ei gynhyrchu.
WHC 2019 (003) – Rhestr o Gylchlythyrau Iechyd Cymru – 1 Chwefror 2019 hyd 31 Gorffennaf 2019	2019	Derbyniwyd yr holl Gylchlythyrau ar gyfer y cyfnod, a chymerwyd y camau gofynnol.
WHC 2019 (026) – Asesiad Cleifion Mewnol sy’n Oedolion ac Asesiadau Risg Craidd wedi’u Safoni’n Genedlaethol	2019	Cydymffurfiwyd â hwn.
WHC 2019 (027) – Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau - Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau’r GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a’r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys	2019	Cymeradwyodd y Bwrdd y fersiynau diwygiedig ym mis Tachwedd 2019
WHC 2019 (028) – Rheolau wedi’u cydgrynhoi ar gyfer rheoli amseroedd aros canser	2019	Yn achos Gofal Wedi’i Gynllunio, rheolir cleifion yn unol ag elfennau perthnasol y canllawiau wedi’u cydgrynhoi (yn bennaf o ran dechrau’r llwybr a diagnosteg; nid yw BIAP yn ymgymryd â’r driniaeth)
WHC 2019 (029) – Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2020-23	2019	Mae CTCI 2020/2023 BIAP wedi’i ddatblygu yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2020-23. Cymeradwyodd Bwrdd BIAP y CTCI ym mis Ionawr 2020 a chyflwynwyd ef i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef diwedd mis Ionawr 2020.

WHC 2019 (030) – Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) Cenedlaethol – Adolygiad Cymru Gyfan o CTCIau GIG ar gyfer 2019-22	2019	Mae CTCI 2020/2023 BIAP wedi'i ddatblygu yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2020-23. Cymeradwyodd Bwrdd BIAP y CTCI ym mis Ionawr 2020 a chyflwynwyd ef i Lywodraeth Cymru ar gyfer y dyddiad cau, sef diwedd mis Ionawr 2020.
WHC 2019 (031) – Canllawiau'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer adrannau'r DU ar opsiynau lliniaru ar gyfer risgiau i lif data	2019	Defnyddiwyd y canllawiau fel rhan o gynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb hyd at 31ain Ionawr 2020. Ailedrychir ar hyn yn ail hanner 2020, gan ddibynnu ar gyfeiriad Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ynglŷn â chynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb.
WHC 2019 (032) - Anghenion Cyfathrebu Colli Synhwyrdd (Safon Gwybodaeth Hygyrch) - rhieni a gofalmwr cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.	2019	Fel gwasanaeth, cofnodir y ffordd y mae rhywun yn dewis cyfathrebu ar ffurflenni atgyfeirio.
WHC 2019 (034) - Y Llwybrau Cenedlaethol Gorau ar gyfer Canser (2019, tranche 1)	I'w gadarnhau	Mae gwella'r ffordd o gipio data'n dangos bod angen mwy o waith i sicrhau ein bod yn cyrraedd targed 62 diwrnod ar gyfer diagnosis. Mae gofyn rhoi sylw i ymwybyddiaeth o symptomau, annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd sgrinio ac ymgynghoriadau gofal iechyd i adolygu symptomau a allai awgrymu cyflwr difrifol a chynyddu amheuaeth clinigol ymhlith darparwyr gofal iechyd.
WHC 2019 (035) - Etholiad Cyffredinol y DU 2019	2019	Rhannwyd y canllawiau trwy Gyhoeddiadau Powys. Diweddarwyd y Polisi Ymddygiad i gynnwys canllawiau diwygiedig.
WHC 2019 (036) - Etholiad Cyffredinol y DU 2019 - Canllawiau ar gyfer GIG Cymru	2019	Rhannwyd y canllawiau trwy Gyhoeddiadau Powys. Diweddarwyd y Polisi Ymddygiad i gynnwys canllawiau diwygiedig.
WHC 2019 (037) - Archebu brechlynnau ffliw ar gyfer tymor 2020-2021	2019	Dosbarthodd Llywodraeth Cymru gyngor i feddygon teulu a fferyllwyr cymunedol. Rhannwyd hyn yn fewnol trwy aelodaeth Grŵp Llywio'r Ffliw BIAP (gan gynnwys gyda Rheolwyr Meddyginiaethau, yr Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth).
WHC 2019 (038) - Canllawiau ar gyfer darparu cynhyrchion ymataliaeth i oedolion yng Nghymru	2019	Canllawiau Cymru Gyfan wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith yn lleol. Archwiliad lleol ar y gweill i gadarnhau ein bod yn

		cydymffurfio erbyn mis Mawrth 2021.
WHC 2019 (039) - Egwyddorion arferion gweithio da ar gyfer defnyddio hebryngwyr yn ystod archwiliadau neu driniaethau personol o fewn GIG Cymru	2020	Y Grŵp Diogelu wedi cymryd camau gweithredu yn ystod mis Ionawr 2020.
WHC 2019 (040) - Dyraniadau Cyllid Bwrdd Iechyd 2020-21	2020	Nodwyd. Manylion wedi'u cynnwys yn CTCI 2020-23.
WHC 2019 (041) - Newidiadau i amserlen frechu y brechlyn niwmococol cyfun i fabanod (PCV).	2020	Wedi'i dderbyn a'i raeadru i arweinydd clinigol.
WHC 2019 (042) - Datganiad Ansawdd Blynyddol 2019 / 2020 - Canllawiau	2020	Nodwyd. Adroddiad Ansawdd Blynyddol i'w ddatblygu erbyn mis Medi 2020, yn unol ag amserlenni diwygiedig.
WHC 2020 (003) - Rhaglen Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth - Gofynion Data	2020	Wedi'i raeadru i dimau comisiynu a gwybodaeth i gymryd camau gweithredu.
WHC 2020 (004) - Rhestr o Gylchlythyrau Iechyd Cymru - 1 Awst 2019 hyd 31 Ionawr 2020	2020	Derbyniwyd yr holl Gylchlythyrau ar gyfer y cyfnod, a chymerwyd y camau gofynnol.
WHC 2020 (006) - YMATEB I COVID-19 - PARHAU Â RHAGLENNI IMIWNEIDDIO	2020	Wedi'i dderbyn a'i raeadru i arweinydd clinigol.

RHAN B: ADRODDIAD AR DALIADAU A STAFF

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am daliadau i uwch reolwyr, cymarebau tâl teg, cyfraddau absenoldeb salwch at ati, ac mae wedi'i lunio gan y Gyfarwyddiaeth Gyllid a Chyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

YR ADRODDIAD AR DALIADAU A STAFF

CEFNDIR

Mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG baratoi Adroddiad ar Daliadau, gan ddarparu gwybodaeth dan y penawdau yn SI 2008 Rhif 410, i'r graddau eu bod yn berthnasol. Mae'r Adroddiad ar Daliadau'n cynnwys gwybodaeth am daliadau i uwch reolwyr. Y diffiniad o "Uwch Reolwr" yw:

"y bobl hynny sydd mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Golyga hyn y rheiny sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r sefydliad cyfan yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol."

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Atebolrwydd yn bodloni'r gofynion hyn.

Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL A THELERAU GWASANAETH

Cytunir ar dâl a thelerau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Weithredwr, ac mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth yn cadw llygad ar y rhain. Mae'r Pwyllgor hefyd yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr unigol (gyda'r Prif Weithredwr yn eu cyngori yn achos y Cyfarwyddwyr).

Yn 2019-20, Cadeirydd y bwrdd iechyd, Vivienne Harpwood, sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Aelodau a ganlyn:

- Melanie Davies, Is-gadeirydd y Bwrdd;
- Tony Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;
- Matthew Dorrance, Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau; a
- Susan Newport, Aelod Annibynnol (Undeb Llafur)

Cedwir cofnodion o gyfarfodydd a chofnodir penderfyniadau'n llawn.

TALIADAU AELODAU ANNIBYNNOL

Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar daliadau i Aelodau Annibynnol, a'r Llywodraeth sydd hefyd yn pennu pa mor hir y bydd penodiad yn para.

TALIADAU CYFARWYDDWYR AC AELODAU ANNIBYNNOL

Ceir manylion am daliadau Cyfarwyddwyr ac Aelodau Annibynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, ynghyd â chymaryddion, yn Nhabl 2 gyferbyn.

Y peth arferol yw i Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr gael

codiad cyflog yn unol â chanran chwyddiant arferol i gyflogau y mae Llywodraeth Cymru'n ei nodi. Yn 2019-20, derbyniodd Cyfarwyddwyr Gweithredol godiad chwyddiant i gyflogau, yn unol â Fframwaith Llywodraeth Cymru.

Pe bai unrhyw godiad yn uwch na'r lefel hon, yna cytunir ar hyn bob amser o ganlyniad i newidiadau mewn rolau a chyfrifoldebau, a hynny â chyngor oddi wrth ymgynghoriaeth annibynnol sy'n arbenigo mewn gwerthuso swyddi ac mewn taliadau gweithredwyr o fewn y GIG. Hefyd, byddai'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth yn derbyn adroddiad manwl ar y materion i'w hystyried o ran unrhyw godiad cyflog i Gyfarwyddwyr Gweithredol (gan gynnwys cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru) ac, ar ôl ystyried yr holl gyngor a materion ger eu bron, byddai'n adrodd ar ei argymhellion i'r Bwrdd eu cadarnhau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu amcanion sydd wedi'u gosod ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac yn asesu perfformiad yn ôl yr amcanion hynny wrth ystyried argymhellion sy'n ymwneud â chodiadau cyflog blyneddol.

Dylid nodi nad yw Cyfarwyddwyr Gweithredol ar unrhyw ffurf ar dâl cysylltiedig â pherfformiad. Mae pob contract yn barhaol, lle mae'n rhaid rhoi rhybudd o dri mis. Gosododd Llywodraeth Cymru amodau fel rhan o Raglen Diwygio'r GIG yn 2009. Fodd bynnag, am ran o'r flwyddyn roedd yna Gyfarwyddwyr interim mewn swyddi; Cyfarwyddwr Interim Nyrsio a Chyfarwyddwr Interim Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, a Chyfarwyddwr Interim Cyllid a TG.

TABL DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU: CYFLOGAU A LWFANSAU

	2019-20						2018-19					
	Cyflog	Buddion Mewn	Tâl Perfformiad	Tâl Perfformiad	Cyflog Holl	Cyfanswm	Cyflog	Buddion Mewn	Tâl Perfformiad	Tâl Perfformiad	Cyflog Holl	Cyfanswm
		Nwyddau	a Bonysau	a Bonysau	Fuddion Cysylltiedig	taliad sengl		Nwyddau	a Bonysau	a Bonysau	Fuddion Cysylltiedig	taliad sengl
				Tymor Hir	â Chyflog					Tymor Hir	â Chyflog	
Enw a theitl	(bandiau £5,000)	(yn drethadwy) i'r £100 agosaf)	(bandiau £5,000)	(bandiau £5,000)	(bandiau £2,500)	(bandiau £5,000)	(bandiau £5,000)	(yn drethadwy) i'r £100 agosaf)	(bandiau £5,000)	(bandiau £5,000)	(bandiau £2,500)	(bandiau £5,000)
	£000	£00	£000	£000	£000	£000	£000	£00	£000	£000	£000	£000
Cyfarwyddwyr gweithredol												
Carol Shillabeer - Prif Weithredwr	165 - 170	0	0	0	42.5 - 45.0	210 - 215	160 - 165	0	0	0	2.5 - 5.0	165 - 170
Julie Rowles - Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol **	115 - 120	59	0	0	102.5 - 105.0	225 - 230	105 - 110	47	0	0	(42.5) - (45.0)	65 - 70
Catherine Woodward - Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (o 1af Medi 2018 hyd 31ain Ionawr 2019)	0	0	0	0	0	0	110 - 115	0	0	0	90.0 - 92.5	200 - 205
Hayley Thomas - Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad **	115 - 120	65	0	0	72.5 - 75.0	195 - 200	105 - 110	55	0	0	42.5 - 45.0	155 - 160
Rhiannon Jones - Cyfarwyddwr Nysio a Chyfarwyddwr Interim Therapiau a Gwyddorau Iechyd (hyd 14eg Gorffennaf 2019)	35 - 40	20	0	0	55.5 - 57.0	95 - 100	105 - 110	58	0	0	22.5 - 25.0	135 - 140
Eifion Williams - Cyfarwyddwr Interim Cylid (hyd 30ain Gorffennaf 2019)	30 - 35	0	0	0	0	30 - 35	130 - 135	0	0	0	10.0 - 12.5	140 - 145
Stuart Bourne - Cyfarwyddwr Interim Iechyd Cyhoeddus (hyd 31ain Awst 2018) - Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (o 1af Chwefror 2019)	105 - 110	0	0	0	12.5 - 15.0	115 - 120	75 - 80	0	0	0	7.5 - 10.0	85 - 90
Patsy Roseblade - Cyfarwyddwr Interim Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (o 15fed Hydref 2018 hyd 14eg Ebrill 2019)	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10	50 - 55	0	0	0	27.5 - 30.0	75 - 80
Wyn Parry - Cyfarwyddwr Meddygol (o 10fed Medi 2018)	130 - 135	0	0	0	140.0 - 142.5	270 - 275	70 - 75	0	0	0	67.5 - 70.0	140 - 145
Pete Hopgood - Cyfarwyddwr Interim Cylid (o 1af Gorffennaf 2019)	100 - 105	0	0	0	132.5 - 135.0	235 - 240	0	0	0	0	0	0
Jamie Marchant - Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Gofal Iechyd (o 11eg Mehefin 2019)	80 - 85	0	0	0	15.0 - 17.5	95 - 100	0	0	0	0	0	0
Katrina Rowlands - Cyfarwyddwr Interim Nysio (o 15fed Gorffennaf 2019 hyd 19eg Ionawr 2020)	50 - 60	0	0	0	132.5 - 135.0	185 - 190	0	0	0	0	0	0
Rani Mallison - Ysgifennydd y Bwrdd	75 - 80	0	0	0	105.0 - 107.5	180 - 185	0	0	0	0	0	0
Claire Madsen - Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd (o 7fed Ionawr 2020)	20 - 25	0	0	0	12.5 - 15.0	35 - 40	0	0	0	0	0	0
Alison Davies - Cyfarwyddwr Nysio (o 20fed Ionawr 2020)	15 - 20	0	0	0	20.0 - 22.5	35 - 40	0	0	0	0	0	0

	2019-20						2018-19					
	Cyflog	Buddion Mewn Nwyddau	Tâl Perfformiad a Bonysau	Tâl Perfformiad a Bonysau Tymor Hir	Cyflog Holl Fuddion Cysylltiedig â Chyflog	Cyfanswm taliad sengl	Cyflog	Buddion Mewn Nwyddau	Tâl Perfformiad a Bonysau	Tâl Perfformiad a Bonysau Tymor Hir	Cyflog Holl Fuddion Cysylltiedig â Chyflog	Cyfanswm taliad sengl
Enw a theitl	(bandiau £5,000)	(yn drethadwy) l'r £100 agosaf	(bandiau £5,000)	(bandiau £5,000)	(bandiau £2,500)	(bandiau £5,000)	(bandiau £5,000)	(yn drethadwy) l'r £100 agosaf	(bandiau £5,000)	(bandiau £5,000)	(bandiau £2,500)	(bandiau £5,000)
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cyfarwyddwyr gweithredol												
Aelodau Cyswllt												
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys (Alison Bulman)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (l'w gadarnhau)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhannoddol (l'w gadarnhau)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Aelodau Nad Ydynt yn Swyddogion												
Yr Athro Vivienne Harwood - Cadeirydd *	50 - 55	0	0	0	0	50 - 55	40 - 45	0	0	0	0	40 - 45
Melanie Davies - Is-gadeirydd	30 - 35	0	0	0	0	30 - 35	30 - 35	0	0	0	0	30 - 35
Matthew Dorrance - Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol)	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10
Patricia Buchan - Aelod Annibynnol (Trydydd Sector)	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10	10 - 15	0	0	0	0	10 - 15
Mark Baird - Aelod Annibynnol (TGCh - hyd 30ain Mehefin 2018)	0	0	0	0	0	0	0 - 5	0	0	0	0	0 - 5
Sara Williams - Aelod Annibynnol (Cyfalaf ac Ystadau hyd 30ain Medi 2018)	0	0	0	0	0	0	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10
Owen James - Aelod Annibynnol (Cymunedol)	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10
Anthony Thomas - Aelod Annibynnol (Cyllid)	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10
Duncan Forbes - Aelod Annibynnol (Cyfreithiol - hyd 7fed Awst 2019)	0 - 5	0	0	0	0	0 - 5	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10
Frances Gerrard - Aelod Annibynnol (Swydd Prifysgol sy'n ymwneud ag iechyd)	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10
Ian Phillips - Aelod Annibynnol (TGCh - o 1af Medi 2018)	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10
Susan Newport - Aelod Annibynnol (Undebau Llafur - o 1af Medi 2018)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Mark Taylor - Aelod Annibynnol (Cyfalaf ac Ystadau o 3ydd Gorffennaf 2019)	5 - 10	0	0	0	0	5 - 10	0	0	0	0	0	0

*Sylwch fod yr Athro Vivienne Harpwood hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, a BIA Powys sy'n talu costau'r rôl hon ac yna'n ailgodi amdany'n nhw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau uchod

** Sylwch fod ffigur y cyflog ar gyfer 2019-20 yn cynnwys ôl-daliadau'n berthynol i 2018-19

Mae'r Adroddiad ar Daliadau nawr yn cynnwys Ffigur Cyfanswm Taliad Sengl, sy'n ffordd wahanol o gyflwyno'r taliadau ar gyfer pob unigolyn am y flwyddyn. Mae'r tabl a ddefnyddir yn debyg i'r tabl a ddefnyddiwyd o'r blaen, ac nid yw'r elfennau cyflog a buddion mewn nwyddau wedi newid. Cyfrifir swm y buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at ffigur y cyfanswm sengl gan ddefnyddio dull tebyg i'r dull a ddefnyddir i bennu gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac mae wedi'i seilio ar wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Asiantaeth Pensiynau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Cyfrifir gwerthoedd buddion pensiwn fel a ganlyn: (gwir gynnydd mewn pensiwn* x20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau gan yr aelod)

*heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd hawliau trosglwyddo pensiwn
Nid yw'r Ffigur Cyfanswm Taliad Sengl yn swm y mae'r BIA wedi'i dalu i unigolyn yn ystod y flwyddyn; yn hytrach, cyfrifiad ydyw sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigyrau hyn e.e. newidiadau i gyflog rhywun, p'un a ydyn nhw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u tâl ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn fel cyfanwaith.

Perthynas Taliadau

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. £165,000 i £170,000 oedd tâl wedi'i fandio y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn BIAP ym mlwyddyn ariannol 2019-20 (2018-19, £160,000 i £165,000). Roedd hyn 5.61 gwaith (2018-19, 5.75 gwaith) tâl canolrifol y gweithlu, sef £29,763 (2018-19, £28,479).

Yn 2019-20, derbyniodd 1 (2018-19, 2) gweithiwr dâl a oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Roedd taliadau i staff yn amrywio o £17,652 i £169,422 (2018-19 £17,460 i £171,635).

	2019-20	2018-19
Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwyr ar y Cyflog Uchaf £000	165 - 170	160 - 165
Cyfanswm Tâl Canolrifol £000	30	28
Cymhareb	5.6	5.8

Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad ar wahân, a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau'r cyflogwr at bensiwn a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod. Cynhwysir taliadau goramser wrth gyfrifo'r ddwy elfen o'r berthynas.

TABL DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU: BUDDION PENSIWN

Enw a Theitl	Gwir Gynnydd mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau £2,500) £000	Gwir gynnydd mewn cyfandaliadau pensiwn yn 60 oed (bandiau £2,500) £000	Cyfanswm pensiwn cronnus yn 60 oed ar 31 Mawrth 2020 (bandiau £5,000) £000	Cyfundaliad yn 60 oed yn berthynol i'r pensiwn cronnus ar 31 Mawrth 2020 (bandiau £5,000) £000	Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2020 £000	Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2019 £000	Gwir gynnydd mewn gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod £000	Cyfraniad y cyflogwr at bensiwn cyfranddeiliaid £000
Carol Shillabeer - Prif Weithredwr	2.5 - 5.0	0.0 - 2.5	55 - 60	145 - 150	1,070	981	66	0
Julie Rowles - Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	5.0 - 7.5	7.5 - 10.0	55 - 60	140 - 145	1,168	1,018	126	0
Hayley Thomas - Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad	2.5 - 5.0	5.0 - 5.5	30 - 35	70 - 75	552	469	71	0
Rhiannon Jones - Cyfarwyddwr Nyrsio a Chyfarwyddwr Interim Therapiau a Gwyddorau Iechyd (hyd 14eg Gorffennaf 2019)	2.5 - 5.0	7.5 - 10.0	50 - 55	155 - 160	1,091	891	59	0
Eifion Williams - Cyfarwyddwr Interim Cyllid (hyd 30ain Gorffennaf 2019)**	0	0	0	0	0	1,742	0	0
Stuart Bourne - Cyfarwyddwr Interim Iechyd Cyhoeddus (hyd 31ain Awst 2018) - Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (o 1af Chwefror 2019)	0.0 - 2.5	0.0 - (2.5)	30 - 35	70 - 75	584	545	26	0
Patsy Roseblade - Cyfarwyddwr Interim Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (o 15fed Hydref 2018 hyd 14eg Ebrill 2019)**	0	0	0	0	0	643	0	0
Wyn Parry - Cyfarwyddwr Meddygol (o 10fed Medi 2018)*	5.0 - 7.5	20.0 - 22.5	45 - 50	145 - 150	0	997	0	0
Pete Hopgood - Cyfarwyddwr Interim Cyllid (o 1af Gorffennaf 2019)	7.5 - 10.0	17.5 - 20.0	35 - 40	80 - 85	632	457	124	0
Jamie Marchant - (o 11eg Mehefin 2019)	0.0 - 2.5	0.0 - (2.5)	25 - 30	50 - 55	463	427	21	0
Katrina Rowlands - Cyfarwyddwr Interim Nyrsio (o 15fed Gorffennaf 2019 hyd 19eg Ionawr 2020)*	5.0 - 7.5	(7.5) - (10.0)	45 - 50	75 - 80	0	0	0	0
Rani Mallison - Ysgrifennydd y Bwrdd	5.0 - 7.5	10.0 - 12.5	10 - 15	25 - 30	183	111	70	0
Claire Madsen - Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd (o 7fed Ionawr 2020)	0.0 - 2.5	0.0 - 2.5	25 - 30	75 - 80	549	475	15	0
Alison Davies - Cyfarwyddwr Nyrsio (o 20fed Ionawr 2020)***	0.0 - 2.5	2.5 - 5.0	30 - 35	100 - 105	0	0	0	0

Mae'r cyfrifiadau uchod wedi'u darparu gan Asiantaeth Pensiynau'r GIG ac maen nhw wedi'u seilio ar yr oedran pensiynadwy safonol, sef 60 oed.

Yn achos Cyfarwyddwyr â * wrthyn nhw:

* mae'r aelod yn hŷn nag oedran ymddeol arferol yn ei gynllun presennol, felly nid yw cyfrifiadau CETV yn berthnasol

** mae'r aelodau nawr wedi ymddeol

*** nid yw ffigyrau CETV ar gael ar hyn o bryd

Gan nad yw aelodau sydd ddim yn Swyddogion yn derbyn tâl pensiynadwy, ni fydd unrhyw gofnodion o ran pensiynau aelodau Anweithredol.

GWERTHOEDD TROSLWYDDO SY'N GYFWERTH AG ARIAN PAROD

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf wedi'i asesu gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn sydd wedi'i gronni gan aelod ar unrhyw amser penodol. Y buddion y rhoddir gwerth iddyn nhw yw buddion cronnus yr aelod, ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn yw CETV, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigyrau CETV a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol sydd wedi'u cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu blynyddoedd pensiwn ychwanegol yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod o fewn y canllawiau a fframwaith a ragnodir gan Athrofa a Chyfadrannau yr Actiwariad.

GWIR GYNNYDD YN Y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob diben. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

MANYLION STAFFIO

PROFFIL STAFF

Ar 31 Mawrth 2020, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflogi cyfanswm o 1709.26 o staff a oedd yn gyfwerth â swyddi amser cyflawn (WTE). Mae'r tabl isod yn manylu ar y grwpiau staff rydyn ni'n eu cyflogi, heb gynnwys gwasanaethau rydyn ni'n eu gwesteio, fel y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Grŵp Staff	WTE Wythnosol Cyfartalog 19/20	WTE Wythnosol Cyfartalog 18/19
Gweithwyr Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol Ychwanegol	59.83	53.96
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	327.56	306.20
Gweinyddol a Chlercaidd	413.3	510.61
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	123.81	118.44
Ystadau ac Ategol	161.76	151.11
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	2.43	2.58
Meddygol a Deintyddol	36.55	32.61
Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig	541.62	531.94
Cyfanswm Terfynol	1667	1707.45

CYFANSODDIAD Y STAFF

Ar 31 Mawrth 2020, roedd cyfansoddiad staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel a ganlyn:

	Benyw	Gwryw
Cyfarwyddwyr	5	4
Cyflogeion	1,815	302

ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH

Mae gwybodaeth 2019-20 am absenoldeb oherwydd salwch i'w gweld yn y tabl isod:

	2019/2020	2018/19
Diwrnodau a Gollwyd Tymor Hir	22268.65	21071.66
Diwrnodau a Gollwyd Tymor Byr	7625.87	7037.26
Cyfanswm Diwrnodau a Gollwyd	29894.52	28108.92
Cyfanswm Blynnyddoedd Staff	81.90	77.01
Diwrnodau Gweithio a Gollwyd ar Gyfartaledd	17.96	15.85
Cyfanswm Staff a Gyflogwyd yn y Cyfnod (Cyfrif Pennau)	2126	2182
Cyfanswm Staff a Gyflogwyd yn y Cyfnod heb unrhyw absenoldeb (Cyfrif Pennau)	945	978
Canran y Staff heb unrhyw Absenoldeb Oherwydd Salwch	45.56%	44.82%

POLISIÂU STAFF

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys amrywiaeth o bolisiau staff ar waith. Y polisiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol:

- I roi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau pobl anabl am waith, gan ystyried eu doniau a'u galluoedd penodol.
- I barhau i gyflogi, ac i drefnu hyfforddiant priodol ar gyfer cyflogaeth sydd wedi dod yn bobl anabl yn ystod y cyfnod roedd y cwmni'n eu cyflogi.
- Fel arall, i hyfforddi, datblygu gyrfa a hybu pobl anabl y mae'r bwrdd iechyd yn eu cyflogi.

oedd y *Polisi Cyflogi Pobl Anabl* a'r *Polisi ar Asesu Effaith ar*

Gydraddoldeb. Defnyddiwyd y rhain ochr yn ochr ag amrywiaeth o

bolisiau eraill, fel y *Polisi Absenoldeb Oherwydd Salwch* a'r *Polisi*

Recriwtio a Dethol i sicrhau bod ceisiadau pobl anabl am waith yn cael ystyriaeth deg, ac i gefnogi eu cyflogaeth barhaus.

SICRWYDD TRETH Y RHEINI SY'N CAEL EU PENODI OND NAD YDYN NHW AR Y GYFLOGRES

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos pawb a oedd wedi'u penodi ond nad oedden nhw ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2019, am fwy na £245 y dydd, ac a barhaodd yn hirach na chwe mis:

▪ Cyfanswm nifer y penodiadau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2020;	0
▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd;	0
▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd;	0
▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd;	0
▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd; a	0
▪ Nifer y rhai a oedd wedi bodoli am bedair neu fwy o flynyddoedd ar adeg adrodd.	0

Ni fu unrhyw benodiadau newydd, neu'r rheini a gyrhaeddodd chwe mis o hyd yn ystod 2019-20.

Ni fu unrhyw benodiadau nad oedden nhw ar y gyflogres ymhlith aelodau'r bwrdd, a/ neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

PECYNNAU YMADAEL A THALIADAU DISWYDDO

Mae'r datgeliad hwn yn adrodd ar nifer a gwerth y pecynnau ymadael a gymerwyd gan staff a adawodd yn ystod y flwyddyn. Mae'r datgeliad hwn yn ofynnol i atgyfnerthu atebolrwydd o ystyried pryder y cyhoedd a Senedd y DU ynglŷn ag amllder a chost y taliadau hyn.

Band costau pecynnau ymadael (gan gynnwys unrhyw elfen taliad arbennig)	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Cost y diswyddiadau gorfodol	Nifer yr ymadawiadau eraill	Cost yr ymadawiadau eraill	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	Cyfanswm cost y pecynnau ymadael	Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig	Cost elfen arbennig a gynhwyswyd mewn pecynnau ymadael
	Cyfanrifau yn unig	£oedd	Cyfanrifau yn unig	£oedd	Cyfanrifau yn unig	£oedd	Cyfanrifau yn unig	£oedd
Band costau pecynnau ymadael								
llai na £10,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£10,000 i £25,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£25,000 i £50,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£50,000 i £100,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£100,000 i £150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£150,000 i £200,000	0	0	0	0	0	0	0	0
mwy na £200,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	0	0	0	0	0	0	0

Byddai costau diswyddiadau a chostau ymadael eraill, os y'u talwyd, wedi'u talu'n unol â darpariaethau Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol y GIG. Gwneir cyfrif llawn am gostau ymadael yn y nodyn hwn yn y flwyddyn ymadael ar sail arian parod, yn unol ag EPN 380 Atodiad 13C. Lle bo'r bwrdd iechyd wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, BIAP fyddai wedi talu am y costau ychwanegol yn hytrach na chynllun pensiwn y GIG. Cynllun pensiwn y GIG sy'n talu am gostau ymddeol oherwydd iechyd gwael, ac nid ydyn nhw wedi'u cynnwys yn y tabl.

RHAN C: ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDD CYMRU

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddatgeliadau ynglŷn â rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a symiau a godir, cydymffurfiaeth â gofynion dyrannu a chodi costau y manylir arnyn nhw yng nghanllawiau Trysorlys EM, rhwymedigaethau digwyddiadol materol sy'n annhebygol o ddigwydd, tueddiadau gwariant tymor hir, a thystysgrif ac adroddiad yr archwiliad

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rheoleidd-dra Gwariant

Mae rheoleidd-dra'n ofynnol ar gyfer pob eitem gwariant a derbyniadau i'w trin yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdod dirprwyedig perthnasol a rheolau Cyfrifyddu Llywodraeth.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn sicrhau bod y cyllid y mae Gweinidogion Cymru'n ei ddarparu wedi'i wario at y dibenion roedd y Gweinidogion yn eu bwriadu, a bod yr adnoddau y mae Gweinidogion Cymru'n eu hawdurdodi i'w defnyddio wedi'u defnyddio at y dibenion yr awdurdodwyd eu defnyddio ar eu cyfer.

Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yw'r Swyddog Atebol ac mae'n sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol bod y Prif Weithredwr:

- yn dilyn y cyfarwyddiadau cyfrifon y mae Gweinidogion Cymru'n eu cyhoeddi, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, ac yn defnyddio polisiau cyfrifyddu priodol yn gyson;
- yn barnu ac yn llunio amcangyfrifon ar sail resymol;
- yn datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol ac yn datgelu ac yn esbonio unrhyw amrywiadau perthnasol iddyn nhw; ac
- yn eu paratoi ar sail busnes hyfyw gan ragdybio y bydd gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu.

Ffioedd a Symiau a Godir

Pan mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â gweithgareddau nad yw Llywodraeth Cymru'n eu hariannu'n uniongyrchol, mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn incwm i dalu ei gostau a fydd yn gwrthbwysu gwariant yr adroddir arno dan feysydd rhaglenni. Gellir gweld Incwm Amrywiol yn Nodyn 4 (tudalen 29) y Cyfrifon Blynnyddol.

Wrth godi am y gweithgaredd hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â gofynion o ran dyrannu a chodi am gostau y mae canllawiau Trysorlys EM yn manylu arnyn nhw.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol sy'n Annhebygol o Ddigwydd

Gwneir rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n annhebygol o ddigwydd ar gyfer tri chategori, sef indemniadau, llythyrau cysur a gwarantau. £0.00m yw gwerth y rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n annhebygol o ddigwydd ar gyfer 2019-20 a datgelir hyn yn nodyn 21.2 (tudalen 55) o Gyfrifon Blynnyddol y Bwrdd Iechyd.

Y DYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL AR GYFER ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD

ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

Barn

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o'r Llif Arian a'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau perthynol, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM sydd wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o amgylchiadau Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar 31 Mawrth 2020 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Sail i'r farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Ceir disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno ynglŷn â'r materion a ganlyn y mae ISAs (UK) yn gofyn fy mod yn adrodd ichi amdanyn nhw:

- pan fo'n amhriodol defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- pan fo'r Prif Weithredwr heb ddatgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai beri amheuaeth arwyddocaol ynglŷn â gallu'r bwrdd i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Pwyslais ar Fater – effeithiau Covid-19 ar brisiad tir ac adeiladau

Rwy'n dwyn sylw at Nodyn 1.24 y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio cymal ansicrwydd prisiad sylweddol yn yr adroddiad ar brisiad rhai eitemau eiddo penodol yn codi yn sgil amgylchiadau y mae'r pandemig Covid-19 wedi'u hachosi. Nid yw fy marn wedi newid o ran y mater hwn.

Pwyslais ar Fater – Rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr

Rwy'n dwyn sylw at Nodyn 21.1 y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn gorchymyn iddi ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG yr oedd cyrff GIG Cymru wedi mynd i gostau ar eu cyfer o ran blwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datgelu bod rhwymedigaethau digwyddiadol yn bodoli ar 31 Mawrth 2020, ac nid yw fy marn wedi newid o ran y mater hwn.

Gwybodaeth arall

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i arnyn nhw fel archwilydd. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni, oni bai y dywedir yn bendant fel arall yn fy adroddiad.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol anghywir i bob golwg, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol, byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion y mae'r Senedd wedi'u bwriadu ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

ADRODDIAD AR OFYNION ERAILL

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar daliadau i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru dan y ddeddf honno.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd y Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd yr Adroddiad Atebolrwydd yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnyn nhw fel eithriad

O ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth y bwrdd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno o ran y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad ichi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifo priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifo a'r dychwelebau;
- na ddatgelwyd gwybodaeth y manylwyd arni gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru o ran taliadau a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

CYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, y manylir arnyn nhw ar dudalennau 12 a 14, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol o'r fath y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi

paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r bwrdd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu materion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw fel bo'n berthnasol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni ystyrir hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn rhydd o gamddatganiad perthnasol ai peidio, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn datgelu camddatganiad perthnasol pan mae'n bodoli.

Gall camddatganiadau ddigwydd trwy dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellid disgwyl iddyn nhw, o fewn rheswm, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol

www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn llunio rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol fy mod i'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso i'r dibenion y mae'r Senedd wedi'u bwriadu a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrian Crompton

24 Ffordd y Gadeirlan

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Caerdydd

2 Gorffennaf 2020

CF11 9LJ

ADRAN TRI: Y DATGANIADAU ARIANNOL